# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2012**
**Tuesday, 4 December 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Datganiad: Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012
Statement: Royal Assent—the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

35 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

44 Datganiad: Cyflwyno'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
Statement: the Introduction of the Human Transplantation (Wales) Bill

6565 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012
The Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012

6666 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Debate on the General Principles of the Public Audit (Wales) Bill

89 Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
Motion to Approve the Financial Resolution of the Public Audit (Wales) Bill

89 Y Gyllideb Flynyddol
The Annual Budget

114 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Datganiad: Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012
## Statement: Royal Assent—the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012

**The Presiding Officer:** It gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order No. 26.75, the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 was given Royal Assent on 29 November 2012. [*Applause.*]

**Y Llywydd:** Mae'n rhoi pleser mawr i mi gyhoeddi bod Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 wedi derbyn cydsyniad Brenhinol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.75, ar 29 Tachwedd 2012. [*Cymeradwyaeth.*]

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Y GIG

### The NHS

***1. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau ar gyfer y GIG yng Nghymru. OAQ(4)0806(FM)*

***1. Nick Ramsay:*** *Will the First Minister provide an update on his plans for the NHS in Wales. OAQ(4)0806(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Yes, they are to be found in the programme for government and 'Together for Health'.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Gwnaf, maen nhw i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**Nick Ramsay:** As you will be aware, economist Gerry Holtham identified that up to half the Welsh population lives within 25 miles of the border with England, so cross-border health issues are particularly important to them. Recently, a number of constituents have expressed concern to me about the difficulties that they have faced in receiving care from hospitals just across the border in England, where previously they had been accepted for treatment. The Minister for Health and Social Services has been particularly helpful in a couple of these cases, but what is your Government doing overall to ensure that there is a cross-pollination, if you like, between the health service in England and in Wales? What are you doing to ensure that that happens as easily as possible, so that patients in Wales get the treatment that they deserve?

**Nick Ramsay:** Fel y gwyddoch, nododd yr economegydd Gerry Holtham bod hyd at hanner poblogaeth Cymru yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin â Lloegr, felly mae materion iechyd traws-ffiniol yn arbennig o bwysig iddynt. Yn ddiweddar, mae nifer o etholwyr wedi mynegi pryder i mi am yr anawsterau y maent wedi'u hwynebu i allu derbyn gofal gan ysbytai sydd ychydig dros y ffin yn Lloegr, lle yr oeddent yn flaenorol wedi cael eu derbyn ar gyfer triniaeth. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn arbennig o barod i helpu mewn un neu ddau o'r achosion hyn, ond beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud yn gyffredinol i sicrhau bod traws-beillio, os mynnwch chi, rhwng y gwasanaeth iechyd yn Lloegr ac yng Nghymru? Beth ydych chi'n ei wneud i sicrhau bod hynny'n digwydd mor rhwydd ag y bo modd, fel bod cleifion yng Nghymru yn cael y driniaeth y maent yn ei haeddu?

**The First Minister:** It is the responsibility of the health boards to secure high-quality care as close as possible to a patient's home, and the Minister for health has made them aware of that. It has been the case for many years that treatment is made available in England, and we expect that situation to continue in many cases.

**Y Prif Weinidog:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd yw sicrhau gofal o ansawdd uchel mor agos â phosibl i gartref y claf, ac mae'r Gweinidog iechyd wedi sicrhau eu bod yn ymwybodol o hynny. Mae'n wir bod triniaeth wedi bod ar gael yn Lloegr ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn disgwyl y bydd y sefyllfa honno'n parhau mewn llawer o achosion.

**Aled Roberts:** Cafwyd tystiolaeth yn ystod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma gan ddau o'r byrddau iechyd a oedd yn dweud eu bod yn wynebu diffyg eleni o £51 miliwn. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn poeni'r pwyllgor yn fwy na hynny oedd eu bod nhw yn dweud nad oedd rhai o'r targedau arbedion yn realistig ac nad oedd cynlluniau penodol y tu ôl i'r targedau hynny. A ydych yn fodlon bod monitro digon effeithiol o ran y gwasanaeth iechyd yn genedlaethol ar lefel Cymreig ar hyn o bryd?

**Aled Roberts:** In the Public Accounts Committee meeting this morning, we heard evidence from two of the health boards, which stated that they face a deficit of £51 million this year. However, what concerned the committee more than that was that they said that some of the savings targets were not realistic and that there were no specific plans behind those targets. Are you satisfied that the sufficiently effective monitoring of the health service is being carried out nationally at a Welsh level at the moment?

**Y Prif Weinidog:** Ydw, ac mae'r adroddiad archwilio mwyaf diweddar yn dangos bod y sefyllfa eleni yn well nag ydoedd y flwyddyn ddiwethaf.

**The First Minister:** I am, and the most recent audit report shows that the situation this year is better than it was last year.

**Elin Jones:** Mae'r byrddau iechyd yn ymgynghori ar hyn o bryd, fel y gwyddoch, ar newid i wasanaethau ysbytai. Gallai'r broses hon gymryd ychydig fisoedd mewn ambell eithriad, a blynyddoedd, o bosibl, mewn achosion eraill. A allwch gadarnhau bod eich Llywodraeth yn dal yn medru symud ymlaen i gymeradwyo cynlluniau cyfalaf yn y gwasanaeth iechyd ac mewn ysbytai lle nad yw'r rheini'n destun ymgynghoriad swyddogol o ran newid?

**Elin Jones:** The health boards are currently out to consultation, as you will know, on changes to hospital services. That process could take some months in certain exceptional cases, and possibly even years in others. Can you confirm that your Government is still able to proceed with approving capital projects in the health service and in hospitals where they are not the subject of an official consultation on change?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, byddwn yn bwrw ymlaen â'r rhaglen gyfalaf yn yr ysbytai hynny nas effeithir arnynt gan unrhyw beth. O ran Bronglais, mae rhaglen wedi'i mabwysiadu i sicrhau dyfodol yr ysbyty.

**The First Minister:** Of course, we will press ahead with the capital programme in those hospitals that are not affected by anything. As regards Bronglais, a programme has been adopted to safeguard the future of the hospital.

### Ad-drefnu'r GIG

### The Reorganisation of the NHS

***2. William Powell:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl gweithdrefnau ymgynghori mewn unrhyw gynlluniau ad-drefnu GIG Cymru. OAQ(4)0801(FM)*

***2. William Powell:*** *Will the First Minister make a statement on the role consultation procedures play in any reorganisation of the Welsh NHS. OAQ(4)0801(FM)*

**The First Minister:** The consultation procedures give people a say in their local health services and an opportunity to influence decisions about its future development.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r gweithdrefnau ymgynghori yn rhoi cyfle i bobl leisio barn ar gyfer llunio eu gwasanaethau iechyd lleol a chyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau am eu datblygiad yn y dyfodol.

**William Powell:** I thank the First Minister for that answer. Along with committee colleagues, I have just received a petition in support of the retention of stroke services at Bronllys Hospital in Powys. In that context, I learned that at a recent consultation meeting, the Powys local health board employee who was addressing those present stated that the health board was actively monitoring staff responses by cross-checking the addresses of those who were responding. Does the First Minister share the disquiet of clinicians, nursing staff and trade unionists at that approach, especially given that, in the event of the stroke unit’s moving to Brecon Hospital, some of those staff will have to apply for their own jobs?

**William Powell:** Diolchaf i’r Prif Weinidog am yr ateb yna. Ynghyd â chydweithwyr pwyllgor, yr wyf newydd dderbyn deiseb i gefnogi cadw gwasanaethau strôc yn Ysbyty Bronllys ym Mhowys. Yn y cyd-destun hwnnw, deallais mewn cyfarfod ymgynghori diweddar, fod y gweithiwr bwrdd iechyd Powys lleol a oedd yn annerch y rhai a oedd yn bresennol yn dweud bod y bwrdd iechyd yn mynd ati i fonitro ymatebion staff trwy draws-wirio cyfeiriadau y rhai a oedd yn ymateb. A yw’r Prif Weinidog yn rhannu anniddigrwydd clinigwyr, staff nyrsio ac undebwyr llafur ynglŷn â'r dull hwnnw, yn enwedig o gofio pe byddai'r uned strôc yn symud i Ysbyty Aberhonddu, byddai'n rhaid i rai o'r aelodau staff hynny wneud cais am eu swyddi eu hunain?

**The First Minister:** Clearly, consultation has to be open and without prejudice, and I certainly want to see a situation in which people feel able to give their views freely. I would certainly want to see that regarding LHBs and community health councils, in their role, in terms of what happens.

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae'n rhaid i ymgynghori fod yn agored a heb ragfarn, ac rwyf yn sicr eisiau gweld sefyllfa lle mae pobl yn teimlo y gallant roi eu barn yn rhydd. Byddwn yn sicr yn awyddus i weld hynny ynglŷn â Byrddau Iechyd Lleol a chynghorau iechyd cymuned, yn eu rôl hwy, o ran yr hyn sy’n digwydd.

**Russell George:** The population of Montgomeryshire is feeling increasingly marginalised by the events and proposed changes to its NHS, with just a passing reference to the area in Hywel Dda health board’s consultation document. As we saw last week, patients in that health board area are forced to wait up to 10 weeks longer for elective surgery than those living anywhere else in Wales. My constituents feel that they are being penalised because they live in Powys. Do you agree that, in order to safeguard equality of access to health services in mid Wales, it is time the Government looked at a distinct mid Wales health plan model, to ensure that the people of Montgomeryshire have the health services that they deserve?

**Russell George:** Mae poblogaeth Sir Drefaldwyn yn teimlo’n fwyfwy ar y cyrion gan y digwyddiadau a newidiadau arfaethedig i'w GIG, gyda dim ond cyfeiriad wrth fynd heibio i’r ardal yn nogfen ymgynghori bwrdd iechyd Hywel Dda. Fel y gwelsom yr wythnos diwethaf, mae cleifion yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn cael eu gorfodi i aros hyd at 10 wythnos yn hwy ar gyfer llawdriniaeth ddewisol na’r rhai sy’n byw mewn unrhyw le arall yng Nghymru. Mae fy etholwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi oherwydd eu bod yn byw ym Mhowys. A ydych chi'n cytuno, er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau iechyd yng nghanolbarth Cymru, ei bod yn bryd i’r Llywodraeth edrych ar fodel cynllun iechyd ar wahân ar gyfer canolbarth Cymru, er mwyn sicrhau bod pobl Sir Drefaldwyn yn cael y gwasanaethau iechyd y maent yn ei haeddu?

**The First Minister:** As far as Powys Teaching Local Health Board is concerned, our expectations as a Government are unchanged: all patients are to be seen within our maximum waiting time target. I know that officials have spoken to Powys health board and have received assurances that there is no intention to move away from this policy, and any providers in England that have received letters will be contacted to make the situation absolutely clear.

**Y Prif Weinidog:** Cyn belled ag y mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn y cwestiwn, nid yw ein disgwyliadau fel Llywodraeth wedi newid: mae'n rhaid gweld pob claf o fewn ein targed amser aros hwyaf. Gwn fod swyddogion wedi siarad â bwrdd iechyd Powys ac wedi derbyn sicrwydd nad oes unrhyw fwriad i symud oddi wrth y polisi hwn, a byddwn yn cysylltu ag unrhyw ddarparwyr yn Lloegr sydd wedi derbyn llythyrau i wneud y sefyllfa’n hollol glir.

**Simon Thomas:** A gytunwch fod yr ymgynghoriad sydd wedi digwydd yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ynglŷn â gwasanaethau newydd yn dibynnu’n helaeth ar y ffaith bod digon o wasanaethau cymunedol yn eu lle, a bod gwasanaeth argyfwng hefyd ar gael i bob rhan o’r ardal? Mae trigolion lleoedd fel Aberystwyth, Hwlffordd a Llanelli wedi mynegi’n glir y byddent yn fodlon gweld rhai newidiadau mewn gwasanaethau os gallent fod yn siŵr bod y ddau beth hynny yn eu lle yn ddiogel i fod yn sail i’r gwasanaethau newydd. A allwch chi roi’r sicrwydd hwnnw iddynt?

**Simon Thomas:** Do you agree that the consultation that has been carried out in the Hywel Dda Local Health Board area on the new services is heavily dependent on there being adequate community services in place, and on emergency services being available in all parts of the area? The residents of places such as Aberystwyth, Haverfordwest and Llanelli have stated clearly that they would be prepared to see some changes to services if they could be assured that those two things would be safely in place as a foundation for the new services. Can you give them that assurance?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny’n bwysig dros ben, ac mae’n rhan o’r cynlluniau presennol. Mae’n bwysig dros ben—ac rwyf wedi dweud hyn sawl gwaith yn y Siambr—fod gwasanaethau yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

**The First Minister:** That is exceptionally important, and it is a part of the plans that are in place. It is imperative—and I have said this a number of times in the Chamber—that services be safe and sustainable. That means

Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i wasanaethau cymunedol hefyd fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

that community services also have to be safe and sustainable.

**Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**Questions Without Notice from the Party Leaders**

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, last week, your Government tried to pull the plug on a soap opera because a fictional character disagreed with your Government's policy. If characters from *Gavin & Stacey* got stuck on the M4 because you had not built an M4 relief road, would you seek to pull the plug on that programme, too?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, ceisiodd eich Llywodraeth roi taw ar opera sebon oherwydd bod cymeriad ffuglennol yn anghytuno â pholisi eich Llywodraeth. Pe byddai cymeriadau o *Gavin & Stacey* yn cael eu dal mewn tagfa ar yr M4 oherwydd nad ydych wedi adeiladu ffordd liniaru i'r M4, a fyddech yn ceisio rhoi taw ar y rhaglen honno, hefyd?

**The First Minister:** We will await to see what response we get from the BBC, S4C and Ofcom.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn aros i weld pa ymateb a gawn gan y BBC, S4C ac Ofcom.

**Andrew R.T. Davies:** Your answer speaks volumes, First Minister, to be honest, by not seeking to defend the position. However, it is also important to consider the serious issue of the TB eradication policy that your Government has undertaken, and to consider the comments and the evidence that have been offered about that programme. The Farmers' Union of Wales has called it a cowardly betrayal. The senior scientist and co-chair of the Welsh Government's scientific advisory council, Professor Chris Pollock, resigned from the TB eradication board because you jettisoned the real progress that could be made if you had stuck to the science. The University of Glasgow has brought forward evidence this week that highlights the risk that, if you do not attack the reservoir of TB in wildlife, you will never get on top of the problem. Is it not the case that your Government, instead of trying to pull the plug on soap operas, should be dealing with the real issue that is devastating the rural economy and rural farming here in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Mae eich ateb yn adrodd cyfrolau, Brif Weinidog, i fod yn onest, drwy beidio â cheisio amddiffyn y sefyllfa. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig i ystyried mater difrifol y polisi dileu TB y mae eich Llywodraeth wedi ymrwymo iddo, ac i ystyried y sylwadau a'r dystiolaeth sydd wedi eu cynnig am y rhaglen honno. Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei alw'n frad llwfr. Mae'r uwch wyddonydd a chyd-gadeirydd cyngor ymgynghori gwyddonol Llywodraeth Cymru, yr Athro Chris Pollock, wedi ymddiswyddo o'r bwrdd dileu TB oherwydd eich bod wedi ymwrthod â'r cynnydd gwirioneddol y gellid bod wedi ei gyflawni drwy gadw at wyddoniaeth. Mae Prifysgol Glasgow wedi cyflwyno tystiolaeth yr wythnos hon sy'n tynnu sylw at y risg, os nad ydych yn ymosod ar y gronfa TB mewn bywyd gwyllt, na fyddwch byth yn cael y gorau ar y broblem. Onid yw'n wir y dylai eich Llywodraeth, yn hytrach na cheisio rhoi taw ar operâu sebon, fod yn ymdrin â'r gwir fater sy'n gwneud niwed enfawr i'r economi wledig a ffermio gwledig yma yng Nghymru?

**The First Minister:** The difference between us in Wales and the Member's party in England is that we are doing something. In England, nothing at all is happening. They said that they would go ahead and cull, but

**Y Prif Weinidog:** Y gwahaniaeth rhyngom ni yng Nghymru a phlaid yr Aelod yn Lloegr yw ein bod ni yn gwneud rhywbeth. Yn Lloegr, nid oes dim byd o gwbl yn digwydd. Dywedasant y byddent yn mynd ymlaen â'r

now they are doing absolutely nothing at all. At least we are vaccinating in Wales. We know that TB is an important problem for farmers, which is why we are taking forward a programme to eradicate it, while his Government in London sits on its hands.

difa, ond erbyn hyn nid ydynt yn gwneud dim byd o gwbl. O leiaf yr ydym ni'n brechu yng Nghymru. Rydym yn gwybod bod TB yn broblem bwysig i ffermwyr, a dyna pam yr ydym yn datblygu rhaglen i'w ddileu, tra bod ei Lywodraeth ef yn Llundain yn eistedd ar ei dwylo.

**Andrew R.T. Davies:** As usual, the First Minister deflects the comments to be about London, when, in fact, London is making real progress. His Government is stuck in the quagmire of a failing policy instead of getting on top of this vital issue to the rural economy. However, given the actions that the First Minister and his Government undertook last week to try to muzzle the media in Wales, and given that the Leveson inquiry report was published last week, does he not believe that it is vital that we form a consensus in Wales, and that, as party leaders, we open a discussion to try to have a joint approach, so that the Welsh and regional press can have a voice in this important discussion, and that it is not just a London-centric agenda that is driven on media regulation and media reform? Does he not agree that it is important in that respect that we have a united front?

**Andrew R.T. Davies:** Fel arfer, mae'r Prif Weinidog yn gwyro'r sylwadau i fod yn ymwneud â Llundain, pan fo Llundain, mewn gwirionedd, yn gwneud cynnydd gwirioneddol. Mae ei Lywodraeth at ei chlustiau mewn polisi sy'n methu yn hytrach na'i bod yn mynd i'r afael â'r mater hollbwysig hwn i'r economi wledig. Fodd bynnag, o ystyried y camau gweithredu a gymerwyd gan y Prif Weinidog a'i Lywodraeth yr wythnos diwethaf i geisio ffrwyno'r cyfryngau yng Nghymru, ac o gofio bod adroddiad ymchwiliad Leveson wedi'i gyhoeddi yr wythnos diwethaf, onid yw'n credu ei bod yn hanfodol i ni ffurfio consensws yng Nghymru, ac, fel arweinwyr y pleidiau, ein bod yn agor trafodaeth i geisio cael ymagwedd ar y cyd, fel y gall y wasg Gymreig a rhanbarthol gael llais yn y drafodaeth bwysig hon, fel nad nid yn unig yr agenda hon wedi'i chanoli ar Lundain sy'n sbarduno rheoleiddio'r cyfryngau a diwygio'r cyfryngau? Onid yw'n cytuno ei bod yn bwysig yn hynny o beth ein bod yn siarad ag un llais?

**The First Minister:** Yes I do. I would love to know what the Prime Minister is going to do, of course. It would help us all if he made his views clear. The leader of the opposition says that something is happening on TB in England. Nothing is happening in England on TB. They sat back, promised the world and have done nothing. He makes criticisms of the Welsh Government and its views about complaining. Let me draw his attention to Iain Duncan Smith's comments from 19 August to *The Mail on Sunday*. He said that he made an official complaint to the BBC about the broadcasters 'carping and moaning.' He said:

**Y Prif Weinidog:** Ydw. Byddwn wrth fy modd o gael gwybod beth y mae'r Prif Weinidog yn mynd i'w wneud, wrth gwrs. Byddai o gymorth i ni i gyd pe byddai'n gwneud ei farn yn glir. Mae arweinydd yr wrthblaid yn dweud bod rhywbeth yn digwydd ynglŷn â TB yn Lloegr. Nid oes dim yn digwydd yn Lloegr ar TB. Fe wnaethant eistedd yn ôl, addo'r byd a gwneud dim. Mae'n beirniadu Llywodraeth Cymru a'i barn ar gwyno. Gadewch i mi dynnu ei sylw at sylwadau Iain Duncan Smith ar 19 Awst yn *The Mail on Sunday*. Dywedodd ei fod wedi gwneud cwyn swyddogol i'r BBC am achwyn a chwyno gan y darlledwr. Meddai:

'The BBC is locked to the reading of the economy that is run out of Ed Miliband and Ed Balls' office.'

Mae'r BBC wedi'i chloi i'r dehongliad o'r economi sy'n dod allan o swyddfa Ed Miliband ac Ed Balls.

He went on to criticise a BBC correspondent who questioned his policy. He accused her of

'peeing all over British industry'.

This is the party that has done nothing but complain about the BBC over many years and which, yet again, has made an official complaint—and it complains about what this Government is doing. The reality is that the Conservative Party has spent its entire time complaining about the BBC, and we take no lessons from it given what it is trying to do to muzzle the BBC.

Aeth ymlaen i feirniadu gohebydd y BBC a oedd yn cwestiynu ei bolisi. Cyhuddodd hi

o wneud dŵr dros ddiwydiant Prydain.

Dyma'r blaid sydd wedi gwneud dim ond cwyno am y BBC dros nifer o flynyddoedd ac sydd, unwaith eto, wedi gwneud cwyn swyddogol—ac mae'n cwyno am yr hyn y mae'r Llywodraeth hon yn ei wneud. Y gwir yw bod y Blaid Geidwadol wedi treulio ei holl amser yn cwyno am y BBC, ac nid ydym yn fodlon cymryd unrhyw wersi ganddi o ystyried yr hyn y mae'n ceisio ei wneud i ffrwyno'r BBC.

**The Presiding Officer:** I now call the leader of Plaid Cymru.

**Y Llywydd:** Galwaf yn awr ar arweinydd Plaid Cymru.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** I do not have a microphone.

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Nid oes gennyf feicroffon.

**The Presiding Officer:** If you just speak, I am sure that someone will hear you. Oh, there is a man down there. [*Laughter*.]

**Y Llywydd:** Os byddwch yn siarad, rwyf yn sicr y bydd rhywun yn eich clywed chi. O, mae yna ddyn dyn i lawr yn y fan yna. [Chwerthin.]

**Leanne Wood:** If I speak into this one, can you hear me?

**Leanne Wood:** Os wyf yn siarad i mewn i hwn, allwch chi fy nghlywed?

**The Presiding Officer:** Yes.

**Y Llywydd:** Gallaf.

**Leanne Wood:** Okay. Thank you very much. First Minister, in February this year, a spokesperson for your Government said that it was your Government's intention to improve the NHS and that local health boards across Wales were setting out

'to establish how services can be improved, to make them safe, sustainable, effective and as near to home as possible'.

In October this year, your Minister for health said that it would not be appropriate for her or indeed any other Welsh Government Minister to comment on specific options brought forward by health boards because it would compromise any quasi-judicial function that you may have. Can you confirm, First Minister, that that remains the case?

**Leanne Wood:** Iawn. Diolch yn fawr iawn. Brif Weinidog, ym mis Chwefror eleni, dywedodd llefarydd ar ran eich Llywodraeth mai bwriad eich Llywodraeth oedd gwella'r GIG a bod byrddau iechyd lleol ar draws Cymru yn mynd ati

i sefydlu sut y gellir gwella gwasanaethau, er mwyn eu gwneud yn ddiogel, cynaliadwy, effeithiol ac mor agos i gartref â phosibl.

Ym mis Hydref eleni, dywedodd eich Gweinidog iechyd na fyddai'n briodol iddi hi nac yn wir i unrhyw un o Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru roi sylwadau ar yr opsiynau penodol a ddygwyd ymlaen gan fyrddau iechyd oherwydd y byddai'n peryglu unrhyw swyddogaeth led-farnwrol a allai fod gennych. A allwch chi gadarnhau, Brif Weinidog, fod hynny'n parhau'n wir?

**The First Minister:** It remains the case that

**Y Prif Weinidog:** Mae'n dal yn wir ein bod

we want to build a safe and sustainable health service. Ministers, in their capacity as Ministers, will not be commenting.

yn awyddus i adeiladu gwasanaeth iechyd diogel a chynaliadwy. Ni fydd Gweinidogion, yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidogion, yn gwneud unrhyw sylwadau.

**Leanne Wood:** That being the case, First Minister, can you therefore explain this letter written by your Minister for Education and Skills on Assembly-headed notepaper in which he says that he and his colleague, Labour MP Chris Bryant, are concerned about the proposals put forward by the local health board in his area?

**Leanne Wood:** Os yw hynny'n wir, Brif Weinidog, a allwch chi egluro, felly, y llythyr a ysgrifennwyd gan eich Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar bapur â phennawd y Cynulliad arno, lle mae'n dweud ei fod ef a'i gydweithiwr, yr AS Llafur, Chris Bryant, yn pryderu am y cynigion a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd lleol yn ei ardal ef?

**The First Minister:** He was commenting as an Assembly Member, not as a Minister.

**Y Prif Weinidog:** Roedd yn gwneud sylwadau fel Aelod Cynulliad, nid fel Gweinidog.

**Leanne Wood:** Let me remind you, First Minister, of some other public comments made by other Labour Assembly Members on this matter. Joyce Watson, Labour Assembly Member for Mid and West Wales, said in July last year with regard to ambulance journeys:

**Leanne Wood:** Gadewch i mi eich atgoffa, Brif Weinidog, o rai sylwadau cyhoeddus eraill a wnaed gan Aelodau Llafur eraill o'r Cynulliad ar y mater hwn. Meddai Joyce Watson, Aelod Cynulliad Llafur dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ym mis Gorffennaf y llynedd ynglŷn â siwrneiau ambiwlans:

'Sometimes, an hour can be…too long—in many cases, it could prove fatal.'

Weithiau, gall awr fod yn ... yn rhy hir—mewn llawer o achosion, gallai fod yn angheuol.

Ann Jones, Labour AM for Vale of Clwyd, said:

Meddai Ann Jones, AC Llafur dros Ddyffryn Clwyd:

'the removal of services from Ysbyty Glan Clwyd could create real risks for mums to be'.

gallai cael gwared ar wasanaethau o Ysbyty Glan Clwyd greu risgiau gwirioneddol i ddarpar famau.

First Minister, sincerity and integrity are two vital components of a healthy democracy. Do you agree that your Government is now compromised by the statements of your Ministers and backbenchers, statements that are, in fact, misleading to the Welsh public? Are you, as a Government, backing the plans of the health board or not? First Minister, you cannot keep having it both ways.

Brif Weinidog, mae didwylledd a gonestrwydd yn ddwy elfen hanfodol o ddemocratiaeth iach. A ydych chi'n cytuno bod eich Llywodraeth yn cael ei pheryglu yn awr gan ddatganiadau eich Gweinidogion ac aelodau'r meinciau cefn, datganiadau sydd, mewn gwirionedd, yn gamarweiniol i'r cyhoedd yng Nghymru? A ydych chi, fel Llywodraeth, yn cefnogi cynlluniau'r bwrdd iechyd neu beidio? Brif Weinidog, ni allwch barhau i'w chael hi bob ffordd.

**The First Minister:** It may have escaped the attention of the leader of Plaid Cymru but the legislature and the executive were separated in 2007. Backbenchers are not members of

**Y Prif Weinidog:** Efallai nad yw wedi dod i sylw arweinydd Plaid Cymru, ond gwahanwyd y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth yn 2007. Nid yw aelodau'r meinciau cefn yn

the Government. I fully expect backbench Assembly Members to voice views on behalf of their constituencies. I fully expect Ministers acting as Assembly Members to do the same. I see no difficulty with that. The reality is that we are going through a process of consultation on NHS reconfiguration. That is the process that the Welsh Ministers are overseeing, although, working together, the local health boards are taking that forward, and I see no problem at all with Assembly Members, acting as Assembly Members, raising issues regarding their local areas. After all, that is what they are elected to do.

aelodau o'r Llywodraeth. Rwyf yn llwyr ddisgwyl i Aelodau meinciau cefn y Cynulliad i leisio barn ar ran eu hetholaethau. Rwyf yn llwyr ddisgwyl i Weinidogion sy'n gweithredu fel Aelodau'r Cynulliad i wneud yr un peth. Ni welaf unrhyw anhawster gyda hynny. Y gwir yw ein bod yn mynd trwy broses o ymgynghori ar ad-drefnu'r GIG. Dyna'r broses y mae Gweinidogion Cymru yn ei goruchwylio, er, gan weithio gyda'i gilydd, mae'r byrddau iechyd lleol yn gweithredu ar hynny, ac ni welaf ddim problem o gwbl gydag Aelodau Cynulliad, gan weithredu fel Aelodau Cynulliad, yn codi materion yn ymwneud â'u hardaloedd lleol. Wedi'r cyfan, dyna beth y maent wedi eu hethol i'w wneud.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, in your Government's evidence to the Leveson inquiry, you say of your meetings with the media that the meetings tend to focus on economic development and public policy issues, not editorial matters.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, yn nhystiolaeth eich Llywodraeth i ymchwiliad Leveson, rydych yn dweud am eich cyfarfodydd gyda'r cyfryngau bod y cyfarfodydd yn tueddu i ganolbwyntio ar ddatblygu economaidd a materion polisi cyhoeddus, ac nid materion golygyddol.

1.45 p.m.

You are also on record as saying that, in your view, S4C's editorial independence is absolutely vital. Given that, is it right for your Government to spend its time monitoring the seemingly subversive output of S4C? What can we expect next from your Government—gagging orders on Dai Jones and *Ffermio*?

Rydych hefyd wedi dweud yn gyhoeddus bod annibyniaeth olygyddol S4C, yn eich barn chi, yn gwbl hanfodol. O gofio hynny, a yw'n iawn i'ch Llywodraeth dreulio ei hamser yn monitro allbwn ymddangosiadol tanseiliol S4C? Beth allwn ni ddisgwyl nesaf gan eich Llywodraeth—gorchymyn i gau ceg Dai Jones a *Ffermio?*

**The First Minister:** The reality is that soap operas are governed by producer guidelines. They are not governed by editorial independence; that is a matter for news and current affairs programmes. We await the response of the BBC, S4C and Ofcom to the concerns that we raise. There is a public policy issue here that has to be debated.

**Y Prif Weinidog:** Y gwir amdani yw bod operâu sebon yn cael eu rheoli gan ganllawiau i gynhyrchwyr. Nid ydynt yn cael eu rheoli gan annibyniaeth olygyddol; mater ar gyfer newyddion a rhaglenni materion cyfoes yw hynny. Rydym yn aros am ymateb y BBC, S4C ac Ofcom i'r pryderon yr ydym yn eu codi. Ceir mater polisi cyhoeddus yma y mae'n rhaid ei drafod.

**Kirsty Williams:** It would be farcical if the issues that the Government's actions raise were not so serious. First Minister, your own manifesto says that

**Kirsty Williams:** Byddai hyn yn chwerthinllyd pe na byddai'r materion y mae gweithredoedd y Llywodraeth yn eu codi, mor ddifrifol. Brif Weinidog, mae eich maniffesto chi eich hun yn dweud bod

‘Welsh Labour…believes that a healthy, vibrant democracy and civil society…needs a plurality of news media and public service broadcasting.’

‘Llafur Cymru...yn credu bod democratiaeth iach, fywiog a chymdeithas ddinesig ... angen lluosogrwydd y cyfryngau newyddion a darlledu gwasanaeth cyhoeddus.’

Is that not the point, First Minister? The Welsh media is relatively weak and one of our biggest struggles is to ensure that people take notice of what goes on in Cardiff bay. Do you think that your Government’s actions have encouraged the plurality in public service broadcasting that you claim to support?

Onid dyna’r pwynt, Brif Weinidog? Mae’r cyfryngau yng Nghymru yn gymharol wan, ac un o’n brwydrau mwyaf yw sicrhau bod pobl yn cymryd sylw o’r hyn sy’n digwydd ym mae Caerdydd. A ydych chi’n meddwl bod gweithredoedd eich Llywodraeth wedi annog y lluosogrwydd mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus yr ydych yn honni ei gefnogi?

**The First Minister:** This is a soap opera, not a news and current affairs programme. [*Interruption*.] I have to say to the leader of the Liberal Democrats—[*Interruption*.]

**Y Prif Weinidog:** Opera sebon yw hon, nid rhaglen newyddion a materion cyfoes. [*Torri ar draws.*] Mae’n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol— [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**The First Minister:** *Pobol y Cwm* is also a soap opera, rather than a news and current affairs programme. There are producer guidelines here that have to be observed. There was an election on Thursday, on the day that the programme was broadcast. That is an issue that has to be resolved. I am not aware—I will offer the opportunity for others to give me examples—of any soap opera in history in the UK where direct criticism of a Government has been included in the script. Give me an example. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘*The Archers*’.]

**Y Prif Weinidog:** Opera sebon yw *Pobol y Cwm* hefyd, yn hytrach na rhaglen newyddion a materion cyfoes. Ceir canllawiau i gynhyrchwyr y mae’n rhaid eu dilyn. Roedd etholiad yn cael ei gynnal ddydd Iau, ar y diwrnod y cafodd y rhaglen ei darlledu. Mae hwnnw’n fater y mae’n rhaid ei ddatrys. Nid wyf yn ymwybodol—rwyf yn cynnig y cyfle i eraill i roi enghreifftiau i mi—o unrhyw opera sebon yn hanes y DU lle mae beirniadu’r Llywodraeth yn uniongyrchol wedi ei gynnwys yn y sgript. Rhowch enghraifft i mi. [AELODAU’R CYNULLIAD: *‘The Archers’*.]

**Kirsty Williams:** The First Minister is absolutely right. It is a soap opera, but maybe you have lots of experience of that, First Minister, looking at the way in which you handle some of the public services in Wales. On the day that the Leveson report was published, you were busy trying to protect your Government by censoring a public service broadcaster, when Welsh people would have expected you to join with the likes of Nick Clegg and Ed Miliband to protect innocent people who have been the victims of phone hacking and media intrusion. That should have been your priority. Will you now

**Kirsty Williams:** Mae’r Prif Weinidog yn llygad ei le. Opera sebon yw hi, ond efallai bod gennych lawer o brofiad o hynny, Brif Weinidog, o edrych ar y ffordd yr ydych yn ymdrin â rhai o’r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ar y diwrnod y cyhoeddwyd adroddiad Leveson, roeddech yn brysur yn ceisio amddiffyn eich Llywodraeth drwy sensro darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, pryd y byddai pobl Cymru wedi disgwyl i chi ymuno â phobl fel Nick Clegg ac Ed Miliband i amddiffyn pobl ddiniwed sydd wedi bod yn ddioddefwyr hacio ffôn ac

add your voice to those who are calling for the full implementation of the Leveson recommendations?

ymyrraeth gan y cyfryngau. Hynny ddylasai fod eich blaenoriaeth. A wnewch chi'n awr ychwanegu eich llais at y rhai sy'n galw am weithredu argymhellion Leveson yn llawn?

**The First Minister:** She fails to answer the question that was put to her. However, I agree with her; I think that there should be full implementation of Leveson. I wait to see what the Prime Minister's view is. I think that it is appalling that all those people who have had their lives wrecked by press intrusion have no recourse. Yes, there is the law of defamation, but that is a law for the rich; it is not a law for people of modest means or, indeed, middle income. It is absolutely appalling that we see newspapers in London—Wales is largely free of this, let us face it—publishing allegations that are known to be untrue. They publish them anyway, as they do not care whose lives they wreck. They wrecked the lives of Milly Dowler's parents, they wrecked the lives of the McCanns, they wrecked the lives of the people who died at Hillsborough and their families and they wrecked the lives of people in Bridgend who, at the time of the coverage of the suicides, had the coverage distorted to the point of lying. Yes, I do agree that Leveson should be implemented and I am saddened that the Prime Minister and the Conservative party here take the view that that is not important. [*Interruption*.] Once again, the leader of the opposition makes more noise when he is sitting down than he does on his feet. Let him declare his position. I am with the leader of the Liberal Democrats on this; where are the Tories?

**Y Prif Weinidog:** Mae hi'n methu ag ateb y cwestiwn a ofynnwyd iddi. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno â hi; credaf y dylid gweithredu Leveson yn llawn. Rwyf yn aros i weld beth yw barn y Prif Weinidog. Rwyf yn credu ei bod yn warthus nad oes gan yr holl bobl hynny y mae eu bywydau wedi'u difetha drwy ymyrraeth gan y wasg unrhyw hawliau. Oes, mae cyfraith difenwad ar gael, ond cyfraith ar gyfer y cyfoethog yw honno; nid yw'n gyfraith i bobl ag incwm cymedrol neu, yn wir, incwm canol. Mae'n gwbl warthus ein bod yn gweld papurau newydd yn Llundain—nid oes fawr o hyn yng Nghymru, gadewch i ni gyfaddef hynny— yn cyhoeddi honiadau y gwyddys nad ydynt yn wir. Maent yn eu cyhoeddi beth bynnag, gan nad ydynt yn poeni bywydau pwy y maent yn eu difetha. Fe wnaethant ddifetha bywydau rhieni Milly Dowler, fe wnaethant ddifetha bywydau'r teulu McCann, fe wnaethant ddifetha bywydau'r bobl a fu farw yn Hillsborough a'u teuluoedd ac fe wnaethant ddifetha bywydau pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ar yr adeg y rhoddwyd sylw i'r hunanladdiadau, roedd y sylw hwnnw wedi ei gamlunio i'r pwynt o fod yn gelwydd. Ydw, yr wyf yn cytuno y dylid gweithredu Leveson ac rwyf yn drist bod y Prif Weinidog a'r blaid Geidwadol yma o'r farn nad yw hynny'n bwysig. [Torri ar draws.] Unwaith eto, mae arweinydd yr wrthblaid yn gwneud mwy o sŵn pan ei fod yn eistedd i lawr nag y mae'n ei wneud ar ei draed. Gadewch iddo ddweud lle mae'n sefyll. Rwyf yn cytuno gydag arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn; ble mae'r Torïaid?

**Y Sector Ynni**

**The Energy Sector**

***3. Angela Burns:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r strategaethau ymgysylltu sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i hysbysu buddsoddwyr posibl yn Sector Ynni y DU am fanteision dod i Gymru. OAQ(4)0814(FM)*

***3. Angela Burns:*** *Will the First Minister outline the engagement strategies currently undertaken by the Welsh Government to inform potential investors in the UK Energy Sector of the benefits of coming to Wales. OAQ(4)0814(FM)*

**The First Minister:** We undertake a wide range of activities to promote the energy sector in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau i hyrwyddo'r sector ynni yng Nghymru.

**Angela Burns:** Thank you for that expansive reply, First Minister. I am sure that you will be aware that French nuclear and renewable group Areva has just signed an outline agreement with Scottish Enterprise to site one of its three new European factories in Scotland, bringing with it 750 jobs. Only about eight months ago, Gamesa, instead of locating here, moved to Scotland, creating some 900 green jobs. So, it seems to me that something is not working. First Minister, what are you going to do to try to get some of the big potential in our so-called 'green economy' that you wish to promote, to come here and open up jobs in Wales? Those are the kind of jobs that Wales could have got.

**Angela Burns:** Diolch i chi am yr ateb helaeth yna, Brif Weinidog. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol bod y grŵp niwclear ac adnewyddadwy Ffrengig Areva newydd arwyddo cytundeb amlinellol gyda Scottish Enterprise i leoli un o'i dair ffatri Ewropeaidd newydd yn yr Alban, a fydd yn dod â 750 o swyddi i'r ardal. Dim ond tua wyth mis yn ôl, yn hytrach na lleoli yma, symudodd Gamesa i'r Alban, gan greu tua 900 o swyddi gwyrdd. Felly, mae'n ymddangos i mi bod rhywbeth nad yw'n gweithio. Brif Weinidog, beth ydych chi'n mynd i'w wneud i geisio cael rhywfaint o'r potensial mawr, yn yr hyn a elwir yr 'economi werdd' yr ydych yn dymuno ei hyrwyddo, i ddod yma a chreu swyddi yng Nghymru? Dyna'r math o swyddi y gallai Cymru fod wedi'u cael.

**The First Minister:** You cannot, on the one hand, oppose wind energy and, on the other hand, complain that the jobs are not coming to Wales because of that. That is a situation that is impossible to reconcile. The reality is that, in Scotland, the renewables obligation certificates are controlled by the Scottish Government and it can offer more subsidies for renewable energy. That is the reality. We can never compete with it, because we are tied to the ROC level that exists in England. We want to make sure that we are able to set the subsidy level in Wales, as Scotland and Northern Ireland can, but the UK Government is determined that we should not. I cannot understand its reasoning for this; all I want to do is to ensure that Wales is on a level playing field with Scotland and that is being denied to us by your Government.

**Y Prif Weinidog:** Ni allwch, ar yr un llaw, wrthwynebu ynni gwynt ac, ar y llaw arall, gwyno nad yw'r swyddi yn dod i Gymru oherwydd hynny. Mae honno'n sefyllfa sy'n amhosibl ei chysoni. Y gwir yw bod, yn yr Alban, y tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy yn cael eu rheoli gan Lywodraeth yr Alban ac y gall gynnig mwy o gymorthdaliadau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Dyna'r gwirionedd. Ni allwn fyth gystadlu â hynny, oherwydd ein bod yn gaeth i lefel y tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy sy'n bodoli yn Lloegr. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn gallu gosod lefel y cymhorthdal yng Nghymru, fel y mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu ei wneud, ond mae Llywodraeth y DU yn benderfynol na ddylem gael gwneud hynny. Ni allaf ddeall ei rhesymeg ynglŷn â hyn; y cwbl yr wyf eisiau ei wneud yw sicrhau bod Cymru yn cael yr un chwarae teg â'r Alban ac mae hynny'n cael ei wrthod i ni gan eich Llywodraeth chi.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Brif Weinidog, a ydych yn croesawu, fel finnau, gwerthiant Horizon Nuclear Power i gwmni Hitachi, sydd bellach wedi ei gwblhau? A fyddwch yn sicrhau, gyda llawer ohonom yn y Siambr hon,

**Lord Elis-Thomas:** First Minister, will you join me in welcoming the sale of Horizon Nuclear Power to Hitachi, which has now been completed? Will you ensure, along with many of us in this Chamber, that

y bydd swyddi priodol yn dod i ogledd-orllewin Cymru, ac i ogledd Cymru'n gyffredinol, yn dilyn y buddsoddiad hwn, sy'n digwydd yn bennaf oherwydd bod sgiliau effeithiol mewn peirianneg a pheirianneg niwclear yn arbennig ar gael yng ngogledd Cymru?

appropriate jobs come to north-west Wales, and to north Wales more generally, following this investment, which has come about mainly as a result of the fact that there are effective skills in the field of engineering, and nuclear engineering in particular, in place in north Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod swyddi'n dod i Ynys Môn a bod sgiliau'n cael eu creu er mwyn cefnogi'r swyddi hynny. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn hollol gefnogol ohono.

**The First Minister:** It is extremely important that jobs come to Anglesey and that the skills are created in order to support the posts. This is something that we, as a Government, have been entirely supportive of.

**Cynlluniau Cyfalaf Trafnidiaeth**

**Capital Transport Schemes**

***4. Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cynlluniau cyfalaf trafnidiaeth yn etholaeth Arfon. OAQ(4)0811(FM)*

***4. Alun Ffred Jones***: *Will the First Minister provide an update on the progress of capital transport schemes in the Arfon constituency. OAQ(4)0811(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhaglen i wella'r seilwaith trafnidiaeth yn y gogledd i'w gweld yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**The First Minister:** The programme for improving transport infrastructure in north Wales is set out in the national transport plan.

**Alun Ffred Jones:** Hoffwn gyfeirio at y cynllun mwyaf yn yr ardal, sef y ffordd osgoi arfaethedig o gwmpas Bontnewydd a Chaernarfon, sy'n eithriadol o bwysig i drigolion yr ardal honno ac, o bosibl, yn bwysicach i'r rhai sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i'w gwaith ar hyd lannau Menai ac i Ysbyty Gwynedd. A gaf i sicrwydd bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r cynllun pwysig hwn? Hefyd, a fydd y Prif Weinidog yn parhau i ystyried opsiynau o ran y llwybr os daw tystiolaeth gadarn i law?

**Alun Ffred Jones:** I would like to refer to the largest scheme in the area, which is the proposed bypass around Bontnewydd and Caernarfon, which is extremely important to the area's residents and, quite possibly, even more important to those who commute back and forth along the Menai straits and to Ysbyty Gwynedd. Will you give an assurance that the Government is making progress on this important scheme? Furthermore, will the First Minister continue to consider options in relation to the route should firm evidence become available?

**Y Prif Weinidog:** Caiff y prosiect hwn ei symud ymlaen yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf. Bydd ymgynghorwyr technegol yn cael eu hapwyntio ac, wedi hynny, caiff cytundeb ei arwyddo er mwyn symud ymlaen â'r cynllun, wrth gofio mor bwysig yw'r ffordd osgoi hon nid yn unig i etholaeth Arfon, ond i unrhyw un sy'n teithio o Gaernarfon i'r de.

**The First Minister:** This project will be progressed in the early part of next year. Technical consultants will be appointed and, following that, an agreement will be signed in order to proceed with the scheme, bearing in mind the importance of this bypass not only to the Arfon constituency, but to anyone travelling southbound from Caernarfon.

**Mark Isherwood:** On the Caernarfon to Bontnewydd bypass, the Welsh Government said in the press this week that the proposed

**Mark Isherwood:** Yn ymwneud â'r ffordd osgoi o Gaernarfon i Bontnewydd, dywedodd Llywodraeth Cymru yn y wasg

purple route—the Welsh Government's favoured route—has the least impact on air quality, biodiversity and heritage than alternative options. However, the Welsh health impact assessment unit tells me that it makes submissions at an early stage and it is then up to the decision makers whether that evidence is flagged up and to choose how much notice they might take of it and that these matters should be investigated further at a later stage. How, therefore, do you respond to concerns that only a small number of views expressed in response to the consultation have been considered, despite a Welsh Government official recommending further consultation, and despite the submission signed by 1,500 people calling for the black route be considered and the Llanfaglan forum petition with 700 signatures, 200 of which were the signatures of Bontnewydd residents? How do you respond to the statement on 9 August—a meeting between the consultants, Welsh Government officials and local council representatives—that a full economic impact appraisal had not yet been carried out, despite this affecting 150 local jobs?

yr wythnos hon mai'r llwybr porffor arfaethedig—y llwybr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru—sydd â'r effaith leiaf ar ansawdd yr aer, bioamrywiaeth a threftadaeth o'i gymharu â dewisiadau eraill. Fodd bynnag, mae uned asesu effaith ar iechyd Cymru yn dweud wrthyf ei bod yn gwneud cyflwyniadau ar gam cynnar ac mae wedyn yn nwylo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau pa un a dynnir sylw at y dystiolaeth honno ac i ddewis faint o sylw y byddant yn ei roi iddi ac a ddylid ymchwilio ymhellach i'r materion hyn yn nes ymlaen. Sut, felly, yr ydych chi'n ymateb i bryderon mai dim ond nifer fach o safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad sydd wedi eu hystyried, er bod swyddog o Lywodraeth Cymru wedi argymell ymgynghori pellach, ac er bod y cyflwyniad wedi'i lofnodi gan 1,500 o bobl yn galw am i'r llwybr du gael ei ystyried, yn ogystal â deiseb fforwm Llanfaglan gyda 700 o lofnodion, 200 ohonynt yn llofnodion trigolion Bontnewydd? Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad ar 9 Awst—cyfarfod rhwng yr ymgynghorwyr, swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r cyngor lleol—nad oes gwerthusiad llawn o effaith economaidd wedi ei gynnal eto, er bod hyn yn effeithio ar 150 o swyddi lleol?

**The First Minister:** Clearly the Member is opposed to the bypass; that is all I can say, based on what he has said. There have been two public consultations. It is inevitable, when there is a scheme such as this one, that there will be some opposition and some discontent. We know that from the past. However, the scheme needs to be taken forward for the good of the people of Bontnewydd and all those who travel along the section of road that is very congested at the moment.

**Y Prif Weinidog:** Yn amlwg, mae'r Aelod yn gwrthwynebu'r ffordd osgoi; dyna'r cwbl y gallaf ei ddweud, yn seiliedig ar yr hyn y mae wedi'i ddweud. Bu dau ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n anochel, pan fo cynllun fel hwn yn digwydd, y bydd rhywfaint o wrthwynebu a rhywfaint o anfodlonrwydd. Rydym yn gwybod hynny o'r gorffennol. Fodd bynnag, mae angen i'r cynllun fynd yn ei flaen er lles pobl Bontnewydd a phawb sy'n teithio ar hyd rhan o ffordd lle y gwelir tagfeydd sylweddol ar hyn o bryd.

**Diweithdra Ymysg Pobl Ifanc**

**Youth Unemployment**

***5. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0807(FM)*

***5. Mark Drakeford:*** *Will the First Minister make a statement on tackling youth unemployment in Wales. OAQ(4)0807(FM)*

**The First Minister:** We see this as a key priority, and that is why have established key programmes such as Jobs Growth Wales.

**Y Prif Weinidog: Yr** ydym yn ystyried hyn yn flaenoriaeth allweddol, a dyna pam yr ydym wedi sefydlu rhaglenni allweddol megis Twf Swyddi Cymru.

**Mark Drakeford:** The Cardiff West constituency has been badly affected by increasing youth employment, with rates doubling in some of the most disadvantaged parts of the constituency. It is all the more welcome, therefore, to see that 614 new job opportunities have already been created in Cardiff alone through the Jobs Growth Wales scheme. First Minister, is there any early evidence emerging of the rate at which chances taken up under the scheme are converting into permanent employment opportunities for young people and how does that information compare with the record of similar schemes elsewhere?

**Mark Drakeford:** Mae etholaeth Gorllewin Caerdydd wedi cael ei heffeithio’n helaeth gan gynnydd mewn diweithdra ymhlith pobl ifanc, gyda chyfraddau yn dyblu mewn rhai o rannau mwyaf difreintiedig yr etholaeth. Ceir mwy fyth o bleser felly, o weld bod 614 o swyddi newydd eisoes wedi’u creu yng Nghaerdydd yn unig, drwy gynllun Twf Swyddi Cymru. Brif Weinidog, a oes unrhyw dystiolaeth gynnar yn dod i’r amlwg ynglŷn â’r gyfradd y mae’r cyfleoedd y manteisir arnynt o dan y cynllun yn cael eu trosi i gyfleoedd am gyflogaeth barhaol i bobl ifanc a sut mae’r wybodaeth honno’n cymharu â hanes cynlluniau tebyg mewn mannau eraill?

**The First Minister:** It is not often in Government that you get the opportunity to say that something is exceeding your wildest expectations, but Jobs Growth Wales is such a programme. Initial figures suggest that 75% of those who are part of the programme get taken on, which is an extraordinary figure when you consider that the UK Government’s equivalent scheme has a rate of about 2% of people taken on. We know that the commitment to provide 4,000 young people with training or apprenticeships over the course of this year has already been fulfilled halfway through the scheme. We know that more than 2,300 young people are now receiving training or are following an apprenticeship. That is why we are proud to say that we have fulfilled an important manifesto commitment.

**Y Prif Weinidog:** Nid yn aml mewn Llywodraeth yr ydych yn cael y cyfle i ddweud bod rhywbeth yn rhagori ar eich disgwyliadau mwyaf gobeithiol, ond mae Twf Swyddi Cymru yn rhaglen o’r fath. Mae’r ffigurau cynnar yn awgrymu bod 75% o’r rhai sy’n rhan o’r rhaglen yn cael eu cyflogi, sy’n ffigwr anhygoel pan eich bod yn ystyried mai cyfradd o tua 2% a gyflogir yng nghynllun cyfatebol Llywodraeth y DU. Rydym yn gwybod bod yr ymrwymiad i ddarparu hyfforddiant neu brentisiaethau i 4,000 o bobl ifanc yn ystod y flwyddyn hon eisoes wedi ei gyflawni hanner ffordd drwy’r cynllun. Rydym yn gwybod bod mwy na 2,300 o bobl ifanc bellach yn derbyn hyfforddiant neu yn dilyn prentisiaeth. Dyna pam yr ydym yn falch o ddweud ein bod wedi cyflawni ymrwymiad pwysig o’n maniffesto.

**Mohammad Asghar:** The Westminster Government is tackling youth unemployment through a youth contract scheme that provides new opportunities for 18 to 24-year-olds, including apprenticeships and voluntary work experience placements. Will the First Minister join me in welcoming the Government’s announcement that that scheme is to be spread to Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Caerphilly to provide additional help for young unemployed people in these jobless hotspots in South Wales East?

**Mohammad Asghar:** Mae Llywodraeth San Steffan yn mynd i’r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc drwy gynllun contract ieuenctid sy’n darparu cyfleoedd newydd i rai sydd rhwng 18 a 24 mlwydd oed, gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith gwirfoddol. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i groesawu cyhoeddiad y Llywodraeth bod y cynllun am gael ei ledaenu i Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Chaerffili i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc ddi-waith yn yr ardaloedd lle ceir problemau diweithdra yn Nwyrain De Cymru?

**The First Minister:** I hope that it helps, but we know that the UK Government's schemes have been a shambles so far. We know that from its figures last week, whereas we know that Jobs Growth Wales has been highly effective. We take youth unemployment seriously and we are effective in tackling it. I hope that the UK Government gets its act together.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn gobeithio y bydd hynny'n helpu, ond rydym yn gwybod bod cynlluniau Llywodraeth y DU wedi bod yn draed moch hyd yn hyn. Rydym yn gwybod hynny o'i ffigurau yr wythnos diwethaf, ond rydym ni'n gwybod, ar y llaw arall, bod Twf Swyddi Cymru wedi bod yn hynod effeithiol. Rydym yn cymryd diweithdra ymhlith pobl ifanc o ddifrif ac rydym yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag ef. Rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn cael siâp ar bethau.

**Ieuan Wyn Jones:** A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod gan gwmnïau bach a chanolig eu maint ran bwysig i'w chwarae, yn enwedig o gofio faint ohonynt sydd yng Nghymru, er mwyn rhoi hyfforddiant a phrentisiaethau i bobl ifanc? Os yw'r Prif Weinidog yn cytuno â hynny, a yw hefyd yn cytuno y dylem annog rhai o'r cwmnïau bach a chanolig eu maint hyn yn ariannol er mwyn eu hybu i gymryd mwy o bobl ifanc ar brentisiaethau?

**Ieuan Wyn Jones:** Does the First Minister agree that small and medium-sized enterprises have an important part to play, particularly bearing in mind how many of them there are in Wales, in the provision of training and apprenticeships to young people? If so, does the First Minister also agree that we should provide financial incentives to some of these SMEs in order to encourage them to take on more young people as apprentices?

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wastad yn ei ystyried. Mae Twf Swyddi Cymru a'r cynlluniau eraill sydd gennym wedi cyflawni hynny. Felly, mae'n wir i ddweud bod gan fusnesau bach a chanolig eu maint rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o ddelio gyda diweithdra ymhlith pobl ifanc.

**The First Minister:** This is something to which we give continuous consideration. Jobs Growth Wales and our other schemes have achieved what you were asking about. So, it is true to say that small and medium-sized businesses have an important role to play in dealing with youth unemployment.

### Morglawdd Hafren

### Severn Barrage

***6. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ynghylch datblygu Morglawdd Hafren. OAQ(4)0802(FM)*

***6. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister make a statement on the discussions he has held with local authorities in England and Wales regarding the development of a Severn Barrage. OAQ(4)0802(FM)*

**The First Minister:** I have had many discussions with various bodies, but not yet with local authorities.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau gyda chyrff amrywiol, ond nid gydag awdurdodau lleol hyd yma.

**Mick Antoniw:** Particularly with regard to the English local authorities, does the First Minister consider that, because of some of the potential road and rail issues, it would be appropriate for the Welsh Government to have discussions with authorities in the south-west of England on matters of common interest?

**Mick Antoniw:** Yn enwedig o ran awdurdodau lleol Lloegr, a yw'r Prif Weinidog yn ystyried, oherwydd rhai o'r materion posibl yn ymwneud â ffyrdd a rheilffyrdd, y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gydag awdurdodau yn ne-orllewin Lloegr ar faterion o fudd cyffredin?

**The First Minister:** That could be pursued. Of course, the difficulty for the south-west of England is that it no longer has a regional development agency, which means that there is no-one in particular to talk to, which is a severe weakness as far as the area is concerned. However, where it is appropriate, as the project progresses, we will speak to the relevant authorities.

**Y Prif Weinidog:** Gellid datblygu hynny. Wrth gwrs, yr anhawster i dde-orllewin Lloegr yw nad oes ganddynt bellach asiantaeth datblygu rhanbarthol, sy'n golygu nad oes neb penodol ar gael i siarad â nhw, sydd yn wendid difrifol cyn belled ag y mae'r ardal yn y cwestiwn. Fodd bynnag, pan fo'n briodol, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, byddwn yn siarad â'r awdurdodau perthnasol.

**William Graham:** First Minister, you will know that Hafren Power has suggested that the project needs to get a green light in the next three years in order to avoid the risk of stalling. Would you not suggest that now is the time to set up a full project to look at the evidence on both sides, so that the full picture can emerge?

**William Graham:** Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod Hafren Power wedi awgrymu bod angen i'r prosiect gael ei gymeradwyo yn ystod y tair blynedd nesaf er mwyn osgoi'r perygl o oedi. Oni fyddech yn awgrymu mai nawr yw'r amser i sefydlu prosiect llawn i edrych ar y dystiolaeth ar y ddwy ochr, fel y gall y darlun llawn ddod i'r amlwg?

**The First Minister:** Yes, I would. It is important that this is taken forward as quickly as possible. We are supportive, in principle, of a Severn barrage. There are issues, particularly environmental issues, that need to be resolved, and there also needs to be certainty in terms of the energy market in the UK. I hope that that has been partway resolved by the actions of the UK Government in the past few weeks. I would like to see this progressed as quickly as possible. The job opportunities are great as far as Wales is concerned.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, mi fyddwn. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ddwyn ymlaen mor gyflym ag y bo modd. Rydym yn gefnogol, mewn egwyddor, i forglawdd Hafren. Ceir materion, yn enwedig materion amgylcheddol, y mae angen eu datrys, ac mae hefyd angen sicrwydd o ran y farchnad ynni yn y DU. Gobeithio bod hynny wedi cael ei ddatrys yn rhannol gan weithredoedd Llywodraeth y DU yn ystod yr wythnosau diwethaf. Hoffwn weld hyn yn symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd. Mae'r cyfleoedd gwaith yn wych cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn.

**Lindsay Whittle:** Will the First Minister please give an undertaking that any scheme for the barrage will include the protection of marine wildlife and, in particular, the Newport wetlands that attract over 100,000 visitors each year? Does he further recognise that conservationists will fight tooth and nail to protect this unique corner of our country?

**Lindsay Whittle:** A wnaiff y Prif Weinidog roi ymrwymiad os gwelwch yn dda y bydd unrhyw gynllun ar gyfer y morglawdd yn cynnwys amddiffyn bywyd gwyllt morol ac, yn enwedig, gwlyptiroedd Casnewydd sy'n denu dros 100,000 o ymwelwyr bob blwyddyn? A yw'n cydnabod ymhellach y bydd cadwraethwyr yn brwydro i'r eithaf i amddiffyn y gornel unigryw hon o'n gwlad?

2.00 p.m.

**The First Minister:** Yes, it is absolutely crucial that the environmental impact is understood, and it is absolutely crucial that schemes have the smallest impact possible on the environment in order to make them truly green.

**Y Prif Weinidog:** Ydw, mae'n gwbl hanfodol bod yr effaith amgylcheddol yn cael ei deall, ac mae'n gwbl hanfodol bod cynlluniau yn cael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd er mwyn eu gwneud yn wirioneddol wyrdd.

**Comisynwyr yr Heddlu a Throseddu**

**Police and Crime Commissioners**

***7. Julie Morgan:*** *Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gwrdd â'r pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd newydd eu hethol yng Nghymru. OAQ(4)0812(FM)*

***7. Julie Morgan:*** *What plans does the First Minister have to meet with the four newly elected Police and Crime Commissioners in Wales. OAQ(4)0812(FM)*

**The First Minister:** Responsibility for these meetings rests with the Minister for Local Government and Communities. He has already met three of the four Welsh commissioners, on 28 November, and quarterly meetings have been scheduled for next year.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cyfrifoldeb am y cyfarfodydd hyn yn gorwedd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae eisoes wedi cwrdd â thri o'r pedwar comisiynydd yng Nghymru, ar 28 Tachwedd, ac mae cyfarfodydd bob tri mis wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for that reply. In view of the fact that there are no women police commissioners in Wales, and that only six of the 41 commissioners in the whole of the UK are women, how can he help to ensure that issues that are important to us all—and specifically to women—are a major part of the commissioners' agenda? These include domestic abuse, the implementation of the new stalking law and the low conviction rate for sexual assault.

**Julie Morgan:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. O gofio'r ffaith nad oes unrhyw gomisiynwyr heddlu sy'n fenywod yng Nghymru, ac mai dim ond chwech o'r 41 o gomisiynwyr yn y DU gyfan sy'n fenywod, sut y gall ef helpu i sicrhau bod materion sy'n bwysig i ni i gyd—ac yn benodol i ferched—yn rhan bwysig o agenda'r comisiynwyr? Mae'r rhain yn cynnwys cam-drin yn y cartref, gweithredu'r gyfraith stelcio newydd a'r gyfradd euogfarnu isel ar gyfer ymosodiad rhywiol.

**The First Minister:** At the meeting on 28 November, the Minister highlighted key areas that the PCCs should prioritise. These included violence against women and domestic abuse, dealing with victims of crime and safeguarding children and vulnerable adults, and sexual assault referral centres. That point will continue to be made to commissioners over the course of the next year.

**Y Prif Weinidog:** Yn y cyfarfod ar 28 Tachwedd, tynnodd y Gweinidog sylw at feysydd allweddol y dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eu blaenoriaethu. Roedd y rhain yn cynnwys trais yn erbyn menywod a cham-drin yn y cartref, ymdrin â dioddefwyr troseddau a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a chanolfannau atgyfeirio ar gyfer ymosodiadau rhywiol. Bydd y pwynt hwnnw yn parhau i gael ei wneud i gomisiynwyr yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Byron Davies:** First Minister, I am sure that you will join me in welcoming the new PCCs to their roles. Given the willingness of your Government to meet with the four newly elected PCCs, do you have any specific plans, on behalf of the Welsh Government, to work with them? How will you align these future plans with the operational independence of chief officers and the role of PCCs?

**Byron Davies:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu newydd i'w swyddi. O ystyried parodrwydd eich Llywodraeth i gwrdd â'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu sydd newydd eu hethol, a oes gennych chi unrhyw gynlluniau penodol, ar ran Llywodraeth Cymru, i weithio gyda nhw? Sut y byddwch chi'n sicrhau bod y

cynlluniau hyn ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd ag annibyniaeth weithredol prif swyddogion a rôl y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu?

**The First Minister:** As a Government, we will continue to suggest priorities to the PCCs over the course of next year. It is then for the PCCs to inform the chief constables of what the priorities will be, bearing in mind that the police commissioners have no role in terms of interfering in police operations.

**Y Prif Weinidog:** Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i awgrymu blaenoriaethau i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ystod y flwyddyn nesaf. Gwaith y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedyn fydd hysbysu'r prif gwnstabliaid o beth fydd y blaenoriaethau, gan gadw mewn cof nad oes gan y comisiynwyr heddlu unrhyw rôl o ran ymyrryd yng ngweithrediadau'r heddlu.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, rydych yn dweud nad oes gan y comisiynwyr rôl o ran ymyrryd yng ngwasanaethau'r heddlu. Fodd bynnag, byddant yn rheoli cyllidebau'r heddlu a, thrwy hynny, byddant yn gallu dylanwadu ar y modd y bydd yr heddlu'n gweithredu. O ystyried y datganiadau rydym wedi'u clywed gan y comisiynwyr sydd newydd eu penodi, a ydych yn pryderu, fel rwyf innau, am y ffaith y byddwn yn cael awdurdodau heddlu yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol yng Nghymru? Tynnaf eich sylw at y gwahaniaeth amlwg rhwng y datganiadau a wnaed gan y comisiynydd newydd yn y gogledd a'r datganiadau a wnaed gan y comisiynydd newydd yn y de.

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, you say that the commissioners have no role in terms of interfering in police operations. However, they will control police budgets and, as such, will be able to influence the way in which the police operate. Given the statements that we have heard from the newly appointed commissioners, do you share my concern about the fact that we will have police authorities in different parts of Wales operating in different ways? I draw your attention to the clear differences between the statements made by the new commissioner in north Wales and the statements made by the new commissioner in south Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n siŵr o ddigwydd. Os oes pedwar comisiynydd, mae'n rhesymol i feddwl y bydd pethau'n gweithio'n wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru. Cawn weld os bydd hynny'n beth da neu beidio.

**The First Minister:** That is bound to happen. If there are four commissioners, it is reasonable to assume that things will work differently in different parts of Wales. We will see whether or not that is a good thing.

**Jenny Rathbone:** Julie Morgan raised a very important point about the paucity of women PCCs. I wondered if the Government could be pressed to raise the issue of elder abuse. As Rhodri Glyn Thomas said, PCCs control the budgets and, therefore, determine how much is spent on these hidden problems. Elder abuse, certainly in my constituency, is rising up the agenda as a matter of extreme concern.

**Jenny Rathbone.** Cododd Julie Morgan bwynt pwysig iawn am y prinder o fenywod sy'n Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Roeddwn yn meddwl tybed a ellid pwyso ar y Llywodraeth i godi'r mater o gam-drin pobl hŷn. Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n rheoli'r cyllidebau ac, felly, hwy sy'n penderfynu faint sy'n cael ei wario ar y problemau cudd hyn. Mae cam-drin pobl hŷn, yn sicr yn fy etholaeth i, yn dringo'r agenda materion o bryder difrifol.

**The First Minister:** PCCs are accountable to the community in terms of what they do, including to older people. Elder abuse is something that all PCCs must take seriously in terms of their priorities.

**Y Prif Weinidog:** Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn atebol i'r gymuned o ran yr hyn y maent yn ei wneud, gan gynnwys pobl hŷn. Mae cam-drin pobl hŷn yn rhywbeth y mae'n rhaid i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei gymryd o ddifrif o ran eu blaenoriaethau.

**The Presiding Officer:** Question 8, OAQ(4)0808(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 8, OAQ (4) 0808 (FM), yn ôl.

**Iechyd yng Nghwm Cynon**

**Health in the Cynon Valley**

***9. Christine Chapman:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella iechyd yng Nghwm Cynon. OAQ(4)0810(FM)*

***9. Christine Chapman:*** *Will the First Minister make a statement on improving health in the Cynon Valley. OAQ(4)0810(FM)*

**The First Minister:** Yes. Our priorities for health can be found in our programme for government and in 'Together for Health'.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd i'w gweld yn ein rhaglen ar gyfer llywodraeth ac yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**Christine Chapman:** Recent figures show that uptake of the flu jab this winter among at-risk groups is low. This is particularly the case among pregnant women, notably in the Cwm Taf Local Health Board area, with figures from November showing that only 26.9% of pregnant women have so far been immunised against the flu this winter. What steps is the Welsh Government taking to address this? Would you agree, First Minister, that, in light of the recent whooping cough epidemic, which has, sadly, killed a number of babies in England, immunisation is more important than ever?

**Christine Chapman:** Mae ffigurau diweddar yn dangos bod y nifer sydd wedi manteisio ar y brechiad rhag y ffliw y gaeaf hwn yn isel ymhlith grwpiau sydd mewn perygl. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith menywod beichiog, yn enwedig yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, ac mae'r ffigurau o fis Tachwedd yn dangos mai dim ond 26.9% o fenywod beichiog sydd wedi eu himiwneiddio yn erbyn y ffliw hyd yn hyn y gaeaf hwn. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ymdrin â hyn? A fyddech yn cytuno, Brif Weinidog, yng ngoleuni'r epidemig pâs diweddar, sydd wedi, yn anffodus, lladd nifer o fabanod yn Lloegr, bod imiwneiddio yn fwy pwysig nag erioed?

**The First Minister:** Absolutely. We are concerned about the low uptake of seasonal flu vaccination. It does seem to be a UK-wide trend. Nevertheless, the chief medical officer has been in regular contact with the health boards to encourage uptake and to identify any uptake barriers that might exist.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Rydym yn pryderu am y niferoedd isel sy'n manteisio ar frechiadau tymhorol rhag y ffliw. Mae'n ymddangos mai dyma'r duedd ledled y DU. Serch hynny, mae'r prif swyddog meddygol wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r byrddau iechyd i annog pobl i fanteisio ar frechiadau ac i nodi unrhyw bethau a allai eu rhwystro rhag gwneud hynny.

**Andrew R.T. Davies:** Has any assessment been made of the NHS Redress (Wales) Measure 2008, brought in by the previous

**Andrew R.T. Davies:** A oes unrhyw asesiad wedi cael ei gynnal o'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008, a

Assembly Government, and its effectiveness? Many people have successful procedures in the health service, but when things go wrong, it is important that issues are corrected promptly so that we do not see a lot of court cases and distress caused to the people who have cases brought against them.

gyflwynwyd gan Lywodraeth flaenorol y Cynulliad, a'i effeithiolrwydd? Mae llawer o bobl wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus yn y gwasanaeth iechyd, ond pan fydd pethau'n mynd o chwith, mae'n bwysig bod materion yn cael eu cywiro ar unwaith fel nad ydym yn gweld llawer o achosion llys a gofid yn cael ei achosi i bobl y dygir achosion yn eu herbyn.

**The First Minister:** Yes, the evidence is that the Measure is working very well. The objective, as the leader of the opposition rightly says, was to ensure that people did not feel that they had to go to court in order to get redress, but that there was a faster and cheaper way of achieving it. In my view, the Measure has achieved that.

**Y Prif Weinidog:** Oes, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Mesur yn gweithio'n dda iawn. Yr amcan, fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei nodi'n gywir, oedd sicrhau nad oedd pobl yn teimlo bod rhaid iddynt fynd i'r llys er mwyn cael unioni camweddau, ond bod ffordd gyflymach a rhatach o gyflawni hyn. Yn fy marn i, mae'r Mesur wedi llwyddo i wneud hynny.

**Leanne Wood:** For three out of the last five years for which we have figures, the number of male suicides in Wales has been higher than in any region of England. The number of suicides among men is also significantly higher than suicides among women. First Minister, what work is your Government undertaking to prevent suicides, particularly among young men from working-class communities, like the Cynon valley?

**Leanne Wood:** Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf y mae gennym ffigurau ar eu cyfer, mae nifer yr hunanladdiadau gwrywaidd yng Nghymru wedi bod yn uwch nag mewn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Mae nifer yr achosion o hunanladdiad ymhlith dynion hefyd yn sylweddol uwch na hunanladdiad ymhlith menywod. Brif Weinidog, pa waith mae eich Llywodraeth yn ei wneud i atal achosion o hunanladdiad, yn enwedig ymhlith dynion ifanc o gymunedau dosbarth gweithiol, fel cwm Cynon?

**The First Minister:** We are aligning efforts to improve mental health service provision to the actions needed to improve mental wellbeing. The general trend has been downwards over the last decade, but the figures that the leader of Plaid Cymru has referred to mean that there is still more work to do. We are focusing on trying to understand why there has been this apparent spike in the number of male suicides, and we are working with the local health boards in order to understand what has caused it and then, of course, to address that.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn sicrhau bod ymdrechion i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn cyd-fynd â'r camau sydd eu hangen i wella lles meddyliol. Mae'r duedd gyffredinol wedi bod tuag at i lawr dros y degawd diwethaf, ond mae'r ffigurau y mae arweinydd Plaid Cymru wedi cyfeirio atynt yn golygu bod rhagor o waith i'w wneud o hyd. Rydym yn canolbwyntio ar geisio deall y rheswm am y cynnydd amlwg hwn i nifer yr achosion o hunanladdiad gwrywaidd, ac rydym yn gweithio gyda'r byrddau iechyd lleol er mwyn deall beth sydd wedi ei achosi ac yna, wrth gwrs, byddwn yn mynd i'r afael â hynny.

### Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

### Next Generation Broadband

***10. Elin Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i gyflwyno band eang y*

***10. Elin Jones:*** *Will the First Minister provide an update on the plans to introduce next generation broadband in Wales.*

*genhedlaeth nesaf yng Nghymru. OAQ(4)0805(FM)*

*OAQ(4)0805(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Erbyn hyn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo cynllun band eang Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig roi cymeradwyaeth ffurfiol i gynllun Cymru yn fuan.

**The First Minister:** The European Commission has now approved the UK Government's national broadband scheme, and we expect to receive formal approval for the Wales scheme from the UK Government shortly.

**Elin Jones:** Bydd band eang y genhedlaeth nesaf yn bwysig i ganiatáu darlledu ar y we—mae Clic S4C, ITV Player ac iPlayer y BBC eisoes yn gyffredin. Chi, Brif Weinidog, sy'n gyfrifol am gyfathrebu o fewn y Llywodraeth; ai chi oedd y Gweinidog a wnaeth awdurdodi llythyr i S4C ddydd Iau diwethaf yn gofyn iddo beidio ag ailddarlledu *Pobol y Cwm*?

**Elin Jones:** Next generation broadband will be important in allowing broadcasting online—S4C's Clic, ITV Player and the BBC iPlayer are already very common platforms. You, First Minister, are responsible for communication within the Government; were you the Minister who authorised a letter to S4C last Thursday, asking it not to repeat *Pobol y Cwm*?

**Y Prif Weinidog:** O ran band eang, mae'n rhywbeth rydym am ei weld yn fuan, fel y dywedais. Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am y cynlluniau i roi'r rhaglen ar waith.

O ran y cwestiwn arall, ar ddarlledu, anfonwyd y llythyr gan swyddogion y wasg wrth iddynt gymryd y gŵyn o ddifrif. Rydym yn aros am ymateb; nid oes un wedi dod eto.

**The First Minister:** In relation to broadband, it is something that we want to see very soon, as I said. We will be announcing further information about the schemes to put the programme in place.

In terms of the other question, on broadcasting, the letter was sent by press officials who took the complaint seriously. We are still awaiting a response.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, you have, no doubt, read the Welsh Affairs Committee's recent report on broadband, which recommended that the first priority must be to ensure that the needs of approximately 90,000 homes in Wales that do not currently have access to broadband are addressed as soon as possible. Given the fear in rural communities that they will be left behind when next generation broadband is rolled out elsewhere, do you not agree that these 90,000 homes deserve access to a basic service first? Do you accept the criticism that the broadband support scheme is only scratching the surface of the problem in rural notspots?

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae'n sicr y byddwch wedi darllen adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cymreig ar fand eang, a oedd yn argymell mai'r flaenoriaeth gyntaf ddylai fod sicrhau bod anghenion tua 90,000 o gartrefi yng Nghymru nad yw band eang ar gael iddynt ar hyn o bryd yn cael eu diwallu cyn gynted ag y bo modd. O ystyried y gofid mewn cymunedau gwledig y byddant yn cael eu gadael ar ôl pan fydd band eang y genhedlaeth nesaf yn cael ei gyflwyno mewn mannau eraill, a ydych yn cytuno bod y 90,000 o gartrefi yn haeddu mynediad at wasanaeth sylfaenol yn gyntaf? A ydych yn derbyn y feirniadaeth nad yw cynllun cymorth y band eang ddim ond yn crafu wyneb y broblem mewn mannau gwledig lle ceir problemau?

**The First Minister:** It seems to have escaped the notice of the Member that we have committed to ensuring that 96% of premises have access to superfast broadband by 2015.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ymddangos nad yw'r Aelod wedi sylweddoli ein bod wedi ymrwymo i sicrhau bod 96% o gartrefi yn cael mynediad at fand eang cyflym iawn

That is a promise that the Government intends to carry out.

erbyn 2015. Mae hwn yn addewid y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei gadw.

**Peter Black:** Although it is important to get superfast broadband rolled out, a lot of this is also dependent on 4G, which is also very important. What work are you doing with the UK Government to ensure that we have a thorough roll-out of 4G across Wales?

**Peter Black:** Er ei bod yn bwysig cyflwyno band eang cyflym iawn, mae llawer o hyn hefyd yn dibynnu ar 4G, sydd hefyd yn bwysig iawn. Pa waith ydych yn ei wneud gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod 4G yn cael ei gyflwyno'n drylwyr ledled Cymru?

**The First Minister:** It needs to be done quickly. We know that Cardiff is in the pilot project for 4G. My concern is that, because the model in the UK is to auction frequencies for mobile phone coverage, that drains the coffers of mobile phone companies in terms of their ability to invest in 4G masts. That is not the case in other countries, which is why I suspect that mobile phone coverage is vastly superior in so many other countries. It is something that we need to address, but it is absolutely right to say that 4G needs to be rolled out as quickly as possible from Cardiff to the rest of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae angen ei wneud yn gyflym. Rydym yn gwybod bod Caerdydd yn rhan o'r prosiect peilot ar gyfer 4G. Gan mai'r model yn y DU yw arwerthu amleddau ar gyfer signal ffôn symudol, fy mhryder i yw bod hynny'n gwagio coffrau cwmnïau ffonau symudol o ran eu gallu i fuddsoddi mewn mastiau 4G. Nid yw hynny'n wir mewn gwledydd eraill, a dyna pam yr wyf yn amau bod derbyniad ffonau symudol yn llawer gwell mewn cymaint o wledydd eraill. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni fynd i'r afael ag ef, ond mae'n gwbl gywir dweud bod angen cyflwyno 4G cyn gynted ag y bo modd o Gaerdydd i weddill Cymru.

**Jenny Rathbone:** Going back to broadband, I submitted a petition about the Penylan notspot in my constituency to the Petitions Committee nearly a year ago. In response, BT gave some categorical assurances that this would be sorted out by the end of this calendar year. I am, therefore, extremely disappointed to hear it say that, because of technical problems that it did not envisage, and because of the restrictions on digging up roads in the run-up to Christmas, this service will not be available until the end of March next year. I am very disappointed, given the categorical assurances that it gave. What can the Government do to get BT to keep to its commitments?

**Jenny Rathbone:** Gan ddychwelyd at fand eang, cyflwynais ddeiseb am fan gwan Pen-y-lan yn fy etholaeth i'r Pwyllgor Deisebau bron i flwyddyn yn ôl. Yn yr ymateb, rhoddodd BT sicrwydd pendant y byddai hyn yn cael ei ddatrys erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Yr wyf yn hynod o siomedig felly i'w glywed yn dweud, oherwydd problemau technegol, na ragwelwyd, ac oherwydd y cyfyngiadau ar gloddio ffyrdd yn y cyfnod cyn y Nadolig, ni fydd y gwasanaeth hwn ar gael tan ddiwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Rwyf yn siomedig iawn, o ystyried y sicrwydd pendant a roddwyd ganddo. Beth all y Llywodraeth ei wneud i gael BT i gadw at ei ymrwymiadau?

**The First Minister:** We understand that Penylan is being served with high-speed broadband as part of the roll out. The cabinets should be ready by March 2013. However, I know from personal experience that such dates are often not kept to. In Bridgend, it took more than a year beyond the initial date for Infinity to be provided to most of the town, and it is still not available to commercial premises, only residential premises. It is important that we see roll out

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn deall y bydd Pen-y-lan yn derbyn band eang cyflymder uchel yn rhan o'r broses gyflwyno. Dylai'r cypyrddau fod yn barod erbyn mis Mawrth 2013. Fodd bynnag, gwn o brofiad personol na chedwir at ddyddiadau o'r fath yn aml. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, cymerodd dros flwyddyn y tu hwnt i'r dyddiad cychwynnol i Infinity gael ei ddarparu i'r rhan fwyaf o'r dref, ac mae'n dal heb fod ar gael i safleoedd masnachol, dim ond adeiladau preswyl.

happen as quickly as possible.

Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gyflwyno cyn gynted ag y bo modd.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, a fanteisioch chi ar wasanaeth gwych band eang S4C, Clic, i wylio'r bennod gyfan o *Pobol y Cwm* cyn awdurdodi llythyr yn gofyn i S4C beidio â'i darlledu eto? A wnaethoch chi wylio'r rhaglen?

**Simon Thomas:** First Minister, did you take advantage of S4C's excellent broadband service, Clic, to watch the whole episode of *Pobol y Cwm* before authorising the letter asking S4C not to repeat it? Did you watch the programme?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais, rwyf wedi gweld y rhaglen a'r sgript. Cafodd llythyr ei anfon gan swyddogion y wasg wedi i mi awdurdodi eu gweithredoedd, o weld rhywbeth nad wyf wedi ei weld erioed o'r blaen mewn rhaglen o'r fath.

**The First Minister:** As I said, I have seen the programme and the script. A letter was sent by press officers after I had authorised their actions, having seen something that I had never seen before in such a programme.

**Canol De Cymru**

**South Wales Central**

***11. Eluned Parrott:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Canol De Cymru dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0809(FM)*

***11. Eluned Parrott:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's priorities for South Wales Central over the next 12 months. OAQ(4)0809(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are to be found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maen nhw wedi eu cynnwys yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Eluned Parrott:** Thank you. I almost had time to sit down. [*Laughter.*] I am sure that you will agree that transport will be a priority over the next year, especially given its potential for driving economic growth in your enterprise zone and plans for a city region in my region. Perhaps you would also agree that light rail and tram-train technology, alongside electrification, could strengthen the case for opening additional stations in east Cardiff and elsewhere. Will your Government conduct a feasibility study into these options next year, so that a business case can be developed for the viable ones in plenty of time for the next transport plan?

**Eluned Parrott:** Diolch yn fawr. Bu bron i mi gael amser i eistedd i lawr. [*Chwerthin.*] Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno y bydd trafnidiaeth yn flaenoriaeth dros y flwyddyn nesaf, yn enwedig o ystyried ei botensial i sbarduno twf economaidd yn eich parth menter a chynlluniau ar gyfer rhanbarth dinas yn fy rhanbarth i. Efallai y byddech yn cytuno hefyd y gallai technoleg rheilffyrdd ysgafn a threnau-tram, ynghyd â thrydaneiddio, gryfhau'r achos dros agor gorsafoedd ychwanegol yn nwyrain Caerdydd ac mewn mannau eraill. A fydd eich Llywodraeth yn cynnal astudiaeth o ddichonoldeb ar yr opsiynau hyn y flwyddyn nesaf, fel y gellir datblygu achos busnes ar gyfer y rhai hyfyw mewn da bryd ar gyfer y cynllun trafnidiaeth nesaf?

**The First Minister:** We will always consider the best options for eastern Cardiff in terms of connectivity, and these are options that we will keep under review during the course of next year and beyond.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn ystyried yr opsiynau gorau ar gyfer dwyrain Caerdydd o ran cysylltedd, ac mae'r rhain yn opsiynau y byddwn yn parhau i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, last

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog,

week, I asked you about IVF treatment in South Wales Central and, in particular, the Heath hospital. I had a letter from the Minister for Health and Social Services indicating that 64 patients are waiting 18 months or more for the treatment to start, with 70 patients waiting 12 months for their second cycle. You talked about capacity improvements and new staffing last week. Can you give a clear indication of what capacity improvements have been made in Cardiff and the Vale so that these waiting times are addressed and that patients who are waiting—many of them constituents of mine who have approached me—can have some comfort in the knowledge that they will have the treatment cycles that have been promised?

gofynnais i chi yr wythnos diwethaf am driniaeth IVF yng Nghanol De Cymru ac, yn benodol, yn ysbyty'r Mynydd Bychan. Cefais lythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi bod 64 o gleifion yn aros 18 mis neu fwy i'r driniaeth ddechrau, ac mae 70 o gleifion yn aros 12 mis am eu hail driniaeth. Soniasoch am welliannau gallu a staffio newydd yr wythnos diwethaf. A allwch chi roi syniad eglur o ba welliannau gallu sydd wedi eu gwneud yng Nghaerdydd a'r Fro fel y rhoddir sylw i'r amseroedd aros hyn ac y gall cleifion sy'n aros—llawer ohonynt yn etholwyr i mi ac sydd wedi cysylltu â mi—gael rhywfaint o gysur o wybod y byddant yn derbyn y triniaethau a addawyd iddynt?

**The First Minister:** First of all, treatment is available in Bristol, but work is also ongoing to develop IVF services at Neath Port Talbot Hospital. Good progress is being made in order to put that in place as quickly as possible.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf oll, mae triniaeth ar gael ym Mryste, ond mae gwaith yn parhau hefyd i ddatblygu gwasanaethau IVF yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae cynnydd da yn cael ei wneud er mwyn rhoi hynny ar waith cyn gynted ag y bo modd.

**Leanne Wood:** First Minister, it is not just in health that your Government is looking both ways; your Minister for Education and Skills has announced plans to take schools out of local authority control. Labour councillors, not just in—

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, nid dim ond ym maes iechyd y mae eich Llywodraeth yn edrych i'r ddau gyfeiriad; mae eich Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi cynlluniau i dynnu ysgolion oddi wrth reolaeth yr awdurdod lleol. Mae cynghorwyr Llafur, nid yn unig yn—

**The Presiding Officer:** Order. Can you come to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. Allwch chi ddod at y cwestiwn?

**Leanne Wood:** Not just in South Wales Central, but across Wales, Labour councillors have expressed grave disquiet at those proposals. It would be good to know what your party's position is on this matter, because people are confused when you look both ways. Can you confirm, First Minister, that the Minister for education will stay in post so that his rhetoric can be judged against his delivery, despite your internal problems?

**Leanne Wood:** Nid yn unig yng Nghanol De Cymru, ond ledled Cymru, mae cynghorwyr Llafur wedi mynegi anfodlonrwydd difrifol â'r cynigion hynny. Byddai'n dda cael gwybod beth yw safbwynt eich plaid ar y mater hwn, gan fod pobl yn cael eu drysu pan eich bod yn edrych i'r ddau gyfeiriad. A allwch chi gadarnhau, Brif Weinidog, y bydd y Gweinidog addysg yn aros yn ei swydd fel y gellir dyfarnu ei rethreg o'i gymharu â'i ddarpariaeth, er gwaethaf eich problemau mewnol?

**The First Minister:** The Minister for education will stay in post.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Gweinidog addysg yn aros yn ei swydd.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2013**

**Priorities for 2013**

***12. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013. OAQ(4)0804(FM)*

***12. Jocelyn Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for 2013. OAQ(4)0804(FM)*

**The First Minister:** Yes; they are outlined in the programme for government, which will be updated in May.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf; fe'u hamlinellir yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, a fydd yn cael ei diweddaru ym mis Mai.

**Jocelyn Davies:** That was double the answer that I was expecting, First Minister. Perhaps it should be a priority to increase your influence, as it is not just in health and education that you are trying to have it both ways. Two weeks ago, your Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes said that your Government supports the common agricultural policy and structural fund payments at the current levels. At the same time, the Member of Parliament for the same constituency said that Blaenau Gwent wants big reductions in farm subsidies, and your MPs voted for a real-terms cut. So, you are happy with the influence that you have—[*Interruption.*] I am asking the First Minister the question.

**Jocelyn Davies:** Roedd hwn ddwywaith yr ateb yr oeddwn yn ei ddisgwyl, Brif Weinidog. Efallai y dylai cynyddu eich dylanwad fod yn flaenoriaeth, gan nad ym meysydd iechyd ac addysg yn unig yr ydych yn ceisio'i chael hi'r ddwy ffordd. Bythefnos yn ôl, dywedodd eich Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd bod eich Llywodraeth yn cefnogi'r polisi amaethyddol cyffredin a thaliadau cronfa strwythurol ar y lefelau presennol. Ar yr un pryd, dywedodd yr Aelod Seneddol dros yr un etholaeth fod Blaenau Gwent eisiau gostyngiadau mawr mewn cymorthdaliadau fferm, a phleidleisiodd eich Aelodau Seneddol dros ostyngiad mewn termau real. Felly, rydych yn fodlon â'r dylanwad sydd gennych— [*Torri ar draws.*] Rwy'n gofyn y cwestiwn i'r Prif Weinidog.

**The Presiding Officer:** Order. Jocelyn Davies, could you just ask the question to the First Minister?

**Y Llywydd:** Trefn. Jocelyn Davies, wnewch chi ofyn y cwestiwn i'r Prif Weinidog os gwelwch yn dda?

2.15 p.m.

**Jocelyn Davies:** Are you happy with the influence that you have over your party at Westminster, or is it okay to say different things in different places?

**Jocelyn Davies:** A ydych yn fodlon ar y dylanwad sydd gennych dros eich plaid yn San Steffan, neu a yw'n iawn i ddweud gwahanol bethau mewn gwahanol leoedd?

**The First Minister:** All parties in the Chamber will have experienced Members of Parliament saying different things to what the party has expressed here. That is quite normal. The point is, from our point of view, we have in Alun Davies a Minister who has been absolutely solid in defending the interests of Welsh farmers, the common agricultural policy and structural funds. I would be curious to see whether the UK Government would release its negotiating position on CAP publicly, then we would judge it on what it says rather than what it pretends to say.

**Y Prif Weinidog:** Bydd gan bob plaid yn y Siambr Aelodau Seneddol profiadol sy'n dweud gwahanol bethau i'r hyn y mae'r blaid wedi ei fynegi yma. Mae hynny'n eithaf normal. Y pwynt yw, o'n safbwynt ni, bod gennym yn Alun Davies Weinidog sydd wedi bod yn gwbl gadarn wrth amddiffyn buddiannau ffermwyr Cymru, y polisi amaethyddol cyffredin a chronfeydd strwythurol. Byddwn yn chwilfrydig i weld a fyddai Llywodraeth y DU yn rhyddhau ei sefyllfa negodi ar y PAC yn gyhoeddus, yna byddem yn barnu ar sail yr hyn y mae'n ei ddweud yn hytrach na'r hyn y mae'n esgus ei

ddweud.

**Kenneth Skates:** First Minister, a recent report by the Money Advice Service has shown that more than 10% of people across the UK who took out a loan to fund Christmas 2011 are still paying off that debt as this Christmas approaches. As families brace themselves for a winter of soaring energy bills and increasing food prices, what steps has the Welsh Government taken to ensure that people who are at risk of falling into financial hardship get the support and advice that they so desperately need?

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, mae adroddiad diweddar gan y Gwasanaeth Cyngor ar Arian wedi dangos bod mwy na 10% o bobl ledled y DU a gymerodd fenthyciad i dalu am Nadolig 2011 yn dal i ad-dalu'r ddyled honno wrth i'r Nadolig hwn agosáu. Wrth i deuluoedd baratoi eu hunain ar gyfer gaeaf o filiau ynni a phrisiau bwyd uwch, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i sicrhau bod pobl sydd mewn perygl o ddioddef caledi ariannol yn cael y cymorth a'r cyngor y mae cymaint ei angen arnynt?

**The First Minister:** Through the work of the financial inclusion delivery group, we are working closely with the Money Advice Service in Wales—[*Interruption.*]

**Y Prif Weinidog:** Trwy waith y grŵp cyflawni cynhwysiant ariannol, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian yng Nghymru—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order, Leighton Andrews. I am sorry to interrupt, First Minister; would you carry on, please?

**Y Llywydd:** Trefn, Leighton Andrews. Mae'n ddrwg gennyf dorri ar draws, Brif Weinidog; a wnewch chi barhau, os gwelwch yn dda?

**The Presiding Officer:** Yes, but my goodwill is beginning to be stretched here.

**Y Llywydd:** Ie, ond mae fy ewyllys da yn cyrraedd pen ei dennyn yma.

**The First Minister:** I bow to your position as Presiding Officer.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn plygu i'ch swyddogaeth fel Llywydd.

**The Presiding Officer:** Thank you.

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr.

**The First Minister:** We work with the Money Advice Service, and have provided funding to Citizens Advice Cymru for the Better Advice, Better Lives programme. We are investing £2.3 million over three years so that credit unions can be an affordable alternative to the pay-day loan companies and other doorstop lenders.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyngor ar Arian, ac wedi darparu cyllid i Gyngor ar Bopeth Cymru ar gyfer rhaglen Cyngor Gwell, Bywydau Gwell. Rydym yn buddsoddi £2.3 miliwn dros dair blynedd fel y gall undebau credyd fod yn ddewis fforddiadwy yn hytrach na'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog a benthycwyr carreg drws eraill.

**Mohammad Asghar:** First Minister, research commissioned by Race Council Cymru found that people from minority ethnic backgrounds are still experiencing racism in Wales. It found that the reporting of racist incidents and hate crimes remains a major problem, with only 20% of victims reporting them to the police. Will the First Minister commit his Government to working with the new police commissioners in Wales

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, canfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Cydraddoldeb Hiliol Cymru fod pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn parhau i ddioddef hiliaeth yng Nghymru. Canfu bod hysbysu am ddigwyddiadau hiliol a throseddau casineb yn parhau i fod yn broblem fawr, a dim ond 20% o'r rhai sy'n eu dioddef sy'n hysbysu'r heddlu amdanynt. A fydd y Prif Weinidog yn ymrwymo ei

to make tackling hate crime a priority in 2013?

Lywodraeth i weithio gyda'r comisiynwyr heddlu newydd yng Nghymru i sicrhau bod mynd i'r afael â throseddau casineb yn flaenoriaeth yn 2013?

**The First Minister:** I can give that absolute assurance. All Members in the Chamber would agree that hate crime of any kind is despicable and needs to be rooted out as soon as possible.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf eich sicrhau yn ddiamod. Byddai'r holl Aelodau yn y Siambr yn cytuno bod troseddau casineb o unrhyw fath yn warthus a bod angen cael gwared arnynt cyn gynted ag y bo modd.

### Tlodi Maethol

### Nutritional Poverty

***13. Gwyn R. Price:** Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi maethol yng Nghymru. OAQ(4)0803(FM)*

***13. Gwyn R. Price:** What is the Welsh Government doing to combat nutritional poverty in Wales. OAQ(4)0803(FM)*

**The First Minister:** The importance of reducing health inequalities is highlighted in 'Together for Health'. We are committed to tackling avoidable and unfair differences in health in our 'Fairer Health Outcomes For All' national action plan.

**Y Prif Weinidog:** Mae pwysigrwydd lleihau anghydraddoldebau iechyd yn cael ei amlygu yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi ym maes iechyd yn ein cynllun gweithredu cenedlaethol, 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. Increases in the cost of living, and particularly increases in utility bills, are leaving many families short of money for food, meaning that nutrition comes second. Will you express to the UK Government that its priority should be helping hard-pressed families to put nutritious food on the table, not tax cuts for millionaires? Can you express that it is certainly a priority for this Labour Government?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb yna. Mae cynnydd i gostau byw, a chynnydd i filiau cyfleustodau yn arbennig, yn gadael llawer o deuluoedd yn brin o arian ar gyfer bwyd, sy'n golygu bod maeth yn ystyriaeth eilaidd. A wnewch chi fynegi i Lywodraeth y DU y dylai flaenoriaethu cymorth i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd rhoi bwyd maethlon ar y bwrdd, yn hytrach na gostyngiadau i drethi miliwnyddion? A wnewch chi fynegi bod hyn yn sicr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur hon?

**The First Minister:** That is absolutely true. We will wait to see what the autumn statement says, but I will give you one example of what we are doing now, which is ensuring that nearly 70%—as the figure is now—of maintained primary schools offer free, healthy breakfasts to their pupils. A healthy breakfast is crucial to a child's learning outcome during the course of the day, and that is something that we very much welcome.

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n hollol wir. Byddwn yn aros i weld beth fydd datganiad yr hydref yn ei ddweud, ond rhoddaf un enghraifft i chi o'r hyn yr ydym yn ei wneud yn awr, sy'n sicrhau bod bron i 70%—sef y ffigur ar hyn o bryd—o ysgolion cynradd a gynhelir yn cynnig brecwast iach i'w disgyblion yn rhad ac am ddim. Mae brecwast iach yn hanfodol i ganlyniadau dysgu plentyn yn ystod y diwrnod, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu'n fawr.

**Darren Millar:** First Minister, my views on school breakfasts are well known, but one concern that I have is that the demise of

**Darren Millar:** Brif Weinidog, mae pawb yn ymwybodol o'm safbwyntiau ar frecwastau ysgol, ond un pryder sydd gennyf yw bod

home economics lessons in schools has led to people not being able to prepare a meal from fresh ingredients. What action is your Government taking to ensure that those basic life skills are given to pupils in our schools, particularly where they are not able to acquire them at home for whatever reason?

tranc gwersi economeg y cartref mewn ysgolion wedi golygu na all pobl baratoi pryd o fwyd gan ddefnyddio cynhwysion ffres. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau y rhoddir y sgiliau bywyd sylfaenol hynny i ddisgyblion yn ein hysgolion, yn enwedig pan nad ydynt yn gallu eu cael gartref am ba bynnag reswm?

**The First Minister:** The Member is right: his views on school breakfast, and those of his party, are well known. They would abolish them and ensure that many children do not get a nutritional breakfast in the morning. He gave us an unfortunate reminder there.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn iawn: mae pawb yn ymwybodol o'i farn ar frecwast ysgol, a barn ei blaid. Byddent yn eu diddymu ac yn sicrhau na fyddai llawer o blant yn cael brecwast maethlon yn y bore. Cawsom ein hatgoffa'n anffodus ganddo nawr.

However, he mentioned an important point in relation to what he describes as home economics. I remember—as will many in the Chamber—that home economics was taught as part of four subjects in the first year of comprehensive school, along with needlework, metalwork and woodwork. I remember making a strawberry crumble that went into my parents' freezer, where it remained almost until the day I got married. [*Laughter*.] It was a big chest freezer and I think that, in the end, it made good its escape through its own means. The Member raises an important point: it is important that children are taught skills in an appropriate setting on how to prepare fresh meals, rather than thinking that meals are ready when that microwave pings.

Fodd bynnag, crybwyllwyd pwynt pwysig ganddo o ran yr hyn a ddisgrifia fel economeg y cartref. Rwy'n cofio—fel y bydd llawer yn y Siambr—bod economeg y cartref yn cael ei addysgu yn rhan o bedwar pwnc yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol gyfun, ynghyd â gwnïo, gwaith metel a gwaith coed. Rwy'n cofio gwneud crymbl mefus a roddwyd yn rhewgell fy rhieni, lle arhosodd bron tan y diwrnod i mi briodi. [*Chwerthin*.] Rhewgell gist fawr oedd hi ac, yn y pendraw, ryw'n credu iddo ddianc ar ei ben ei hun. Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig: mae'n bwysig yr addysgir sgiliau i blant mewn lleoliad priodol ar sut i baratoi prydau ffres, yn hytrach na meddwl bod prydau bwyd yn barod pan fydd y popty micro yn gwneud sŵn ping.

### Adroddiad Comisiwn Silk

### The Silk Commission's Report

***14. Yr Arglwydd Elis-Thomas**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y DU yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Comisiwn Silk. OAQ(4)0815(FM)W*

***14. Lord Elis-Thomas:** What discussions has the First Minister had with UK Ministers following the publication of the Silk Commission's report. OAQ(4)0815(FM)W*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf mewn cysylltiad cyson â Gweinidogion y Deyrnas Unedig a siaradais am hyn ddiwethaf gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ddoe.

**The First Minister:** I am in regular contact with United Kingdom Ministers and I last spoke about this with the Secretary of State yesterday.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei ymateb. A fyddai'n derbyn bod rhan sylweddol o'r agenda yn agenda y gallai ei Lywodraeth ei weithredu o fewn Cymru heb aros am ddeddfwriaeth yn San Steffan, yn arbennig y posibilrwydd o

**Lord Elis-Thomas:** I thank the First Minister for his response. Would he accept that a significant part of the agenda is an agenda that his Government could implement within Wales without waiting for legislation in Westminster, particularly the possibility of

greu trysorlys i Gymru, a hynny ar fyrder?

creating a treasury for Wales as a matter of urgency?

**Y Prif Weinidog:** Rydych chi'n iawn, ac mae hwn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ystyried. Rwy'n gobeithio y bydd rhan 1 o gomisiwn Silk yn cael ei gymryd ymlaen cyn gynted â phosibl, wrth gofio taw'r Trysorlys yn Llundain sy'n ei reoli. Os oes rhyw ffordd o'i wneud drwy Fesur cyllid, byddai hynny'n un peth; ynglŷn â benthyca, er enghraifft, yr unig beth sydd ei eisiau, ym marn y Llywodraeth, yw llythyr, achos mae'r pwerau yno ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio y bydd rhan 1 o Silk, a gafodd gymeradwyaeth unigol yn y Cynulliad Cenedlaethol hwn, yn cael ei symud ymlaen yn awr. Rydym yn hollol barod i weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.

**The First Minister:** You are right, and this is something that we have to consider. I hope that part 1 of the Silk commission will be taken forward as soon as possible, remembering of course that it is the Treasury in London that controls this issue. If there was a way of doing it through a financial Bill, that would be one thing; in relation to borrowing, for example, all that is needed, in the opinion of the Government, is a letter, because we have the powers at present. We hope that part 1 of Silk, which has been given approval by everyone in the National Assembly, will now be taken forward. We are ready to work with the United Kingdom Government to ensure that that happens.

**Paul Davies:** Rwy'n sylwi o'ch sylwadau yr wythnos diwethaf yn ystod y ddadl ar adroddiad y comisiwn Silk eich bod wedi cynnig grŵp rhynglywodraethol rhwng eich Llywodraeth chi a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a fyddai'n gweithio i adolygu argymhellion y comisiwn. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar y cynnig hwn ac amlinellu pa drafodaethau sydd wedi digwydd mewn perthynas â grŵp o'r fath?

**Paul Davies:** I notice from your comments of last week during the debate on the Silk report that you have proposed an inter-governmental group between your Government and the UK Government that would work to review the commission's recommendations. Could you give us an update on that proposal, and outline what discussions have taken place in relation to such a group?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym wedi cael ateb eto, ond nid oes rheswm i feddwl ni fydd ateb positif ynglŷn â hwn. Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn gweithio gyda'r Trysorlys—ac mae'r Trysorlys wedi dangos ei fod eisiau gweithio gyda ni, beth bynnag—er mwyn sicrhau bod rhan 1 yn cael ei gweithredu cyn gynted â phosibl.

**The First Minister:** We have not had an answer yet, but there is no reason to believe that we will not receive a positive response on this. What is important is that we work with the Treasury—and it has shown that it wants to work with us anyway—to ensure that part 1 is implemented as soon as possible.

### Undebau Credyd Lleol

### Local Credit Unions

***15. David Rees:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl i ddefnyddio eu hundebau credyd lleol fel nad ydynt yn disgyn i fagl 'benthyciadau diwrnod cyflog' dros yr wyl. OAQ(4)0813(FM)*

***15. David Rees:*** *Will the First Minister outline what the Welsh Government is doing to encourage people to use their local credit unions so that they do not fall victim to pay day loans during the festive period. OAQ(4)0813(FM)*

**The First Minister:** Credit unions are being promoted nationally through a radio advertising campaign that started on 13 November and will continue until 31 January next year.

**Y Prif Weinidog: Mae** undebau credyd yn cael eu hyrwyddo yn genedlaethol drwy ymgyrch hysbysebu ar y radio a ddechreuodd ar 13 Tachwedd ac a fydd yn parhau tan 31 Ionawr y flwyddyn nesaf.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. Following on from my colleague, the Member for Clwyd South, who highlighted the festive period as being a major issue for many people, a recent report showed that 1 in 10 people are thinking of taking out a pay-day loan over the next six months, and probably more in the next month. I am sure that you, like me, welcome the UK Government’s u-turn on looking at capping the interest rates on pay-day loans. However, we must provide a viable alternative to such loans through credit unions. In light of the funding cuts being experienced by credit unions, particularly on short-term grants, what is the Welsh Government doing to support credit unions to ensure a sustainable future and to provide staff to help support our most vulnerable people?

**David Rees:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Gan ddilyn geiriau fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Dde Clwyd, a dynnodd sylw at y Nadolig fel bod yn fater o bwys mawr i lawer o bobl, mae adroddiad diweddar yn dangos bod 1 o bob 10 o bobl yn ystyried cymryd benthyciad diwrnod cyflog dros y chwe mis nesaf, a mwy, mae’n debyg, yn y mis nesaf. Yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel minnau, yn croesawu tro pedol Llywodraeth y DU ar edrych ar gapio’r cyfraddau llog ar fenthyciadau diwrnod cyflog. Fodd bynnag, mae’n rhaid i ni ddarparu dewis arall ymarferol i fenthyciadau o’r fath drwy undebau credyd. Yn sgil y toriadau ariannol y mae undebau credyd yn eu profi, yn enwedig o ran grantiau tymor byr, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi undebau credyd i sicrhau dyfodol cynaliadwy ac i ddarparu staff i helpu i gefnogi ein pobl fwyaf agored i niwed?

**The First Minister:** We know that credit unions will continue to receive support until at least September of next year. We are working with the credit unions in order to ensure that we can identify funding when that date goes by.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gwybod y bydd undebau credyd yn parhau i dderbyn cefnogaeth tan o leiaf mis Medi y flwyddyn nesaf. Rydym yn gweithio gyda’r undebau credyd er mwyn sicrhau y gallwn nodi cyllid pan fydd y dyddiad hwnnw wedi mynd heibio.

**Mark Isherwood:** With Christmas fast approaching, North Wales Credit Union is issuing a serious warning about the dangers lying in wait for those risking pay-day loans, citing research that shows that 60% of those who have taken out pay-day loans now regret the decision. What dialogue, therefore, has or is the Welsh Government having with the UK Government regarding the £38 million it has announced for credit unions, including those in Wales, to make services more available and sustainable, and regarding the announcement by the UK Government last week that its upcoming financial services Bill could give the new financial regulator powers to cap interest rates?

**Mark Isherwood:** Gyda’r Nadolig yn prysur agosáu, mae Undeb Credyd Gogledd Cymru yn cyhoeddi rhybudd difrifol am y peryglon sy’n aros y rhai sy’n mentro cymryd benthyciadau diwrnod cyflog, gan nodi gwaith ymchwil sy’n dangos bod 60% o’r rhai sydd wedi cymryd benthyciadau diwrnod cyflog yn difaru gwneud y penderfyniad. Pa ddeialog, felly, y mae Llywodraeth Cymru yn ei chynnal, neu wedi ei chynnal, gyda Llywodraeth y DU ynghylch y £38 miliwn y mae wedi ei gyhoeddi ar gyfer undebau credyd, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, i sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn rhwyddach ac yn fwy cynaliadwy, ac ynghylch y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU yr wythnos diwethaf y gallai ei Bil gwasanaethau ariannol sydd ar ddod yn rhoi pwerau rheoleiddiwr ariannol newydd i gapio cyfraddau llog?

**The First Minister:** I very much welcome it,

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ei groesawu’n

and I hope it does give the power to the regulator. There is no way of describing the situation with these companies other than ‘usury’. That description has been used in the House of Lords. It is an old-fashioned expression and, as Members in the Chamber will know, it was used by Jesus himself in the temple, when he threw the usurers out. I know that the reverend gentleman on the Plaid benches will no doubt know more than me with regard to what is included in the Bible. On a serious point, people take these loans out, and they appear to be attractive because, quite often, they are delivered on the basis of a daily interest rate, but people do not understand where it takes them if they keep loans in place for weeks or months. That is the problem here. Something needs to be done to curb the activities of these companies, and at least to make people fully informed of what they are taking on when they take out these loans.

fawr iawn, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn rhoi’r pŵer i’r rheoleiddiwr. Nid oes unrhyw ffordd o ddisgrifio’r sefyllfa gyda’r cwmnïau hyn ar wahân i ‘usuriaeth’. Mae’r disgrifiad hwnnw wedi ei ddefnyddio yn Nhŷ’r Arglwyddi. Mae’n ddywediad hen-ffasiwn ac, fel y bydd Aelodau yn y Siambr hon yn gwybod, fe’i defnyddiwyd gan yr Iesu ei hun yn y deml, pan daflodd yr usurwyr allan. Gwn y bydd y parchedig ar feinciau’r Blaid yn ddiamau yn gwybod mwy na mi o ran beth sydd wedi’i gynnwys yn y Beibl. Ar bwynt difrifol, mae pobl yn cymryd y benthyciadau hyn, ac maent yn ymddangos i fod yn ddeniadol oherwydd, yn aml iawn, maent yn cael eu darparu ar sail cyfradd llog ddyddiol, ond nid yw pobl yn deall yr hyn sy’n digwydd os ydynt yn gadael i fenthyciadau fynd ymlaen am wythnosau neu fisoedd. Dyna’r broblem yma. Mae angen gwneud rhywbeth i atal gweithgareddau’r cwmnïau hyn, ac o leiaf sicrhau bod pobl yn cael yr holl wybodaeth am yr hyn y maent yn ei wneud wrth gytuno i gymryd y benthyciadau hyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** O ran cyfeiriad Beiblaidd y Prif Weinidog, yr hyn yr oedd Iesu Grist yn ei gyfeirio ato oedd y cyfnewidwyr arian a oedd yn manteisio ar bobl dlawd a bregus. Yn eironig, ar adeg y Nadolig, mae hynny’n arbennig o wir, nid yn unig o ran benthyciadau diwrnod cyflog, ond hefyd o ran y bobl sy’n cynnig benthyciadau answyddogol, y siarcod benthyciadau sy’n codi prisiau uchel iawn am eu benthyciadau.

**Rhodri Glyn Thomas:** In terms of the First Minister’s Biblical reference, what Jesus was referring to was the money changers who were taking advantage of vulnerable people. Ironically, as Christmas approaches, that is particularly true, not only in terms of pay-day loans, but those people who offer unofficial loans, the loan sharks who charge huge interest rates on their loans.

Mae’n dymor ewyllys da a hoffwn eich canmol chi a’ch Llywodraeth am yr hyn rydych yn ei wneud i hyrwyddo undebau credyd. A fyddech chi’n ystyried rhyddhau datganiad, ar y cyd gydag arweinwyr y gwrthbleidiau, yn annog pobl i edrych ar undebau credyd a ffyrdd eraill o fenthyg arian ar adeg y Nadolig, yn hytrach na thaliadau diwrnod cyflog a benthyciadau answyddogol, oherwydd bydd teuluoedd yn canfod eu hunain mewn sefyllfa anffodus iawn dros y Nadolig hwn?

It is the season of goodwill and I praise you and your Government for what you have done in promoting credit unions. Would you consider issuing a statement, jointly with the leaders of the opposition parties, to encourage people to look at credit unions and other means of borrowing money during the Christmas period, rather than going to pay-day loan companies and unofficial lenders, because families will find themselves in extremely unfortunate positions over this Christmas period?

**Y Prif Weinidog:** Fel y soniais, rydym wedi bod yn rhedeg hysbysebion ar y radio i

**The First Minister:** As I mentioned, we

sicrhau bod pobl yn deall bod ffyrdd eraill i fenthyg arian heb fynd at y cwmnïau hyn, neu, efallai'n waeth eto, fenthyg arian gan bobl sydd wrth yr heol, sef y *loan sharks.* Mae'n bwysig dros ben, wrth i'r Nadolig agosáu, gyda'r pwysau sydd ar rieni gan nad yw plant yn deall y sefyllfa ariannol, bod pobl yn ystyried benthyg arian gan gwmnïau na fydd yn eu dodi mewn sefyllfa beryglus dros ben yn y dyfodol.

have an advertising campaign on the radio to ensure that people understand that there are other ways to borrow money without going to these companies or, possibly worse yet, borrowing from loan sharks. It is very important, as Christmas approaches, with the pressure that is on parents because children do not understand the financial situation, that people consider borrowing money from companies that will not place them in a dangerous situation in future.

**Sandy Mewies:** I was privileged on Friday to present cheques worth £1,000 each to Flintshire youth forum and to the north Wales financial inclusion partnership for the work that they have done to support victims of loan sharks. Will you join me in congratulating both organisations for the work that they have done? I particularly want to mention the young people of the youth forum, because, once again, they have decided to donate their £1,000 to a fund for those victims. We should all appreciate the work that those young people and people like them are doing to support victims of loan sharks.

**Sandy Mewies:** Cefais y fraint ddydd Gwener o gyflwyno sieciau gwerth £1,000 yr un i fforwm ieuenctid Sir y Fflint ac i bartneriaeth cynhwysiant ariannol gogledd Cymru am y gwaith y maent wedi'i wneud i gefnogi dioddefwyr benthycwyr arian didrwydded. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y ddau sefydliad am y gwaith y maent wedi'i wneud? Rwyf yn arbennig o awyddus i sôn am bobl ifanc y fforwm ieuenctid, oherwydd, unwaith eto, maent wedi penderfynu rhoi eu £1,000 hwy i gronfa ar gyfer y dioddefwyr hynny. Dylai pob un ohonom werthfawrogi'r gwaith y mae'r bobl ifanc hyn a phobl eraill tebyg iddynt yn ei wneud i gefnogi dioddefwyr benthycwyr arian didrwydded.

**The First Minister:** I would very much like to echo the comments that the Member has made. That is a practical example of the kind of support that is provided at community level, to provide community solidarity at a time that is particularly difficult for so many families.

**Y Prif Weinidog:** Hoffwn yn fawr iawn ategu'r sylwadau y mae'r Aelod wedi'u gwneud. Mae hyn yn enghraifft ymarferol o'r math o gefnogaeth sy'n cael ei darparu ar lefel gymunedol, i ddangos cydsafiad cymunedol mewn cyfnod arbennig o anodd i gynifer o deuluoedd.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one amendment to report to the business statement. The statement by the Minister for Education and Skills on the future direction of the regulation and qualifications in Wales will be replaced by a written statement. Members were advised last week that the Government will be tabling a motion tomorrow to suspend Standing Orders to allow the Assembly to debate the Council

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid i hysbysu yn ei gylch i'r datganiad busnes. Bydd y datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfeiriad rheoliadau a chymwysterau yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddisodli gan ddatganiad ysgrifenedig. Dywedwyd wrth yr Aelodau yr wythnos diwethaf y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynnig yfory i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu i'r Cynulliad drafod Rheoliadau Cynlluniau

Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations. Business for the forthcoming period is as shown on the business statement and announcement that can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru). Mae busnes ar gyfer y cyfnod sydd i ddod fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes a gellir ei weld ymysg y papurau agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

**Darren Millar:** Minister, thank you for your business statement. Will there be an opportunity to have a statement in the new year from the Minister for Environment and Sustainable Development on flood risk management in Wales? In the wake of the terrible flooding in Conwy and Denbighshire last week, serious concerns are being raised about the adequacy of the planning system in particular to be able to deal and cope with flooding. What consideration is the Welsh Government giving to amending the planning system to make it more robust in terms of flood risk management, perhaps by adding statutory consultees to the process, such as Welsh Water and the insurance industry? I ask for that statement as soon as possible, and while I appreciate that a written statement has been issued, it is important that we are able to ask questions about the specific actions that the Welsh Government is taking at this time.

**Darren Millar:** Weinidog, diolch i chi am eich datganiad busnes. A fydd cyfle i gael datganiad yn y flwyddyn newydd gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar reoli perygl llifogydd yng Nghymru? Yn sgil y llifogydd ofnadwy yng Nghonwy a Sir Ddinbych yr wythnos ddiwethaf, mae pryderon difrifol yn cael eu codi ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r system gynllunio yn arbennig i allu delio ac ymdopi â llifogydd. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth Cymru'n ei rhoi i ddiwygio'r system gynllunio i'w gwneud yn fwy cadarn o ran rheoli perygl llifogydd, efallai trwy ychwanegu ymgyngoreion statudol at y broses, megis Dŵr Cymru a'r diwydiant yswiriant? Gofynnaf am y datganiad hwnnw cyn gynted ag y bo modd, ac er fy mod yn gwerthfawrogi bod datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi, mae'n bwysig ein bod yn gallu gofyn cwestiynau am y camau gweithredu penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar hyn o bryd.

**Jane Hutt:** As Darren Millar knows, and has acknowledged, a statement was issued by the Minister for Environment and Sustainable Development on flood risk management last week. In addition, the Minister for Local Government and Communities responded to an urgent question on this point in terms of the impact on transport. I would like to announce that the First Minister and the Minister for Environment and Sustainable Development have announced an investigation to be undertaken by the Environment Agency, and its results will be reported to the National Assembly for Wales in due course. That will provide an opportunity to look at these wider issues.

**Jane Hutt:** Fel y gŵyr Darren Millar, ac fel y mae wedi'i gydnabod, cyhoeddwyd datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar reoli perygl llifogydd yr wythnos ddiwethaf. Yn ogystal, ymatebodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i gwestiwn brys ar y pwynt hwn o ran yr effaith ar drafnidiaeth. Hoffwn gyhoeddi bod y Prif Weinidog a Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi cyhoeddi ymchwiliad a fydd yn cael ei gynnal gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Cyflwynir adroddiad ynglŷn â'r canlyniadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru maes o law. Bydd hynny'n rhoi cyfle i edrych ar y materion ehangach.

2.30 p.m.

**Simon Thomas:** Hoffwn ofyn i chi am y safonau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r comisiynydd wedi ymgynghori'n eang ar y safonau ar gyfer

**Simon Thomas:** I would like to ask you about the standards published by the Welsh Language Commissioner. The commissioner has consulted broadly on the standards for

cyrff cyhoeddus ac wedi'u cyhoeddi erbyn hyn. Y cam nesaf, yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, fydd pasio'r safonau ymlaen at y Llywodraeth a'r Llywodraeth yn dod â safonau i'r Cynulliad er mwyn inni eu cymeradwyo. Gan fod Comisiynydd y Gymraeg eisoes wedi ymgynghori ar safonau, a gaf ymrwymiad gennych, ar ran y Llywodraeth, y byddwch yn gwneud hyn mor fuan â phosibl?

public bodies and has now published them. The next step, as I understand it, will be the standards being passed to the Government and the Government bringing those standards to the Assembly for our approval. As the Welsh Language Commissioner has already consulted on the standards, may I have a commitment from you, on behalf of the Government, that you will do this as swiftly as possible?

**Jane Hutt:** In response to Simon Thomas, I am quite clear that the Minister will want to respond, as there has been consultation on the standards. I will certainly be able to assure the Member and the Assembly on the timeline for that.

**Jane Hutt:** Mewn ymateb i Simon Thomas, rwyf yn gwbl glir y bydd y Gweinidog yn dymuno ymateb, gan y bu ymgynghori ar y safonau. Byddaf yn bendant yn gallu rhoi sicrwydd i'r Aelod a'r Cynulliad ar yr amserlen ar gyfer hynny.

**Suzy Davies:** Will you speak to your colleague, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, to request a statement on the creative industries sector panel? In response to a written question I recently put to her asking for an update, the response I received was that the creative industries sector panel provides advice to her on the opportunities and needs of the sector and meets as and when required to take this work forward. I am sure you will agree that that does not help me to scrutinise the Minister. Perhaps we could have a more complete and substantive statement updating us all on the progress of the creative industries sector panel.

**Suzy Davies:** A wnewch chi siarad â'ch cydweithiwr, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, i ofyn am ddatganiad ar banel y sector diwydiannau creadigol? Mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig a gyflwynais yn ddiweddar yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf, yr ymateb a gefais oedd bod panel y sector diwydiannau creadigol yn rhoi cyngor iddi ynglŷn â chyfleoedd ac anghenion y sector a'i fod yn cyfarfod yn ôl yr angen i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno nad yw hynny'n fy helpu i graffu ar y Gweinidog. Efallai y gallem gael datganiad mwy cyflawn a sylweddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni i gyd ar ddatblygiad panel y sector diwydiannau creadigol.

**Jane Hutt:** I am sure that Suzy Davies appreciates that the creative industries sector panel is making progress and it is an important cross-sectoral independent panel that advises the Minister. However, I will certainly update the Minister on your request for further information on its business.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr bod Suzy Davies yn gwerthfawrogi bod panel y sector diwydiannau creadigol yn symud yn ei flaen a'i fod yn banel traws-sector annibynnol pwysig sy'n cynghori'r Gweinidog. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn hysbysu'r Gweinidog am eich cais am ragor o wybodaeth am ei fusnes.

**Kirsty Williams:** Minister, will you ask your colleague, the Minister for Health and Social Services, to prepare a written statement, given that it is the last week of Assembly business, on the situation regarding waiting times for Powys patients? I would be grateful if that statement could confirm when Powys Teaching Local Health Board sought advice

**Kirsty Williams:** Weinidog, a wnewch chi ofyn i'ch cydweithiwr, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, baratoi datganiad ysgrifenedig, o ystyried mai hon yw wythnos olaf busnes y Cynulliad, ar y sefyllfa o ran amseroedd aros i gleifion Powys? Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r datganiad gadarnhau pryd y gofynnodd

from Welsh Government officials about whether such actions were an appropriate way to save money. If that advice was sought from the Welsh Government, did the Welsh Government agree with Powys local health board that delaying waiting times for Powys patients was an appropriate way to manage in-year pressures on its budget, and which officials were engaged in those discussions?

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys am gyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch a yw camau o'r fath yn ffordd briodol i arbed arian. Os gofynnwyd am y cyngor hwnnw gan Lywodraeth Cymru, a wnaeth Llywodraeth Cymru gytuno gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys bod oedi amseroedd aros ar gyfer cleifion Powys yn ffordd briodol i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn ar ei gyllideb, a pha swyddogion a gymerodd ran yn y trafodaethau hynny?

**Jane Hutt:** I am happy to have the opportunity this afternoon to respond to that question from the Member for Brecon and Radnorshire. Welsh Government expectations are unchanged and we can put that on the record this afternoon. We expect all patients to be seen within our maximum waiting time target. In fact, there are no patients at present waiting over 36 weeks for treatment in Powys, and 98.4% are seen within 26 weeks, against the target of 95%. The Minister for Health and Social Services requires all health boards, including Powys Teaching Local Health Board, to work on this basis. In fact, Welsh Government officials have spoken to Powys health board and received assurances that there is no intention to move away from this policy.

**Jane Hutt:** Rwyf yn hapus i gael y cyfle brynhawn heddiw i ymateb i'r cwestiwn hwnnw gan yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed. Nid yw disgwyliadau Llywodraeth Cymru wedi newid a gallwn gofnodi hynny brynhawn heddiw. Rydym yn disgwyl i'r holl gleifion gael eu gweld o fewn ein targed ar gyfer amser aros hwyaf. Yn wir, nid oes unrhyw gleifion ar hyn o bryd yn aros dros 36 wythnos am driniaeth ym Mhowys, a chaiff 98.4% eu gweld o fewn 26 wythnos, o'i gymharu â'r targed o 95%. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, weithio ar y sail hon. Yn wir, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi siarad â Bwrdd Iechyd Powys ac wedi derbyn sicrwydd nad oes unrhyw fwriad i symud oddi wrth y polisi hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, cyfeiriasoch yn barod at geisio atal Rheolau Sefydlog dros dro er mwyn trafod y rheoliadau sy'n ymwneud â budd-dal y dreth gyngor. Fel y gwyddoch—mae'r neges hon wedi'i chyfleu yn glir iawn i chi—buom fel plaid yn eich rhybuddio ers mis Mawrth diwethaf o'r trafferthion a oedd yn eich wynebu ac rydych wedi anwybyddu hynny yn gyfan gwbl. Rydych wedi aros tan yr eiliad olaf ac rydych yn cyflwyno hyn fel y mater busnes olaf un ar y diwrnod olaf cyn toriad y Nadolig oherwydd eich bod am gael dadl gyda San Steffan a'ch bod yn anwybyddu anghenion pobl fregus a thlawd yn ein cymunedau ledled Cymru. Rydych yn disgwyl inni ganiatáu ichi wneud hynny. Nid ydym yn barod i'r mater hwn fynd drwodd heb graffu perthnasol, fel y dylid ei wneud gydag unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you have already referred to trying to suspend Standing Orders to discuss the regulations in relation to council tax benefit. As you know—this message has been conveyed very clearly to you—we as a party have been warning you since last March of the difficulties that faced you and you have ignored that entirely. You have waited until the last second and you present this as the penultimate item of business before the Christmas recess because you want to have an argument with Westminster and you are ignoring the needs of vulnerable and poor people in our communities throughout Wales, and you expect us to allow you to do that. We are not willing for this to go through without the relevant scrutiny, as should be done for any legislation.

Fel y gwyddoch, rydym wedi dweud yn gwbl glir wrthoch os rhoddwch gymal machlud i mewn i'r rheoliadau gwnawn ganiatáu i chi, am y tro—er ein bod yn credu eich bod wedi bod yn gwbl anghyfrifol yn y mater hwn—adael i'r rheoliadau hyn fynd drwodd. Os na fydd cymal felly yn cael ei gyflwyno ddydd Mercher, byddwn yn pleidleisio yn erbyn atal y Rheolau Sefydlog dros dro. Rydym yn ddigon parod i ddod yn ôl yn ystod toriad y Nadolig, os dywedwch bod hynny'n angenrheidiol, ond os nad yw'r cymal hwnnw'n rhan o'r rheoliadau, ni fyddwn yn eu cefnogi.

As you know, we have said clearly to you that if you put a sunset clause in these regulations, we will allow you, for the time being—although we believe that you have been entirely irresponsible in this matter—to let these regulations go through. If such a clause is not put forward on Wednesday, we will vote against suspending Standing Orders. We are entirely willing to come back during the Christmas recess, if you tell us that that is necessary, but if that clause is not included in the regulations, we will not support them.

Ar fater arall, sef Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, mae'n siŵr eich bod wedi rhoi ochenaid o ryddhad gan feddwl eich bod wedi cyrraedd y Nadolig heb roi unrhyw fath o ymateb swyddogol ar ran Llywodraeth Cymru i'r mater. Fodd bynnag, Weinidog, byddwn yn dod yn ôl at y mater yn y flwyddyn newydd. Mae'n warth nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn swyddogol i adroddiad sy'n ymwneud yn gyfangwbl â methiant Llywodraeth Cymru i reoleiddio'r system o ddosbarthu arian.

On another matter, the All Wales Minority Ethnic Association, I am sure that you must have heaved a sigh of relief to think that you have reached the Christmas recess without giving any kind of official response on behalf of the Welsh Government on this matter. However, Minister, we will return to this matter in the new year. It is atrocious that the Welsh Government has not responded officially to a report that deals entirely with the failure of the Welsh Government to regulate the system of distributing funding.

Hefyd gofynnaf am ddadl yn y flwyddyn newydd ar benderfyniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i orfodi cyflogwyr, o Ebrill 2013, i sicrhau bod eu cyflogau yn cydredeg â'u cyflwyniadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o dan y system *real-time information*. A wnewch chi fel Llywodraeth sicrhau ein bod yn cael dadl ar hyn, yn ogystal ag edrych ar y sefyllfa yng Nghymru i weld pa effaith y caiff hynny ar gwmnïau yng Nghymru, gan gofio bod mwyafrif helaeth, dros 90%, o gwmnïau yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl?

I also ask for a debate in the new year on the decision of HM Revenue and Customs to compel employers, from April 2013, to ensure that their wages correspond with their presentations to HMRC under the real-time information system. Will you as a Government ensure that we have a debate on this, as well as looking at the situation in Wales to see what effect that will have on companies in Wales, bearing in mind that the vast majority of companies in Wales, over 90%, employ fewer than 10 people?

**The Presiding Officer:** I believe that you requested only one statement there, Rhodri Glyn.

**Y Llywydd:** Rwyf yn credu mai am un datganiad yn unig y gwnaethoch ofyn, Rhodri Glyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Well, it is Christmas.

**Rhodri Glyn Thomas:** Wel, mae'n Nadolig.

**Jane Hutt:** I believe that Rhodri Glyn Thomas made three points, and asked one question. The Business Committee and party business managers have been discussing the management of the council tax benefit regulations. We will not know the transfer

**Jane Hutt:** Credaf i Rhodri Glyn Thomas wneud tri phwynt, a gofyn un cwestiwn. Mae'r Pwyllgor Busnes a rheolwyr busnes y pleidiau wedi bod yn trafod y gwaith o reoli rheoliadau budd-daliadau'r dreth gyngor. Ni fyddwn yn gwybod beth fydd y

that will be made by the UK Government until tomorrow. We are in the same position as Scotland and Northern Ireland as far as this is concerned. I wish to make one point on this matter. The Minister made an oral statement on this matter on 22 May, and, while receiving the opinions of Rhodri Glyn Thomas on this point, those views, and the discussions that we had in private session in Business Committee, will be considered carefully and will be debated tomorrow thoroughly.

trosglwyddiad a wneir gan Lywodraeth y DU tan yfory. Rydym yn yr un sefyllfa â'r Alban a Gogledd Iwerddon yn hyn o beth. Hoffwn wneud un pwynt ar y mater hwn. Mae'r Gweinidog wedi gwneud datganiad llafar ar y mater hwn ar 22 Mai, ac, er y derbynnir barn Rhodri Glyn Thomas ar y pwynt hwn, bydd y safbwyntiau hynny, a'r trafodaethau a gafodd y Pwyllgor Busnes mewn sesiwn breifat, yn cael eu hystyried yn ofalus a byddant yn cael eu trafod yfory yn drylwyr.

On AWEMA, I do not believe that you were here last week for the very good debate that we had on our grants management scheme. I responded to that debate fully, and said that I was looking forward to a report from the Public Accounts Committee, to which the Welsh Government will then respond as appropriate.

Ar AWEMA, nid wyf yn credu eich bod yma yr wythnos ddiwethaf ar gyfer y ddadl dda iawn a gawsom ar ein cynllun rheoli grantiau. Ymatebais i'r ddadl honno'n llawn, gan ddweud fy mod yn edrych ymlaen at adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac y bydd Llywodraeth Cymru ymateb i hwnnw fel y bo'n briodol.

We are not responsible for HMRC. We may wish to have a Treasury function, as Dafydd Elis-Thomas raised earlier today, but that is clearly a matter for the UK Government.

Nid ydym yn gyfrifol am Gyllid a Thollau EM. Efallai ein bod yn dymuno cael swyddogaeth Trysorlys, fel y nodwyd gan Dafydd Elis-Thomas yn gynharach heddiw, ond mae hynny'n amlwg yn fater i Lywodraeth y DU.

**Paul Davies:** Leader of the House, you made a statement on 25 September on the Welsh Government's framework for action on independent living for disabled people, in your capacity as the Minister with responsibility for equalities. I appreciate that the consultation on the document that you issued continues until 20 December. However, I would be grateful if you could tell us what action the Welsh Government will take once the consultation has ended within the next few weeks. Perhaps you would be kind enough to issue a further statement in the new year, outlining your next steps in taking this agenda forward. It is all well and good issuing this consultation, but we need to know how, as a Government, you will turn some of the specifics in this consultation into reality. I would therefore be grateful if you could confirm that you will issue another statement on this issue, outlining your next steps, and include in that statement the Welsh Government's reply to the consultation responses.

**Paul Davies:** Arweinydd y Tŷ, gwnaethoch ddatganiad ar 25 Medi ar fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol i bobl anabl, yn rhinwedd eich swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gydraddoldeb. Rwyf yn gwerthfawrogi bod yr ymgynghoriad ar y ddogfen a gyhoeddwyd gennych yn parhau tan 20 Rhagfyr. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym ba gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben o fewn yr wythnosau nesaf. Efallai y byddech yn ddigon caredig i gyhoeddi datganiad arall yn y flwyddyn newydd, gan amlinellu eich camau nesaf wrth fwrw ymlaen â'r agenda hon. Un peth yw cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, ond mae angen i ni wybod sut, fel Llywodraeth, y byddwch yn gwireddu rhai o'r manylion yn yr ymgynghoriad hwn. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau y byddwch yn cyhoeddi datganiad arall ar y mater hwn, gan amlinellu eich camau nesaf, ac yn cynnwys, yn y datganiad hwnnw, ymateb Llywodraeth Cymru i'r

ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Jane Hutt:** I thank Paul Davies for that question. It is very much in line with discussions that we had yesterday in the Pierhead building to mark the International Day for Disabled People. Disability Wales held a fortieth anniversary event at which we discussed the framework for action on independent living fully. I would be happy to issue a statement, not only on the results of the consultation, but also on the next steps in terms of implementation.

**Jane Hutt:** Diolch i Paul Davies am y cwestiwn hwnnw. Mae'n cyd-fynd yn agos iawn â'r trafodaethau a gawsom ddoe yn adeilad y Pierhead i nodi'r Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Pobl Anabl. Cynhaliodd Anabledd Cymru ddigwyddiad dathlu deugain mlynedd lle cawsom drafodaeth lawn ar y fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw yn annibynnol. Byddwn yn hapus i gyhoeddi datganiad, nid yn unig ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, ond hefyd ar y camau nesaf o ran rhoi'r fframwaith ar waith.

**Russell George:** Minister, I heard your response to Kirsty Williams earlier. However, we have two hospitals in England that are serving mid Wales that are seeing English patients within 18 weeks, but have been instructed by Powys Teaching Local Health Board not to see patients in my constituency before 32 weeks. They have been instructed to see those patients between a window of 32 weeks and 36 weeks, purely for financial reasons, to save £2 million. I have had constituents in my office in tears as they suffer discomfort and pain. I ask that you seriously consider finding time for a statement clarifying what the targets and waiting times are for Powys patients. I would appreciate if that could be done before we rise for Christmas recess.

**Russell George:** Weinidog, clywais eich ateb i Kirsty Williams yn gynharach. Fodd bynnag, mae gennym ddau ysbyty yn Lloegr sy'n gwasanaethu canolbarth Cymru. Maent yn gweld eu cleifion o Loegr o fewn 18 wythnos, ond wedi cael cyfarwyddyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i beidio â gweld cleifion yn fy etholaeth cyn pen 32 wythnos. Maent wedi cael cyfarwyddyd i weld y cleifion hynny rhwng 32 wythnos a 36 wythnos, dim ond am resymau ariannol, i arbed £2 filiwn. Rwyf wedi gweld etholwyr yn fy swyddfa yn eu dagrau wrth iddynt ddioddef anghysur a phoen. Rwyf yn gofyn i chi ystyried o ddifrif dod o hyd i amser ar gyfer datganiad yn egluro'r targedau a'r amseroedd aros ar gyfer cleifion Powys. Byddwn yn gwerthfawrogi pe gellid gwneud hynny cyn toriad y Nadolig.

**Jane Hutt:** I will not repeat the statement that I made in response to Kirsty Williams. I hope that I put on record our clear expectations of Powys health board, and I would also say that any providers in England that have received letters as you describe, which are having an impact on patients, will be contacted to make this situation absolutely clear. It would be helpful, Russell George, if you could give any information to the Minister for health so that we can set the record and those providers straight.

**Jane Hutt:** Nid wyf am ailadrodd fy natganiad mewn ymateb i Kirsty Williams. Gobeithio fy mod wedi nodi ar goedd ein disgwyliadau eglur gan fwrdd iechyd Powys. Byddwn hefyd yn dweud y cysylltir ag unrhyw ddarparwyr yn Lloegr sydd wedi derbyn llythyrau fel y rhai yr ydych chi'n eu disgrifio, ac sy'n cael effaith ar gleifion, i wneud y sefyllfa'n hollol glir. Byddai'n ddefnyddiol, Russell George, pe gallech chi roi unrhyw wybodaeth i'r Gweinidog Iechyd fel y gallwn unioni pethau a chywiro'r darparwyr dan sylw.

**Mark Isherwood:** I call for a statement on HIV/AIDS in Wales following World AIDS Day on Saturday 1 December. Figures have been published showing that there were 169 new infections in 2011, and 1,500 people

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddatganiad ar HIV / AIDS yng Nghymru yn dilyn Diwrnod AIDS y Byd ddydd Sadwrn 1 Rhagfyr. Cyhoeddwyd ffigurau yn dangos y cafwyd 169 achos newydd o'r haint yn 2011, a bod

were treated in Wales for HIV in 2011, and pointed out that 60 of the new cases involved sexual relations between men and women. In fact, the Terrence Higgins Trust told me that in the first nine months of this year there will be 91 new diagnoses and that Wales has the highest trajectory of new cases per head of population of all the UK nations. In that statement, could the Welsh Government also explain why it has rejected every attempt by charity Tyddyn Bach Trust in Penmaenmawr, the only respite care provider in Wales for people living with HIV/AIDS, their partners, families and carers, to seek engagement, support and help for its plans to generate additional revenue and services for those affected by physical, mental and sensory impairment, with the consequence that the charity had to close and its manager is now facing homelessness?

1,500 o bobl yn cael eu trin yng Nghymru ar gyfer HIV yn 2011. Nodwyd bod 60 o'r achosion newydd yn cynnwys cysylltiadau rhywiol rhwng dynion a menywod. Yn wir, dywedodd Ymddiriedolaeth Terrence Higgins wrthyf y ceir 91 diagnosis newydd yn naw mis cyntaf y flwyddyn hon, ac mai gan Gymru y mae'r cynnydd uchaf yn nifer yr achosion newydd fesul aelod o'r boblogaeth o blith holl wledydd y DU. Yn y datganiad hwnnw, a allai Llywodraeth Cymru hefyd egluro pam ei bod wedi gwrthod pob ymgais gan yr elusen Ymddiriedolaeth Tyddyn Bach ym Mhenmaenmawr i geisio ymgysylltiad, cefnogaeth a chymorth ar gyfer ei gynlluniau i gynhyrchu refeniw a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer rhai a effeithiwyd gan namau corfforol, meddyliol a synhwyraidd? Yr elusen hon yw'r unig ddarparwr gofal seibiant yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n byw gyda HIV/AIDS, eu partneriaid, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac mae bellach wedi gorfod cau ac mae ei rheolwr yn wynebu'r posibilrwydd o fod yn ddigartref.

**Jane Hutt:** I certainly welcome the question from Mark Isherwood on HIV services and incidents of HIV, very much in recognition of World AIDS Day. I know that the Minister has responded to Mark Isherwood on the matter of Tyddyn Bach Trust and its services. However, I think that it would also be appropriate—I am sure that the Minister would agree—to provide a written statement giving an update on HIV prevention and the response in Wales.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr yn croesawu'r cwestiwn gan Mark Isherwood ar wasanaethau HIV ac achosion o HIV, yn bendant gan gydnabod Diwrnod AIDS y Byd. Gwn fod y Gweinidog wedi ymateb i Mark Isherwood ar fater Ymddiriedolaeth Tyddyn Bach a'i gwasanaethau. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y byddai hefyd yn briodol—rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno—darparu datganiad ysgrifenedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag atal HIV a'r ymateb i'r sefyllfa yng Nghymru.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, could we have a statement and an explanation perhaps from you on how you will be taking forward the consequences of the autumn statement tomorrow? Obviously, the parliamentary timetable in Westminster is in other hands, but the possible knock-on effects of the announcements that might emanate from the autumn statement are an important consideration. Could you outline, therefore, how you propose to take this forward and to inform Members of the consequences of the autumn statement for Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a allem gael datganiad ac esboniad efallai gennych ar sut y byddwch yn bwrw ymlaen â chanlyniadau datganiad yr hydref yfory? Yn amlwg, mae'r amserlen seneddol yn San Steffan mewn dwylo eraill, ond mae sgil-effeithiau posibl y cyhoeddiadau a allai ddeillio o ddatganiad yr hydref yn ystyriaeth bwysig. A allech chi amlinellu, felly, sut y bwriadwch fwrw ymlaen â hyn a rhoi gwybod i'r Aelodau am ganlyniadau datganiad yr hydref ar gyfer Cymru?

Secondly, could we have a statement from

Yn ail, a allem gael datganiad gan y

the Minister for health in relation to when patients find themselves stuck on a waiting list? It may be that they have had a consultation, and then, very often, they seek advice about private medical assistance from doctors working in the NHS who might be able to provide that assistance via a private practice. Could we have a statement that highlights the code of conduct to which doctors have to work to make sure that there are no problems with a conflict of interest? I have had it put to me by several constituents over the last few weeks that, when they have offered to pay for the service, all of a sudden they can get that service within a couple of days, as opposed to within several months on the NHS.

Gweinidog Iechyd ynglŷn ag achosion pan fydd cleifion yn eu cael eu hunain ar restr aros? Gallant fod wedi cael ymgynghoriad, ac yna, yn aml iawn, maent yn ceisio cyngor ynglŷn â chymorth meddygol preifat gan feddygon sy'n gweithio yn y GIG a allai fod yn gallu darparu'r cymorth drwy bractis preifat. A allem gael datganiad sy'n tynnu sylw at y cod ymddygiad y mae meddygon yn gorfod ei ddilyn er mwyn gwneud yn siŵr nad oes unrhyw broblemau o ran gwrthdaro rhwng buddiannau? Mae amryw o'm hetholwyr wedi dweud wrthyf, dros yr wythnosau diwethaf, eu bod wedi darganfod yn sydyn y gallant gael y gwasanaeth o fewn ychydig o ddyddiau yn hytrach na nifer o fisoedd ar y GIG, os ydynt yn cynnig talu am y gwasanaeth.

**Jane Hutt:** I thank Andrew R.T. Davies for those questions. Clearly, we all await the autumn statement tomorrow. We are shortly to debate our final budget for 2013-14. I am sure that the autumn statement will have a bearing subsequently. We hope very much that the UK Government will have taken its lead from Wales, in terms of the boost that I have already announced in relation to investment in our infrastructure. I will ensure that I will be able to respond to the Assembly, as appropriate, on the impact of the autumn statement and the consequences of it.

**Jane Hutt:** Diolchaf i Andrew R.T. Davies am y cwestiynau hynny. Yn amlwg, rydym i gyd yn aros am ddatganiad yr hydref yfory. Byddwn yn trafod ein cyllideb derfynol ar gyfer 2013-14 yn fuan. Rwyf yn siŵr y bydd datganiad yr hydref yn effeithio ar hynny yn ddiweddarach. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd Llywodraeth y DU wedi dilyn arweiniad Cymru, o ran yr hwb yr wyf wedi'i gyhoeddi eisoes mewn perthynas â buddsoddi yn ein seilwaith. Byddaf yn sicrhau y byddaf yn gallu ymateb i'r Cynulliad, fel y bo'n briodol, ar effaith datganiad yr hydref a chanlyniadau hynny.

2.45 p.m.

I am interested in your second point and question. We are very clear, as is the Minister for Health, about the consultant contract and what that means for their use of private practice. I think that we could all echo the responses that you have relayed to us this afternoon about the disturbing impact that that has. We believe in a national health service, and we pay our doctors to provide a national health service. Indeed, we can join forces today in saying that we find these situations extremely difficult to understand and tolerate, but we will look into it.

Mae gen' i ddiddordeb yn eich ail bwynt a chwestiwn. Rydym ni, ac mae'r Gweinidog Iechyd, yn eglur iawn ynglŷn â chontract y meddygon ymgynghorol a'r hyn y mae hynny'n ei olygu ar gyfer eu defnydd o bractis preifat. Credaf y gallem i gyd adleisio'r ymatebion yr ydych wedi'u cyfleu i ni brynhawn heddiw am yr effaith andwyol a gaiff hynny. Rydym yn credu mewn gwasanaeth iechyd gwladol, ac rydym yn talu i'n meddygon i ddarparu gwasanaeth iechyd gwladol. Yn wir, gallwn ymuno â'n gilydd heddiw drwy ddweud ein bod yn gweld y sefyllfaoedd hyn yn eithriadol o anodd eu deall a'u goddef, ond byddwn yn ymchwilio i'r mater.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister.

**Y Llywydd:** Diolch ichi, Weinidog. Byddai

Rhodri Glyn Thomas would now like to raise a point of order.

Rhodri Glyn Thomas yn awr yn hoffi codi pwynt o drefn.

**Rhodri Glyn Thomas:** I raise a point of order relating to the fact that the Minister for Finance and Leader of the House referred to the fact that I was not here for the Conservatives' debate last week. I was representing the National Assembly for Wales in Brussels on the Committee of the Regions. I was at the ad hoc budget committee, and I am glad to say that my opinion was accepted by the ad hoc budget committee, referring to the synergies between European budgets, member state budgets and sub-state budgets. One of the things that I said, and one of the reasons I was there, Minister, was to say that the Government of Wales feels that the funding from Europe is very important to the economy of Wales. Therefore, I hope that you appreciate the fact that I was representing not only the Assembly but also the Government of Wales in Brussels.

**Rhodri Glyn Thomas:** Codaf bwynt o drefn yn ymwneud â'r ffaith bod y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ wedi cyfeirio at y ffaith nad oeddwn yn yma ar gyfer dadl y Ceidwadwyr yr wythnos ddiwethaf. Roeddwn yn cynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mrwsel ar Bwyllgor y Rhanbarthau. Yr oeddwn ym mhwyllgor y gyllideb ad hoc, ac rwyf yn falch o ddweud bod pwyllgor y gyllideb ad hoc wedi derbyn fy marn, gan gyfeirio at y synergeddau rhwng cyllidebau Ewropeaidd, cyllidebau aelod-wladwriaethau a chyllidebau is-wladwriaethol. Un o'r pethau a ddywedais, ac un o'r rhesymau pam yr oeddwn yno, Weinidog, oedd dweud bod Llywodraeth Cymru yn teimlo bod yr arian gan Ewrop yn bwysig iawn i economi Cymru. Felly, gobeithiaf y byddwch yn gwerthfawrogi'r ffaith fy mod yn cynrychioli'r Cynulliad, ond hefyd Lywodraeth Cymru ym Mrwsel.

**The Presiding Officer:** I do not think that was actually a point of order, rather a point of information. Minister, did you hear that? Would you like to respond?

**Y Llywydd:** Credaf mai pwynt o wybodaeth oedd hwnnw mewn gwirionedd, yn hytrach na phwynt o drefn. Weinidog, a glywsoch chi hynny? Hoffech chi ymateb?

**Jane Hutt:** I certainly would like to respond to that point of information in this season of goodwill and good cheer, Rhodri Glyn Thomas, because I know that you were playing a very important part last week in Brussels. I was not saying that in a disparaging way at all. All that I was saying was that you missed the opportunity to hear me respond clearly as the Government Minister on the matter of how we are handling our grants management, and I hope that you will take that in the spirit in which it was intended.

**Jane Hutt:** Rwyf yn sicr am ymateb i'r pwynt hwnnw o wybodaeth yn y tymor hwn o ewyllys da, Rhodri Glyn Thomas, am fy mod yn gwybod eich bod yn chwarae rhan bwysig iawn yr wythnos ddiwethaf ym Mrwsel. Nid oeddwn yn dweud hynny mewn ffordd feirniadol o gwbl. Yr oll yr oeddwn yn ei ddweud oedd eich bod wedi colli'r cyfle i'm clywed i'n ymateb yn glir fel Gweinidog y Llywodraeth ynglŷn â sut rydym yn ymdrin â rheoli grantiau, ac rwyf yn gobeithio y byddwch yn cymryd hynny yn yr ysbryd y'i bwriadwyd.

## Datganiad: Cyflwyno'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)
## Statement: the Introduction of the Human Transplantation (Wales) Bill

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am very proud to be making this legislative statement today. Yesterday, I laid the Human Transplantation (Wales) Bill before the National Assembly for Wales, together with an explanatory memorandum. I also issued a written

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwy'n falch iawn i fod yn gwneud y datganiad deddfwriaethol hwn heddiw. Ddoe, gosodais y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd â memorandwm esboniadol. Rwyf hefyd wedi

statement. The Bill represents a significant milestone in our desire to introduce a soft opt-out system for consent to deceased organ and tissue donation in Wales, making us the first country in the UK to introduce legislation of this nature.

cyhoeddi datganiad ysgrifenedig. Mae'r Bil yn cynrychioli carreg filltir arwyddocaol yn ein dymuniad i gyflwyno system feddal o optio allan am gydsyniad i roi organau a meinweoedd marw yng Nghymru, gan ein gwneud y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno deddfwriaeth o'r natur hon.

The soft opt-out system that we are proposing is one whereby a person over the age of 18 who lives and dies in Wales will be deemed to have given their consent to donation unless they have taken steps to register a wish, either to be a donor or not to be a donor. Families will still be involved in discussions about donation since the process cannot go ahead without them.

Mae'r system feddal o optio allan yr ydym yn ei chynnig yn un lle'r ystyrir bod person dros 18 oed sy'n byw ac yn marw yng Nghymru wedi cydsynio i roi eu horganau oni bai eu bod wedi cymryd camau i gofrestru dymuniad, naill ai i fod yn rhoddwr neu i beidio â bod yn rhoddwr. Bydd teuluoedd yn dal i fod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch rhoi gan na all y broses fynd yn ei blaen hebddynt.

The aim of the Bill is to save lives. Forty-one people living in Wales died last year while waiting for an organ transplant. To put it another way, that is 41 families who lost a loved one who might have had a chance of life if a suitable organ could have been found in time. Given that organ and tissue transplantation is one of the most successful of all medical interventions, with the ability to transform lives, we all want to see more organs becoming available to allow more people to have a chance of a better-quality life. Wales has a proud record of improvement already. The next step is to increase the consent rate, which I believe this Bill will go a long way towards achieving.

Nod y Bil yw arbed bywydau. Bu farw pedwar deg un o bobl oedd yn byw yng Nghymru y llynedd wrth aros am drawsblaniad organ. Mewn geiriau eraill, dyna 41 teulu a gollodd anwyliaid a allai fod wedi cael cyfle i fyw pe gellid bod wedi canfod organ addas mewn pryd. O gofio bod trawsblannu organau a meinwe yn un o'r ymyriadau meddygol mwyaf llwyddiannus, gyda'r gallu i drawsnewid bywydau, rydym oll am weld mwy o organau yn dod ar gael i alluogi mwy o bobl i gael cyfle i gael bywyd o ansawdd gwell. Mae gan Gymru record falch o welliant yn barod. Y cam nesaf yw cynyddu'r gyfradd gydsynio yr wyf yn credu y bydd y Bil hwn yn mynd yn bell tuag at ei gyflawni.

Of course, I am aware that this is a very emotive topic and some people have concerns about the proposals. This is a brave step and, as I have said, we will be the first country in the UK to bring in a system of this type. However, I urge everyone to look at the evidence and to have confidence in the lead that we are taking in Wales. Yesterday, I also published a review of existing and new research, which shows that, in countries with opt-out-type systems, more people tend to become organ donors. Our review of the evidence also shows that families who decide not to donate their loved ones' organs often regret their decision and wish that they had.

Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol bod hwn yn bwnc emosiynol iawn ac mae rhai pobl yn pryderu am y cynigion. Mae hwn yn gam dewr, ac, fel y dywedais, ni fydd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno system o'r fath. Fodd bynnag, rwy'n annog pawb i edrych ar y dystiolaeth ac i fod â hyder yn yr arweiniad yr ydym yn ei roi yng Nghymru. Ddoe, cyhoeddais adolygiad hefyd o ymchwil sy'n bodoli eisoes ac ymchwil newydd, sy'n dangos, mewn gwledydd gyda systemau o fath optio allan, bod mwy o bobl yn tueddu i fod yn rhoddwyr organau. Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod teuluoedd sy'n penderfynu peidio â rhoi organau eu hanwyliaid yn aml yn difaru am eu penderfyniad ac yn dymuno eu bod wedi

eu rhoi.

The UK has one of the lowest consent rates in the EU when it comes to families agreeing to donate the organs of a loved one. One of the biggest barriers influencing family behaviour is people not knowing what their loved one would have wanted. I believe that our legislation, together with all the communications that will surround it, will change this situation in Wales, will clarify the wishes of more people, and will effect a breakthrough in public attitudes and awareness about organ donation.

Mae gan y DU un o'r cyfraddau cydsynio isaf yn yr UE pan ddaw at weld teuluoedd yn cytuno i roi organau rhywun annwyl. Un o'r rhwystrau mwyaf sy'n dylanwadu ar ymddygiad teulu yw pobl ddim yn gwybod beth fyddai eu hanwyliaid wedi ei ddymuno. Credaf y bydd ein deddfwriaeth, ynghyd â'r holl gyfathrebu a fydd yn ei hamgylchynu, yn newid y sefyllfa hon yng Nghymru, yn egluro dymuniadau mwy o bobl, a bydd yn effeithio ar dorri tir newydd yn agwedd y cyhoedd ac ymwybyddiaeth am roi organau.

If passed by the Assembly, the Bill will not come into full effect until 2015. This is because, once it receives Royal Assent in 2013 following the Assembly's consideration, a two-year communications campaign will begin, which will publicise the new law and let people know about their choices. I am well aware that communication will be the key to the success of the legislation; indeed, the Bill places the Welsh Ministers under a particular duty to ensure that these issues are publicised.

Os caiff ei basio gan y Cynulliad, ni fydd y Bil yn dod i rym yn llawn tan 2015. Mae hyn oherwydd, unwaith y bydd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn 2013 yn dilyn ystyriaeth y Cynulliad, bydd ymgyrch gyfathrebu dwy flynedd yn dechrau, a fydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r gyfraith newydd a gadael i bobl wybod am eu dewisiadau. Rwy'n ymwybodol y bydd cyfathrebu yn allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth; yn wir, mae'r Bil yn gosod dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y materion hyn yn cael cyhoeddusrwydd.

Irrespective of our legislative plans, however, we must still encourage people to talk about organ donation and to consider joining the organ donor register. In that spirit, and to coincide with the introduction of the new legislation, we are today launching Heart to Heart, which will encourage people in Wales to think about their organ donation wishes, talk to their family about them, and even to make it a new year's resolution to join the organ donor register.

Beth bynnag fo ein cynlluniau deddfwriaethol, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni annog pobl i siarad am roi organau ac i ystyried ymuno â'r gofrestr rhoddwyr organau. Yn yr ysbryd hwnnw, ac i gyd-fynd â chyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd, rydym heddiw yn lansio Calon i Galon, a fydd yn annog pobl yng Nghymru i feddwl am eu dymuniadau o ran rhoi organau, i siarad â'u teulu amdanynt, a hyd yn oed ei wneud yn adduned flwyddyn newydd i ymuno â'r gofrestr rhoddwyr organau.

We have consulted widely on the ideas that are contained within this Bill, and I have been grateful for and encouraged by many of the helpful responses. The two consultations that we held resulted in record numbers of replies. All responses have been read and have helped to shape the final Bill before the Assembly.

Rydym wedi ymgynghori'n eang ar y syniadau sy'n cael eu cynnwys yn y Bil hwn, ac rwyf wedi bod yn ddiolchgar am lawer o'r ymatebion defnyddiol ac wedi fy nghalonogi ganddynt. Mae'r ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym wedi arwain at y nifer fwyaf erioed o ymatebion. Mae'r holl ymatebion wedi cael eu darllen ac wedi helpu i lunio'r Bil terfynol gerbron y Cynulliad.

I am also particularly grateful for the help and assistance of the Secretaries of State for

Rwyf hefyd yn arbennig o ddiolchgar am help a chefnogaeth Ysgrifenyddion Gwladol

Wales and for health, who have assisted us with bringing forward our policy intentions while preserving the UK-wide nature of the transplantation programme. I would also like to mention the staff and board of NHS Blood and Transplant, as well as the Human Tissue Authority, all of whom are key players in this process and who have remained positive and supportive despite the challenges.

Cymru ac iechyd, sydd wedi ein cynorthwyo i gyflwyno'n bwriadau polisi gan gadw natur DU-eang y rhaglen drawsblannu. Hoffwn hefyd sôn am y staff a bwrdd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yn ogystal â'r Awdurdod Meinweoedd Dynol, pob un ohonynt yn gyfranogwyr allweddol yn y broses hon ac sydd wedi aros yn gadarnhaol a chefnogol er gwaethaf yr heriau.

However, I have been disappointed with certain groups who have used our Bill to compound myths about organ donation and transplantation, and to cause public concern. For example, the very idea that people's organs will somehow become assets of the state is completely without foundation, or that the Government will be making decisions about organ donation in individual cases. Organ donation is and always will be a clinical decision in which families are involved.

Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn siomedig gyda grwpiau penodol sydd wedi defnyddio ein Bil i ychwanegu at fythau am roi a thrawsblannu organau, ac i beri pryder i'r cyhoedd. Er enghraifft, mae hyd yn oed y syniad y bydd organau pobl rhywsut yn dod yn asedau'r wladwriaeth yn hollol ddi-sail, neu y bydd y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi organau mewn achosion unigol. Mae rhoi organau yn benderfyniad clinigol lle mae teuluoedd yn cael eu cynnwys a bydd yn dal i fod felly.

I am saddened that large numbers of people from faith groups have been told that our proposals could never fit with their religious beliefs, that a soft opt-out system will somehow affect the way in which death is diagnosed, or could lead to organs and tissues being taken from foetuses. Some campaigners have even suggested to the public that brain death is not a valid diagnosis of death. I would urge people not to be taken in by these points of view, which do little to further public awareness of the organ donation process, but instead cause a lot of anxiety and unnecessary alarm. We will work tirelessly to ensure good communications that meets the needs of all the people of Wales.

Rwy'n drist y dywedwyd wrth nifer fawr o bobl o grwpiau ffydd na allai ein cynigion fyth gyd-fynd â'u credoau crefyddol, y bydd system feddal o optio allan rhywsut yn effeithio ar y ffordd y gwneir diagnosis o farwolaeth, neu y gallai arwain at organau a meinweoedd yn cael eu cymryd o ffetysau. Mae rhai ymgyrchwyr wedi awgrymu hyd yn oed i'r cyhoedd nad yw marwolaeth ymennydd yn ddiagnosis dilys o farwolaeth. Byddwn yn annog pobl i beidio â chael eu camarwain gan y safbwyntiau hyn, nad ydynt yn gwneud llawer i hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus bellach o'r broses o roi organau, ond yn hytrach yn achosi llawer o bryder a dychryn diangen. Byddwn yn gweithio'n ddiflino i sicrhau cyfathrebu da sy'n diwallu anghenion holl bobl Cymru.

Nothing in our proposals affects either the care or treatment received by patients, or the dignity with which they are treated after death. Decisions about treatment, including the possible withdrawal of life-sustaining treatment, are always taken in the best interests of the patient and in discussion with their family. Any subsequent discussions about organ donation are conducted sensitively and calmly by trained staff, and families are never pressurised. This will all continue under the new arrangements.

Nid oes dim yn ein cynigion yn effeithio ar naill ai'r gofal neu'r driniaeth a dderbynnir gan gleifion, neu urddas eu trin ar ôl marwolaeth. Mae penderfyniadau am driniaeth, gan gynnwys tynnu triniaeth cynnal bywyd bosibl yn ôl, yn cael eu cymryd bob amser er budd pennaf y claf ac mewn trafodaeth gyda'u teulu. Mae unrhyw drafodaethau dilynol am roi organau yn cael eu cynnal mewn modd sensitif a phwyllog gan staff hyfforddedig, ac ni roddir pwysau ar deuluoedd byth. Bydd hyn i gyd yn parhau o dan y trefniadau newydd.

We know that the majority of us are prepared to accept an organ if we need one, yet despite campaigns only one in three of us has signed the organ donor register. We want to make organ donation a normal part of society in Wales, and I believe that we are ready to take this step.

Rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf ohonom yn barod i dderbyn organ os oes angen un, ac eto, er gwaethaf ymgyrchoedd dim ond un o bob tri ohonom sydd wedi llofnodi’r gofrestr rhoddwyr organau. Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhoi organau yn rhan gyffredin o gymdeithas yng Nghymru, a chredaf ein bod yn barod i gymryd y cam hwn.

Organ donation is an emotive subject because we do not like to think about death, either our own or that of a loved one. However, the majority of people want to see good coming out of the sadness of death. We therefore owe it to ourselves and each other to talk about organ donation and make our wishes known.

Mae rhoi organau yn bwnc emosiynol oherwydd nad ydym yn hoffi meddwl am farwolaeth, naill ai ein marwolaeth ein hunain neu rywun annwyl. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o bobl eisiau gweld rhywbeth da yn deillio o dristwch marwolaeth. Felly, mae’n rheidrwydd arnom i siarad am roi organau a gwneud ein dymuniadau yn hysbys.

I believe that many in the Chamber share my feelings, as do many of the people of Wales, that this Bill is needed to save and transform more lives. The aspiration of moving to such a system in Wales was contained in three of the parties’ manifesto documents at the last Assembly election, and so I have high hopes that the Bill will receive widespread support from Members. I therefore look forward to the debate to come in relation to the detail of the Bill.

Credaf fod llawer yn y Siambr yn rhannu fy nheimladau, fel y gwna llawer o bobl Cymru, bod angen y Bil i achub a gweddnewid mwy o fywydau. Roedd y dyhead i symud i system o’r fath yng Nghymru yn gynwysedig mewn tair o ddogfennau maniffesto'r pleidiau yn etholiad diwethaf y Cynulliad, ac felly rwy’n gobeithio’n fawr y bydd y Bil yn derbyn cefnogaeth eang gan yr Aelodau. Rwyf felly yn edrych ymlaen at y ddadl i ddod mewn perthynas â manylion y Bil.

**Darren Millar:** Thank you, Minister, for your statement today. The Welsh Conservatives welcome the opportunity to look at this very important issue. I was also very grateful for the briefing that you and your officials provided me with last week. I want to put on record our support as a party for organ donation. We commend you for the Heart to Heart campaign that is being launched today, and we will do our best to highlight that in our constituencies and across Wales.

**Darren Millar:** Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Mae’r Ceidwadwyr Cymreig yn croesawu’r cyfle i edrych ar y mater pwysig iawn hwn. Roeddwn i hefyd yn ddiolchgar iawn am y briffio a ddarparoch chi a’ch swyddogion i mi yr wythnos diwethaf. Hoffwn gofnodi ein cefnogaeth fel plaid ar gyfer rhoi organau. Rydym yn eich cymeradwyo am yr ymgyrch Calon i Galon sy’n cael ei lansio heddiw, a byddwn yn gwneud ein gorau i dynnu sylw at hynny yn ein hetholaethau ac ar draws Cymru.

You mentioned that there has been a record response to the consultation on this piece of legislation, and that just goes to show the strength of feeling around the country about organ donation, on all sides of the argument. Because there is such a significant variation in views, it is really important that we take this issue forward sensitively. For that reason, and because there are differences of view

Soniasoch y bu ymateb gwell nag erioed i’r ymgynghoriad ar y darn hwn o ddeddfwriaeth, ac mae hynny’n dangos cryfder y teimlad o gwmpas y wlad am roi organau, ar bob ochr i’r ddadl. Oherwydd bod cymaint o amrywiaeth sylweddol mewn barn, mae’n bwysig iawn ein bod yn datblygu’r mater mewn modd sensitif. Am y rheswm hwnnw, ac oherwydd bod

even within our own Welsh Conservative group, we consider it appropriate to have a free vote in the Assembly on this issue. We will certainly be having a free vote on these benches. However, we recognise the need to provide proper and effective scrutiny of the Bill through the legislative process.

gwahaniaethau barn, hyd yn oed o fewn y grŵp Ceidwadwyr Cymreig, ystyriwn ei bod yn briodol cael pleidlais rydd yn y Cynulliad ar y mater hwn. Byddwn yn sicr yn cael pleidlais rydd ar y meinciau hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i ddarparu craffu priodol ac effeithiol ar y Bil drwy'r broses ddeddfwriaethol.

Minister, I want to ask you about the non-legislative measures that might be taken to improve organ donation rates. We know that, between 2007 and 2012, organ donation increased in Wales by some 49%, which is a very welcome achievement. However, that has been achieved without any legislative measures. You will know that there are countries that operate a similar soft opt-out system to the one that you are proposing, most notably countries such as Sweden and Spain. Sweden has a lower organ donation rate than we have in Wales. In fact, it is one of the lowest in the EU. Indeed, Spain attributes the very high level of donation there not to the legislative arrangements but to the processes that it has put in place on the back of that legislation.

Weinidog, hoffwn ofyn i chi am y mesurau anneddfwriaethol y gellid eu cymryd i wella cyfraddau rhoi organau. Gwyddom, rhwng 2007 a 2012, fod rhoi organau wedi cynyddu yng Nghymru gan ryw 49%, sy'n llwyddiant i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, mae hynny wedi cael ei gyflawni heb unrhyw fesurau deddfwriaethol. Byddwch yn gwybod bod gwledydd sy'n gweithredu system feddal o optio allan debyg i'r un yr ydych yn ei chynnig, yn fwyaf nodedig gwledydd fel Sweden a Sbaen. Mae gan Sweden gyfradd roi organau is nag sydd gennym yng Nghymru. Mewn ffaith, mae'n un o'r isaf yn yr UE. Yn wir, mae Sbaen yn priodoli'r lefel uchel iawn yno nid i'r trefniadau deddfwriaethol ond i'r prosesau y mae wedi'u rhoi ar waith yn sgil y ddeddfwriaeth honno.

Therefore, what discussions have you had in conjunction with the UK Government and local government in a bid to drive up organ donation rates and registration? For example, I wonder whether you have considered the process of voter registration as a means of capturing people's views. I wonder whether you have considered discussions with the UK Government on the passport application process and whether that might be an appropriate time to ask people whether they are prepared to register as an organ donor.

Felly, pa drafodaethau ydych chi wedi eu cael ar y cyd â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol mewn ymgais i wella cyfraddau rhoi organau a chofrestru? Er enghraifft, tybed a ydych wedi ystyried y broses o gofrestru etholwyr fel modd o gasglu barn y bobl. Tybed a ydych wedi ystyried trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y broses gwneud cais am basbort ac a allai hynny fod yn adeg briodol i ofyn i bobl a ydynt yn barod i gofrestru fel rhoddwr organau.

Minister, I also note that you have indicated that there will be an effective communication campaign, which we, again, welcome very much. However, we wonder whether you might create a special week each year to enable, encourage and promote family discussions, discussions in schools et cetera on the subject of organ donation as a means of increasing donation rates without the need for legislation.

Weinidog, rwyf hefyd yn nodi eich bod wedi nodi y bydd ymgyrch gyfathrebu effeithiol, yr ydym, unwaith eto, yn ei chroesawu'n fawr iawn. Fodd bynnag, tybed a allech chi greu wythnos arbennig bob blwyddyn i alluogi, annog a hyrwyddo trafodaethau teulu, trafodaethau mewn ysgolion ac ati ar y pwnc o roi organau fel modd o gynyddu cyfraddau rhoi heb yr angen am ddeddfwriaeth.

I am pleased to note that, in the legislation,

Rwy'n falch o nodi, yn y ddeddfwriaeth, eich

you have included the ability for someone to nominate an individual to make a decision in the event that they have not already done so. However, it appears that there is a barrier to that. As it stands, the legislation requests a witness to the written consent for nominating a representative. Of course, there is no such requirement when registering yourself on the organ donation register, so I wonder why that barrier has been created.

bod wedi cynnwys y gallu i rywun enwebu unigolyn i wneud penderfyniad os digwydd nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Fodd bynnag, ymddengys bod rhwystr i hynny. Fel y saif, mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn am dyst i'r cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer enwebu cynrychiolydd. Wrth gwrs, nid oes unrhyw ofyniad o'r fath wrth gofrestru eich hunan ar y gofrestr rhoi organau, felly rwyf yn meddwl tybed pam y mae'r rhwystr hwnnw wedi cael ei greu.

You have indicated that clinicians will always respect family wishes and that these will be paramount in making decisions about donation. However, you have failed to provide for a veto for family members in the legislation. How do you reconcile the fact that you are effectively saying that family members will have a veto with the fact that you are failing to provide one in the legislation? In my mind, that would be a much clearer way to assert the influence of the family.

Rydych wedi nodi y bydd clinigwyr bob amser yn parchu dymuniadau'r teulu ac y bydd y rhain yn hollbwysig wrth wneud penderfyniadau am roi. Fodd bynnag, rydych wedi methu â darparu ar gyfer feto i aelodau o'r teulu yn y ddeddfwriaeth. Sut ydych chi'n cysoni'r ffaith eich bod yn dweud i bob pwrpas y bydd aelodau o'r teulu yn cael feto gyda'r ffaith eich bod yn methu â darparu un yn y ddeddfwriaeth? Yn fy meddwl i, byddai hynny'n ffordd llawer cliriach i gydnabod dylanwad y teulu.

You acknowledge the concerns and some of the myths that have come up. I agree that those myths are extremely unhelpful and have done nothing to help people to come to terms with donation as a positive thing that they can do. However, you made specific reference to faith and black and minority ethnic groups. Minister, I would be wary of trying to make theological interpretations on behalf of the Muslim community or, indeed, parts of the Christian community, which have some very deep and strongly held beliefs. How do you intend to go forward in communicating with those parts of the community and ensure that you can demonstrate some respect for their strongly held views? Might you consider a presumed opt-out for those communities, given that such high proportions in those communities have expressed opposition to your proposals?

Rydych yn cydnabod y pryderon a rhai o'r mythau sydd wedi codi. Cytunaf fod y mythau hynny'n hynod o ddi-fudd, ac nid ydynt wedi gwneud dim i helpu pobl i ddod i delerau â rhoi fel rhywbeth cadarnhaol y gallant ei wneud. Fodd bynnag, roeddech yn cyfeirio'n benodol at ffydd a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Weinidog, byddwn yn wyliadwrus o geisio gwneud dehongliadau diwinyddol ar ran y gymuned Fwslimaidd neu, yn wir, rannau o'r gymuned Gristnogol, sydd â rhai credoau dwfn iawn a chryf iawn Sut ydych chi'n bwriadu mynd ymlaen wrth gyfathrebu â'r rhannau hynny o'r gymuned a sicrhau eich bod yn gallu dangos rhywfaint o barch at eu barn gref? Efallai y byddwch yn ystyried optio allan tybiedig ar gyfer y cymunedau hynny, o gofio bod cyfrannau mor uchel yn y cymunedau hynny wedi mynegi gwrthwynebiad i'ch cynigion?

3.00 p.m.

In addition to that, Minister, could you provide a little more information on legal competence? I know that you have expressed thanks to the UK Government and the Wales Office in your statement today, and I welcome the fact that you have been having

Yn ogystal â hynny, Weinidog, a allech chi roi ychydig mwy o wybodaeth ar gymhwysedd cyfreithiol? Gwn eich bod wedi mynegi diolch i Lywodraeth y DU a Swyddfa Cymru yn eich datganiad heddiw, a chroesawaf y ffaith eich bod wedi bod yn

discussions. However, what assurances do you have that your assumed competence is absolutely watertight? We do not want to end up in the Supreme Court at the end of this if there is some sort of legal challenge. You have clearly set out a timetable by which you want to deal with this issue and get it on the statute book, but can you tell us a little bit more about the advice that you have had?

cael trafodaethau. Fodd bynnag, pa sicrwydd sydd gennych fod eich cymhwysedd tybiedig yn hollol sicr? Nid ydym am ddiweddu yn y Goruchaf Lys ar ddiwedd hyn os oes rhyw fath o her gyfreithiol. Rydych wedi gosod amserlen yn glir erbyn pryd yr ydych am ddelio â'r mater hwn a'i gael ar y llyfr statud, ond a allwch chi ddweud wrthym ychydig mwy am y cyngor yr ydych wedi'i gael?

Finally, I raise the issue of NHS infrastructure. One of the things that has been apparent in Spain is that facilities for dealing with an increased number of donors are in place. What consideration are you giving to the shrinking NHS budget and the ability of the NHS to deal with the increased donation rate that we very much hope to see on the back of any legislation that is produced?

Yn olaf, codaf y mater o seilwaith y GIG. Un o'r pethau sydd wedi bod yn amlwg yn Sbaen yw bod cyfleusterau ar gyfer delio â nifer cynyddol o roddwyr wedi'u sefydlu. Pa ystyriaeth a roddwch i gyllideb grebachol y GIG a gallu'r GIG i ddelio â'r gyfradd roi gynyddol yr ydym yn mawr obeithio ei gweld yn sgil unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynhyrchu?

**Lesley Griffiths:** Thank you, Darren Millar, for your support. You highlighted some very important points. I will go through your questions. You mentioned the countries that have the soft opt-out system. I think that it is very helpful to see what we can learn from other countries. We have had a look at international evidence, which shows that there is an association between countries with opt-out systems and a higher donation rate. In comparing us with other countries, it is not helpful to compare operational issues, because healthcare systems are so different. However, I do think that we are introducing our legislation at a good time, following years of improvement, to which you referred.

**Lesley Griffiths:** Diolch i chi, Darren Millar, am eich cefnogaeth. Gwnaethoch dynnu sylw at rai pwyntiau pwysig iawn. Byddaf yn mynd drwy eich cwestiynau. Soniasoch am y gwledydd sydd â'r system feddal o optio allan. Rwy'n credu ei bod yn ddefnyddiol iawn i weld beth y gallwn ddysgu gan wledydd eraill. Rydym wedi edrych ar dystiolaeth ryngwladol, sy'n dangos bod cysylltiad rhwng gwledydd gyda systemau optio allan a chyfradd rhoi uwch. Wrth ein cymharu ni â gwledydd eraill, nid yw'n ddefnyddiol i gymharu materion gweithredol, gan fod systemau gofal iechyd mor wahanol. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ein bod yn cyflwyno ein deddfwriaeth ar amser da, yn dilyn blynyddoedd o welliant, y cyfeiriasoch atynt.

You mentioned the Heart to Heart campaign and the communications. On the face of the Bill, a duty is placed on Welsh Ministers to conduct an effective campaign. I mentioned the process in my oral statement: following Royal Assent, there will be a two-year communication campaign. Last week, you raised the point with me that we may need to look at having, even after that, a very robust campaign continuing for several years. That is certainly something that we can look at as we scrutinise the Bill.

Soniasoch am yr ymgyrch Calon i Galon ac a'r cyfathrebiadau. Ar wyneb y Bil, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgyrch effeithiol. Soniais am y broses yn fy natganiad llafar: yn dilyn Cydsyniad Brenhinol, bydd ymgyrch gyfathrebu dwy flynedd. Yr wythnos diwethaf, codwyd y pwynt gennych gyda mi y gall fod angen i ni edrych ar gael, hyd yn oed ar ôl hynny, ymgyrch gadarn iawn yn parhau am nifer o flynyddoedd. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno wrth inni graffu ar y Bil.

You mentioned appointed representatives.

Soniasoch am gynrychiolwyr penodedig.

The Bill makes specific provision for an individual to nominate a representative to represent their wishes about organ donation. The issue that you raised about having a witness is an extra safeguard, but, again, that is something that we can look at as we go through scrutiny. The role of the family is obviously a very important issue and it is something that has been raised as we have gone through both consultation processes. Even though we are proposing a change in the law to enable a person’s consent to be deemed if they have not opted out, families will still retain full involvement in the process, even if they do not, in law, have a right to make a final decision. There will not be a legal veto.

Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth benodol i unigolyn enwebu cynrychiolydd i gynrychioli eu dymuniadau ynghylch rhoi organau. Mae’r mater a godwyd gennych ynglŷn â chael tyst yn ddull diogelu ychwanegol, ond, unwaith eto, mae hynny’n rhywbeth y gallwn edrych arno wrth inni fynd drwy’r broses graffu. Mae rôl y teulu yn amlwg yn fater pwysig iawn ac mae’n rhywbeth sydd wedi’i godi wrth inni fynd drwy’r ddwy broses ymgynghori. Er ein bod yn cynnig newid yn y gyfraith er mwyn galluogi ystyried bod person wedi cydsynio os nad ydynt wedi optio allan, bydd teuluoedd yn dal i gymryd rhan lawn yn y broses, hyd yn oed os nad oes ganddynt, yn ôl y gyfraith, hawl i wneud penderfyniad terfynol. Ni fydd feto gyfreithiol.

You mentioned faith and black and minority ethnic groups. I absolutely respect their views and we are having ongoing discussions with groups. Just yesterday, one of my officials met with some members of the Muslim community. In fact, one of them said to him that he felt that there was a lot of rubbish—those were his words—being spoken within their community. That was one of the things that I wanted to address in the oral statement. I am not considering a presumed opt-out, but I do respect their views and we will continue to have those discussions with them.

Soniasoch am ffydd a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Rwy’n parchu eu barn yn llwyr ac rydym yn cael trafodaethau parhaus gyda grwpiau. Ddoe ddiwethaf, cyfarfu un o fy swyddogion â rhai o aelodau’r gymuned Fwslimaidd. Yn wir, dywedodd un ohonynt wrtho ei fod yn teimlo bod llawer o lol—dyna’i eiriau—yn cael ei siarad o fewn eu cymuned. Dyna oedd un o’r pethau yr oeddwn am fynd i’r afael ag o yn y datganiad llafar. Nid wyf yn ystyried optio allan tybiedig, ond rwy’n parchu eu barn a byddwn yn parhau i gael y trafodaethau hynny gyda nhw.

In relation to infrastructure, the supposed shortage of critical care beds is often quoted. However, there is no right number, and the evidence is that the beds that we have are not optimally located or used. That is something that we are looking at carefully as part of our performance review at the present time. It is for health boards to take all these issues into account in determining their plans for the pattern and sustainability of future services. I think that that has answered all the questions.

Mewn perthynas â seilwaith, mae prinder tybiedig y gwelyau gofal critigol yn cael ei ddyfynnu’n aml. Fodd bynnag, nid oes nifer cywir, a’r dystiolaeth yw nad yw’r gwelyau sydd gennym yn cael eu lleoli neu eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Mae hynny’n rhywbeth yr ydym yn edrych yn ofalus arno fel rhan o’n hadolygiad perfformiad ar hyn o bryd. Mater i’r byrddau iechyd yw ystyried yr holl faterion hyn wrth benderfynu ar eu cynlluniau ar gyfer patrwm a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol. Credaf fod hynny wedi ateb yr holl gwestiynau.

**Rebecca Evans:** I am very grateful, Minister, for your statement today and I welcome in particular your acknowledgement of how emotive this issue is and how it can polarise opinion. For that reason, it is important that

**Rebecca Evans:** Rwy’n ddiolchgar, Weinidog, am eich datganiad heddiw a chroesawaf yn arbennig eich cydnabyddiaeth o ba mor emosiynol yw’r mater hwn a sut y gall bolareiddio barn. Am y rheswm hwnnw,

we scrutinise the proposals from every angle and viewpoint, and do so with full respect for different views and beliefs. I therefore welcome the engagement that your officials are having with different groups.

mae'n bwysig ein bod yn craffu ar y cynigion o bob ongl a safbwynt, a gwneud hynny gyda pharch llawn at wahanol safbwyntiau a chredoau. Rwyf felly'n croesawu'r ymgysylltiad y mae eich swyddogion yn ei gael gyda grwpiau gwahanol.

The first issue that I wanted to raise with you was legal competency, but Darren Millar has raised that, so I will not address it further. However, on capacity, the health economics professor, Ceri Phillips of Swansea University, recently suggested that additional pressures on critical care beds in theatres would result in donated organs being wasted. Dr John Saunders, a consultant who leads organ donation at Nevill Hall Hospital, said that for the system to work effectively, more investment is needed in intensive care facilities. So, are you satisfied that the health boards are taking all of this into account in drawing up their proposals for reconfiguration? Do you envisage that any additional investment might be needed in the future?

Y mater cyntaf yr oeddwn am ei godi gyda chi oedd cymhwysedd cyfreithiol, ond mae Darren Millar wedi sôn am hynny, felly nid wyf am ymdrin ag ef ymhellach. Fodd bynnag, ynghylch gallu, roedd yr athro economeg iechyd, Ceri Phillips o Brifysgol Abertawe, yn ddiweddar yn awgrymu y byddai pwysau ychwanegol ar welyau gofal critigol mewn theatrau yn arwain at organau a roddir yn cael eu gwastraffu. Dywedodd Dr John Saunders, ymgynghorydd sy'n arwain rhoi organau yn Ysbyty Nevill Hall, er mwyn i'r system weithio'n effeithiol, mae angen buddsoddi mwy mewn cyfleusterau gofal dwys. Felly, a ydych yn fodlon bod y byrddau iechyd yn ystyried hyn i gyd wrth lunio eu cynigion ar gyfer ad-drefnu? A ydych chi'n rhagweld y gallai fod angen cael buddsoddiad ychwanegol yn y dyfodol?

I am keen that we explore fully how the law might affect people whose consent cannot easily be presumed. For example, a person's capacity might fluctuate over the course of days, weeks, months, or even over the course of a day. One of your officials told the Health and Social Care Committee that the Government is doing some work on clarifying this, therefore I would be keen to hear an update on how that work is progressing. Many people with mental illnesses are undiagnosed and unknown to mental health services, so how do you intend ensuring that these individuals are not negatively affected by any legislation?

Rwy'n awyddus ein bod yn archwilio'n llawn sut y gallai'r gyfraith effeithio ar bobl na ellir rhagdybio eu cydsyniad yn hawdd. Er enghraifft, gallai gallu rhywun newid dros gyfnod o ddyddiau, wythnosau, misoedd, neu hyd yn oed yn ystod un diwrnod. Dywedodd un o'ch swyddogion wrth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod y Llywodraeth yn gwneud rhywfaint o waith ar egluro hyn, felly byddwn yn awyddus i glywed y newyddion diweddaraf am sut y mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae llawer o bobl â salwch meddwl heb gael diagnosis ac yn anhysbys i wasanaethau iechyd meddwl, felly sut ydych chi'n bwriadu sicrhau nad yw'r unigolion hyn yn cael eu heffeithio'n negyddol gan unrhyw ddeddfwriaeth?

With regard to international comparisons, they are very helpful in exploring different models, and much has been made of Spain's example. Darren Millar referred to the fact that the Spanish attribute their high rate to the system that they put in place to support the families of potential donors. They have a managed network of doctors who work as transplant co-ordinators in every hospital, and

O ran cymariaethau rhyngwladol, maent yn ddefnyddiol iawn wrth archwilio modelau gwahanol, ac mae llawer wedi'i wneud o enghraifft Sbaen. Cyfeiriodd Darren Millar at y ffaith bod y Sbaenwyr yn priodoli eu cyfradd uchel i'r system y maent yn ei rhoi ar waith i gefnogi teuluoedd rhoddwyr posibl. Mae ganddynt rwydwaith a reolir o feddygon sy'n gweithio fel cydgysylltwyr trawsblannu

their critical care teams are trained in end-of-life choices. Do you think that there are things that we can learn from the Spanish model in terms of the practical aspects of supporting families through this experience?

ym mhob ysbyty, ac mae eu timau gofal critigol yn cael eu hyfforddi yn y dewisiadau diwedd oes. Ydych chi'n meddwl bod pethau y gallwn eu dysgu oddi wrth fodel Sbaen o ran yr agweddau ymarferol o gefnogi teuluoedd trwy'r profiad hwn?

I welcome the fact that the Welsh Government is prioritising education and encouraging people to talk about these issues, as presumed consent alone does not guarantee an increase in the supply of organs. We know that donor rates fell in Brazil when presumed consent alone was introduced. So, education and having those conversations with family members are going to be vital, and I applaud the launch of the Heart to Heart campaign, which is a fantastic initiative.

Croesawaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu addysg ac yn annog pobl i siarad am y materion hyn, gan nad yw cydsyniad tybiedig yn unig yn gwarantu cynnydd yn y cyflenwad o organau. Rydym yn gwybod bod cyfraddau rhoi organau wedi gostwng ym Mrasil pan gyflwynwyd cydsyniad tybiedig yn unig. Felly, mae addysg a chael y sgyrsiau hynny gydag aelodau o'r teulu yn mynd i fod yn hanfodol, a chymeradwyaf lansiad yr ymgyrch Calon i Galon, sy'n fenter wych.

When I visited a dialysis unit recently, I heard about the surprisingly high number of people who are eligible for a transplant and refuse it. Of course, that is absolutely their right, but have you explored why so many people choose to decline and whether there is a further role for the Welsh Government in this regard? Finally, do you have some projected costs for the setting up and maintaining of the new system?

Pan ymwelais ag uned dialysis yn ddiweddar, clywais am y nifer rhyfeddol o uchel o bobl sy'n gymwys i gael trawsblaniad ac yn ei wrthod. Wrth gwrs, mae ganddynt berffaith hawl i wneud hynny, ond ydych chi wedi archwilio pam mae cymaint o bobl yn dewis ei wrthod a ph'un a oes rôl bellach i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth? Yn olaf, a oes gennych rai costau a ragwelir ar gyfer sefydlu a chynnal y system newydd?

**Lesley Griffiths:** Thank you for those questions. You are absolutely right: this Bill has had careful consideration and I very much look forward to scrutiny. Members' input will certainly strengthen the Bill even further.

**Lesley Griffiths:** Diolch ichi am y cwestiynau. Rydych yn llygad eich lle: mae'r Bil hwn wedi cael ei ystyried yn ofalus ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at graffu. Bydd mewnbwn yr Aelodau yn sicr yn cryfhau'r Bil ymhellach.

You will have heard my answer to Darren Millar about capacity and the supposed shortage of critical care beds. I certainly do not want to see any organs wasted and it is absolutely right that we tell health boards that they must prepare for this piece of legislation. We are already looking at making sure that beds are used to the optimum.

Byddwch wedi clywed fy ateb i Darren Millar ynghylch gallu a phrinder tybiedig y gwelyau gofal critigol. Yn sicr nid wyf am weld unrhyw organau'n cael eu gwastraffu ac mae'n hollol iawn ein bod yn dweud wrth fyrddau iechyd bod yn rhaid iddynt baratoi ar gyfer y darn hwn o ddeddfwriaeth. Rydym eisoes yn edrych ar wneud yn siŵr bod gwelyau yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

I was looking at figures for 2011-12, which showed a significant increase in delayed discharges from intensive care units. Some 45% of all discharges were delayed beyond the ideal time, which means that patients are remaining in ICUs longer than they need to,

Roeddwn yn edrych ar ffigurau ar gyfer 2011-12, a oedd yn dangos cynnydd sylweddol mewn oedi wrth ryddhau o'r unedau gofal dwys. Roedd rhyw 45% o'r holl gleifion a ryddhawyd wedi'u hoedi y tu hwnt i'r amser delfrydol, sy'n golygu bod cleifion

and that prevents other people from accessing those beds. That is why I have told health boards that they need to look at that as part of their performance.

yn aros mewn uned gofal dwys yn hwy nag sydd angen iddynt, ac mae hynny'n atal pobl eraill rhag cael mynediad i'r gwelyau. Dyna pam yr wyf wedi dweud wrth fyrddau iechyd bod angen iddynt edrych ar hynny fel rhan o'u perfformiad.

In relation to mental capacity, this is a very sensitive area and the legislation contains important safeguards for people who might lack capacity to understand that consent could be deemed. The Mental Capacity Act 2005 makes it clear that people should be assumed to have the capacity to make decisions unless it is established otherwise. That means that people can still make a decision, for instance, to register a wish to be a donor or not. However, that is something that we will have to look at very carefully as we go through this.

Mewn perthynas â galluedd meddyliol, mae hwn yn faes sensitif iawn ac mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau diogelu pwysig i bobl a allai fod heb allu i ddeall y gellid ystyried eu bod wedi cydsynio. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ei gwneud yn glir y dylid cymryd yn ganiataol bod y gallu gan bobl i wneud penderfyniadau oni bai ei fod yn cael ei sefydlu fel arall. Mae hynny'n golygu y gall pobl ddal i wneud penderfyniad, er enghraifft, i gofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr ai peidio. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ni edrych arno'n ofalus iawn wrth i ni fynd drwy hyn.

You raised the issue about countries with opt-out systems and their trained co-ordinators—I think that that is how you referred to them. We have trained people in position now who talk sensitively to families when they lose a loved one, and we will continue to have people in those positions. I agree that the Heart to Heart communication plan that we launched today will encourage people to talk now about organ donation, and I am hopeful that we will see an increase now in the number of people putting their name on the organ donor register.

Codasoch y mater am wledydd gyda systemau optio allan a'u cydlynwyr hyfforddedig—credaf mai dyna sut yr oeddech yn cyfeirio atynt. Mae gennym bobl hyfforddedig mewn swyddi erbyn hyn sy'n siarad yn sensitif â theuluoedd pan fyddant yn colli rhywun annwyl, a byddwn yn parhau i gael pobl yn y swyddi hynny. Rwy'n cytuno y bydd y cynllun cyfathrebu Calon i Galon a lansiwyd heddiw yn annog pobl i siarad yn awr am roi organau, ac rwy'n obeithiol y byddwn yn gweld cynnydd yn awr yn y nifer o bobl sy'n rhoi eu henw ar y gofrestr rhoi organau.

The issue that you raised about dialysis units and people who refuse to have a transplant has not been raised with me before, but I can look into it, because it could give us some information that we need to look at. In relation to costs and benefits, there are, of course, additional costs associated with bringing in the new arrangements and, at present, we are looking at a cost of £8 million over the next 10 years.

Nid yw'r mater a godwyd gennych am unedau dialysis a phobl sy'n gwrthod cael trawsblaniad wedi cael ei godi gyda mi o'r blaen, ond gallaf edrych i mewn iddo, oherwydd gallai roi rhywfaint o wybodaeth inni y mae angen inni edrych arni. Mewn perthynas â chostau a buddion, mae, wrth gwrs, gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r trefniadau newydd, ac ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar gost o £8 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf.

**Elin Jones:** Diolch am y datganiad y prynhawn yma, Weinidog. Mae hwn yn Fil arwyddocaol ac arloesol gydag oblygiadau pellgyrhaeddol i ni i gyd fel dinasyddion y

**Elin Jones:** Thank you for your statement this afternoon, Minister. This is a significant and groundbreaking Bill and its implications are far-reaching for us all as citizens of this

wlad hon. Polisi Plaid Cymru yw cefnogi egwyddor deddfwriaeth o'r fath, ac mae wedi gwneud hynny ers dyddiau cynnar y Cynulliad pan oedd Dai Lloyd yn Aelod Cynulliad ac yn bencampwr amlwg i system o optio mas o roi organau. Dim ond ers i'r Cynulliad gael y pwerau pellach i greu deddfwriaeth y mae'r Llywodraeth wedi bod mewn sefyllfa i gyflwyno Bil o'r math hwn. Felly, rydym yn cydnabod bod heddiw yn ddiwrnod pwysig yn hynt ddeddfwriaethol Cymru. Bydd gan aelodau Plaid Cymru ddiddordeb ym manylion y ddeddfwriaeth hon wrth iddi fynd drwy'r broses graffu.

country. The Plaid Cymru policy has been to support the principle behind such legislation, and this has been the case since the early days of the Assembly when Dai Lloyd was an Assembly Member who visibly championed an opt-out organ donation system. Only since the Assembly has had further powers to make legislation has the Government been in a position to bring forward such a Bill. Therefore, we acknowledge that today is an important day in the legislative story of Wales. Plaid Cymru members will be interested in the details of this legislation as it goes through the scrutiny process.

Bydd y broses o graffu ar y Bil hwn yn bwysig, yn enwedig ar rai o'r pwyntiau sydd wedi cael eu codi eisioes-ni wnaf eu hailadrodd, heblaw am un pwynt y cyfeiriwyd ato. Byddwn eisiau edrych yn fanwl yn y broses graffu ar ymwneud y teulu, partneriaid neu ffrindiau oes, fel y'i hamlinellir yn y Bil, wrth roi barn am roi organau yn dilyn marwolaeth. Rydych wedi cadarnhau y prynhawn yma y bydd barn y teulu yn bwysig yn y broses hon ond na fydd y ddeddfwriaeth yn rhoi feto. Felly, byddwn i gyd eisiau craffu arnoch a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn glir i bobl Cymru ynglŷn â beth yw'r disgwyliad o safbwynt rôl y teulu, partneriaid neu ffrindiau.

The scrutiny process for this Bill will be important, particularly on some of the points already raised—I will not rehearse them now, but for one point that has been referred to. We will want to look carefully during the scrutiny process at the involvement of family, partners or lifelong friends, as set out in the Bill, in terms of the opinion that they express on organ donation following death. You have confirmed this afternoon that the family's opinions will be important in this process but that the legislation will not provide a veto. Therefore, we will all want to scrutinise you and ensure that the legislation is clear to the people of Wales in terms of the expectations as regards the role of the family, partners or friends.

Gadawaf fy nghwestiynau manwl tan y broses graffu, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y gwaith hwnnw yn y pwyllgor iechyd. Fy unig gais y prynhawn yma, Weinidog, yw gofyn i chi gadarnhau y bydd y broses o gyfathrebu ar y Bil hwn, sydd yn bwysig iawn, yn gwbl glir, yn gynhwysfawr ac yn onest gyda phobl Cymru. Gwyddom fod dros 300 o bobl ar restr aros am organau yng Nghymru ar hyn o bryd ac nad oes sicrwydd y byddant yn derbyn organ yn dilyn gweithredu'r ddeddfwriaeth hon. Mae eisiau i ni sicrhau nad oes disgwyliad awtomatig am hynny o ganlyniad i'r drafodaeth ar y ddeddfwriaeth hon. Yn wir, nid oes sicrwydd y bydd cynnydd sylweddol yn yr organau a fydd ar gael yng Nghymru. Rydym wedi clywed eisoes am brofiad Brasil wrth gyflwyno deddfwriaeth o'r fath. Wrth gwrs, bydd yr organau y bydd dinasyddion Cymru yn eu cyflwyno drwy'r ddeddfwriaeth hon ar gael i fanc organau Cymru a Lloegr.

I will leave my detailed questions for the scrutiny process, and I look forward to that work in the health committee. My only request this afternoon, Minister, is to ask you to confirm that the process of communication surrounding this Bill, which is very important, is a totally clear, comprehensive and honest process that involves the people of Wales. We know that more than 300 people are waiting for organs in Wales at present and that there is no guarantee that they will receive organs following the implementation of this legislation. We must ensure that there is no expectation that that will happen automatically as a result of the discussion on this legislation. Indeed, there is no certainty that there will be a significant increase in the number of organs available in Wales. We have already heard about the experiences of Brazil in bringing forward legislation of this kind. Of course, the organs that Welsh citizens will donate as a result of

this legislation will be available to the England and Wales organ bank.

Felly, mae cofrestru dymuniad yr unigolyn i roi organau mor bwysig ag erioed, a byddwn ni ym Mhlaid Cymru yn ymgymryd â'n cyfrifoldeb i gefnogi eich ymgyrch dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod i hyrwyddo'r angen i gynyddu nifer yr unigolion sy'n cofrestru eu dymuniad. Nid wyf yn addo cael y drafodaeth honno gyda'm teulu dros ginio Nadolig; mae'n bosibl nad yw honno'n drafodaeth i'w chael dros ginio Nadolig. Serch hynny, gobeithiaf y bydd y drafodaeth gyhoeddus ar y Bil hwn yn arwain at y mathau hynny o drafodaethau ymhlith teuluoedd ledled Cymru, wrth i bawb gymryd diddordeb yn y broses o graffu ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno heddiw.

Therefore, registering the individual's wish to donate organs is as important as ever, and we in Plaid Cymru will actively take our responsibility to support your campaign over the next few weeks and months to promote the need to increase the number of individuals who register their wishes. I do not promise to have that discussion with my family over Christmas lunch; it is possibly not the discussion to be having over your Christmas lunch. However, I hope that the public debate on this Bill will lead to discussions of that nature taking place in families across Wales, as everybody takes an interest in scrutinising the legislation being introduced today.

3.15 p.m.

**Lesley Griffiths:** I thank Elin Jones for her support and for the support of her party. It is a very important day for the Assembly, and I would like to thank my team of officials, who have been fantastic.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Elin Jones am ei chefnogaeth ac am gefnogaeth ei phlaid. Mae'n ddiwrnod pwysig iawn i'r Cynulliad, a hoffwn ddiolch i fy nhîm o swyddogion, sydd wedi bod yn wych.

Elin is quite right about the family role. That will be scrutinised very closely. It is an issue that came up time after time during both consultation processes. She is right: as we go through the four Stages, this is something that will be scrutinised very closely. She is also right about communication. It is very important that people have a clear understanding of the situation. There are 237 people waiting for an organ transplant in Wales, and they will not automatically receive a transplant. Organs go to the most suitable recipient, and that person might not be in Wales—they might be in England, Northern Ireland or Scotland. We are hopeful that we will get up to about 15 more organ donors a year and, obviously, from one person you do not just get one organ—you can have up to 15 again. So, we are very hopeful that this will increase the number of organs that are available. The fact is that 41 people died in Wales last year while waiting for a transplant. We know that there is a shortage and that we have to do something. The Heart to Heart communication campaign, which we launched today, will get people

Mae Elin yn llygad ei lle ynghylch rôl y teulu. Bydd craffu agos iawn ar hynny. Mae'n fater a gododd dro ar ôl tro yn ystod y ddwy broses ymgynghori. Mae hi'n iawn: wrth i ni fynd drwy'r pedwar Cam, mae hyn yn rhywbeth y bydd craffu agos iawn arno. Mae hi hefyd yn iawn ynghylch cyfathrebu. Mae'n bwysig iawn bod gan bobl ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa. Mae 237 o bobl yn aros am drawsblaniad organ yng Nghymru, ac ni fyddant yn derbyn trawsblaniad yn awtomatig. Mae organau yn mynd i'r derbynnydd mwyaf addas, ac efallai na fydd y person hwnnw yng Nghymru-gallent fod yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban. Rydym yn obeithiol y byddwn yn cael hyd at ryw 15 yn fwy o roddwyr organau'r flwyddyn ac, yn amlwg, gan un person nid un organ yn unig yr ydych yn ei chael—gallwch gael hyd at 15 eto. Felly, rydym yn obeithiol iawn y bydd hyn yn cynyddu nifer yr organau sydd ar gael. Y ffaith yw bod 41 o bobl wedi marw yng Nghymru'r llynedd tra eu bod yn aros am drawsblaniad. Rydym yn gwybod bod prinder a bod yn rhaid gwneud rhywbeth. Bydd yr

talking. Elin is quite right that this will not happen over Christmas lunch, but I hope that, when families are together over the Christmas period, this is a conversation that will be started.

ymgyrch gyfathrebu Calon i Galon, a lansiwyd heddiw, yn golygu y bydd pobl yn siarad. Mae Elin yn llygad ei lle na fydd hyn yn digwydd dros y cinio Nadolig, ond rwy'n gobeithio, pan fydd teuluoedd gyda'i gilydd dros gyfnod y Nadolig, y bydd hon yn sgwrs fydd yn cael ei dechrau.

**Kirsty Williams:** I begin by thanking the Minister for her statement this afternoon. I believe that she is right to acknowledge that this is a very sensitive issue, with strong and genuinely held beliefs on both sides of the debate. For me, as a Liberal, the arguments go to the very heart of the nature of the relationship between the individual and the state. These are very complex and esoteric arguments, given that patients are waiting for organs to be donated. The Minister is right to say that these issues are difficult to talk about. Death remains very much a taboo subject in our society and culture. The situations in which the question of donation can arise are, often, very tragic, involving the injury of a relatively young person with their whole lives ahead of them.

**Kirsty Williams:** Dechreuaf drwy ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Credaf ei bod yn iawn i gydnabod bod hwn yn fater sensitif iawn, gyda chredoau cryf a didwyll ar ddwy ochr y ddadl. I mi, fel Rhyddfrydwr, mae'r dadleuon yn mynd i galon natur y berthynas rhwng yr unigolyn a'r wladwriaeth. Mae'r rhain yn ddadleuon cymhleth ac esoterig iawn, o ystyried bod cleifion yn aros am organau i gael eu rhoi. Mae'r Gweinidog yn iawn i ddweud bod y materion hyn yn anodd siarad amdanynt. Mae marwolaeth yn dal i fod yn bwnc na chewch chi sôn amdano yn ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae'r sefyllfaoedd lle y gall y cwestiwn o roi organau godi, yn aml, yn drasig iawn, yn cynnwys anaf i berson cymharol ifanc gyda'u bywydau cyfan o'u blaenau.

In principle, the Welsh Liberal Democrats will support this legislation. We have long supported the system of a soft opt-out, with appropriate safeguards in place. The Minister referred to the fact that this was contained in our manifesto at the last Assembly election. However, that does not mean that we do not have a role to play in scrutinising this legislation, and making sure that it is as robust as it possibly could be. I have a number of questions to ask in this regard.

Mewn egwyddor, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r ddeddfwriaeth hon. Rydym wedi cefnogi'r system feddal o optio allan ers amser maith, gyda mesurau diogelwch priodol ar waith. Cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith bod hyn wedi ei gynnwys yn ein maniffesto yn etholiad diwethaf y Cynulliad. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad oes gennym rôl i'w chwarae wrth graffu ar y ddeddfwriaeth, a gwneud yn siŵr ei bod mor gadarn ag y gallai fod. Mae gen i nifer o gwestiynau i'w gofyn yn hyn o beth.

Much has been made today of the Heart to Heart campaign, which we welcome very much. However, I would be grateful to learn from the Minister how she will monitor the effectiveness of this new communication campaign, and what she regards as a satisfactory level of awareness-raising as a result of it. Secondly, many people will want to know what steps they will need to take to opt out of the system and to be able to register their feelings in this regard. Perhaps the Minister could give some further details as to what opportunities there will be to opt

Mae llawer wedi ei wneud heddiw o'r ymgyrch Calon i Galon, yr ydym yn ei chroesawu'n fawr iawn. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar i ddysgu gan y Gweinidog sut y bydd yn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch gyfathrebu newydd, a beth y mae'n ei ystyried yn lefel foddhaol o godi ymwybyddiaeth o ganlyniad iddi. Yn ail, bydd llawer o bobl am wybod pa gamau y bydd angen iddynt eu cymryd i optio allan o'r system ac i fod yn gallu cofrestru eu teimladau yn hyn o beth. Efallai y gallai'r Gweinidog roi rhai manylion

out. In what settings will this occur, and how will people be made aware of these particular options?

pellach ynglŷn â pha gyfleoedd a geir i optio allan. Ym mha sefyllfaoedd fydd hyn yn digwydd, a sut y gwneir pobl yn ymwybodol o'r opsiynau penodol?

The role of surviving relatives and family members has been at the centre of much of the media discussion following today's launch and has been the focus of questions here today. In the explanatory memorandum, the Minister goes to some length and gives examples of how the law would affect families in different scenarios. I wonder whether the Minister has given any consideration to applying statutory underpinning—where have we heard that term before?—to the rights of families within this scenario, and also to the codes of practice to which she refers in the explanatory memorandum. If she has done so and has ruled it out, why is that? We all know that medics work to their own professional codes and codes of good practice. I wonder whether there is scope within the legislation for codifying some of that, giving it some statutory underpinning, setting out quite clearly the expectations of medical professionals, and giving some statutory underpinning to the good practice guidelines and the professional ethics to which they work.

Mae rôl perthnasau ac aelodau o'r teulu sy'n goroesi wedi bod wrth wraidd llawer o drafodaeth y cyfryngau yn dilyn lansiad heddiw ac mae wedi bod yn ffocws cwestiynau yma heddiw. Yn y memorandwm esboniadol, mae'r Gweinidog wedi bod yn eithaf manwl ac mae'n rhoi enghreifftiau o sut y byddai'r gyfraith yn effeithio ar deuluoedd mewn sefyllfaoedd gwahanol. Tybed a yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ddefnyddio seiliau statudol—lle glywsom ni'r term yna o'r blaen?—i hawliau teuluoedd o fewn y senario hon, a hefyd i'r codau ymarfer y mae'n cyfeirio atynt yn y memorandwm esboniadol. Os yw wedi gwneud hynny, ac wedi ei ddiystyru, pam hynny? Rydym i gyd yn gwybod bod meddygon yn gweithio i'w codau proffesiynol eu hunain a chodau ymarfer da. Tybed a oes lle o fewn y ddeddfwriaeth ar gyfer cyfundrefnu rhywfaint o hynny, gan roi rhywfaint o sail statudol, gan osod allan yn glir ddisgwyliadau gweithwyr meddygol proffesiynol, a rhoi rhywfaint o sail statudol i'r canllawiau arfer da a'r foeseg broffesiynol y maent yn gweithio iddynt.

Finally, on the issue of infrastructure, the Minister—as she often does—says that this is a matter for the local health boards. Minister, are you truly comfortable with that statement? The Government is spending a lot of time and resources bringing forward this legislation. You feel that it is important and has the ability to save lives. Given the political capital that you are expending on this, are you truly saying that you and the Government will have no role in ensuring that we have the infrastructure to enable this law to make a difference? We could be going down this path only to find that the stated objectives of the legislation will never be realised because we do not have the infrastructure to manage this process. Simply leaving it to local health boards to decide is potentially an abdication of the roles and responsibilities of the Government in this regard. If we are to take this big step in changing this law, we have to make sure that we have the resources to implement it.

Yn olaf, ar fater seilwaith, mae'r Gweinidog—fel y gwna'n aml—yn dweud bod hwn yn fater i'r byrddau iechyd lleol. Weinidog, a ydych chi wir yn gyfforddus â'r datganiad hwnnw? Mae'r Llywodraeth yn gwario llawer o amser ac adnoddau yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Rydych yn teimlo ei bod yn bwysig a bod ganddi'r gallu i achub bywydau. O ystyried y cyfalaf gwleidyddol yr ydych yn ei wario ar hyn, a ydych chi'n dweud mewn gwirionedd na fydd gennych chi na'r Llywodraeth unrhyw rôl o ran sicrhau bod gennym y seilwaith i alluogi'r gyfraith hon i wneud gwahaniaeth? Gallem fod yn mynd i lawr y llwybr hwn dim ond i weld na fydd amcanion datganedig y ddeddfwriaeth yn cael eu gwireddu oherwydd nad oes gennym y seilwaith i reoli'r broses hon. Mae dim ond ei adael i fyrddau iechyd lleol i benderfynu o bosib yn ymwrthod â rolau a chyfrifoldebau'r Llywodraeth yn hyn o beth. Os ydym i gymryd y cam mawr hwn i newid y gyfraith, mae'n rhaid i ni wneud yn

Simply saying that it is a matter for the LHBs to manage is, potentially, a grave mistake. Is it your intention, Minister, to appoint a clinical lead and to have clear accountability for the development of this policy within Welsh Government, to oversee the decisions being taken at a local health board level?

siŵr bod gennym yr adnoddau i'w weithredu. Mae dim ond dweud ei fod yn fater i'r Byrddau Iechyd Lleol i'w reoli, o bosibl, yn gamgymeriad difrifol. Ai eich bwriad, Weinidog, yw penodi arweinydd clinigol ac i gael atebolrwydd clir ar gyfer datblygu'r polisi hwn o fewn Llywodraeth Cymru, i oruchwylio'r penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ar lefel bwrdd iechyd lleol?

**Lesley Griffiths:** I thank Kirsty Williams for her support, and for her party's support in principle. You are right; it is a sensitive and emotive issue, on both sides. With regard to her point that it is often only in tragic situations that we have this conversation, that is something that we want to avoid, which is why we want to get families talking about this issue. We will monitor the Heart to Heart campaign. As I mentioned, officials are constantly meeting different faith groups and minority groups, and it is important that that monitoring continues well into the scrutiny of this Bill.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Kirsty Williams am ei chefnogaeth, ac am gefnogaeth ei phlaid mewn egwyddor. Rydych yn iawn; mae'n fater sensitif ac emosiynol, ar y ddwy ochr. O ran ei phwynt mai dim ond mewn sefyllfaoedd trasig yn aml yr ydym yn cael y sgwrs hon, mae hynny'n rhywbeth yr ydym am ei osgoi, a dyna pam yr ydym am gael teuluoedd yn siarad am y mater hwn. Byddwn yn monitro'r ymgyrch Calon i Galon. Fel y soniais, mae swyddogion yn gyson yn cwrdd â gwahanol grwpiau ffydd a grwpiau lleiafrifol, ac mae'n bwysig bod y gwaith monitro yn parhau i'r gwaith craffu ar y Bil hwn.

In relation to registration, our work has clearly identified that the best option is a new, future-proofed, modern UK register for people to opt in and out. It is also important that the register can deal with any changes in other parts of the UK, which is likely in future years.

Mewn perthynas â chofrestru, mae ein gwaith wedi nodi'n glir mai'r opsiwn gorau yw cofrestr newydd, wedi'i diogelu ar gyfer y dyfodol, modern y DU i bobl optio i mewn ac allan. Mae hefyd yn bwysig y gall y gofrestr ymdrin ag unrhyw newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU, sy'n debygol yn y dyfodol.

In relation to the family, applying statutory underpinning is certainly something that we can look at as we go through scrutiny. I would be interested to hear your ideas on that. In relation to infrastructure, while I said that it was a matter for the local health boards, you will have heard me say that I had looked at some figures that showed a significant increase in delayed discharges from intensive care units. Some 45% of all discharges were delayed beyond the ideal time. That is why I have asked for this to be looked at carefully. Obviously, I need reassurance that we have the resources and the infrastructure in place. If this legislation succeeds in increasing the number of donors, it will only mean a small number of patients in critical care being involved in donation. I mentioned that we expected around 15 extra donors per year across Wales. I do not accept

Mewn perthynas â'r teulu, mae defnyddio seiliau statudol yn sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno wrth inni fynd drwy'r broses graffu. Byddai gennyf ddiddordeb clywed eich syniadau ynglŷn â hynny. Mewn perthynas â seilwaith, er fy mod wedi dweud ei fod yn fater ar gyfer y byrddau iechyd lleol, byddwch wedi fy nghlywed yn dweud fy mod wedi edrych ar rai ffigurau a oedd yn dangos cynnydd sylweddol mewn oedi wrth ryddhau o'r unedau gofal dwys. Roedd oedi wrth ryddhau rhyw 45% o'r holl gleifion y tu hwnt i'r amser delfrydol. Dyna pam yr wyf wedi gofyn i hyn gael ei ystyried yn ofalus. Yn amlwg, rwyf angen sicrwydd bod gennym yr adnoddau a'r seilwaith wedi'u sefydlu. Os yw'r ddeddfwriaeth yn llwyddo i gynyddu nifer y rhoddwyr, bydd ond yn golygu nifer fach o gleifion mewn gofal critigol yn cymryd rhan mewn rhoi. Soniais ein bod yn

that there will be any significant pressure on our beds, but I will need that reassurance, which is why I have asked for that piece of work.

disgwyl tua 15 o roddwyr ychwanegol y flwyddyn ledled Cymru. Nid wyf yn derbyn y bydd unrhyw bwysau sylweddol ar ein gwelyau, ond bydd angen imi gael y sicrwydd hwnnw, a dyna pam yr wyf wedi gofyn am y darn hwnnw o waith.

**Russell George:** I have some concerns, Minister, particularly due to the legal deficit regarding the family, which has been mentioned by Darren Millar. Despite assurances on that, if it is not enshrined in the Bill, there is the potential for organs to be removed against the family's wishes if a proposed donor has not opted out.

**Russell George:** Mae gennyf rai pryderon, Weinidog, yn enwedig oherwydd y diffyg cyfreithiol o ran y teulu, sydd wedi cael ei grybwyll gan Darren Millar. Er gwaethaf sicrwydd ynghylch hynny, os nad yw'n cael ei gynnwys yn y Bil, mae yna botensial i organau gael eu tynnu yn erbyn dymuniadau'r teulu os nad yw rhoddwr arfaethedig wedi optio allan.

I am pleased that you have accepted that legislation will not, in itself, increase the rate of donation. We heard from Rebecca Evans about the issues in Spain, which sets the example for organ donation in the world. That country has never enacted the law passed on this issue. Has the Minister and her officials visited Spain to take a closer look at how the model operates there? Has the Minister considered widening the scope of the Bill by creating an organ donation organisation, such as the one that exists in Spain, as part of a more encompassing Bill to improve donation levels in Wales?

Rwy'n falch eich bod wedi derbyn na fydd deddfwriaeth, ynddo'i hun, yn cynyddu'r gyfradd roi. Clywsom gan Rebecca Evans am y materion yn Sbaen, sy'n gosod yr esiampl ar gyfer rhoi organau yn y byd. Nid yw'r wlad honno erioed wedi cyhoeddi'r ddeddf a basiwyd ar y mater hwn. A yw'r Gweinidog a'i swyddogion wedi ymweld â Sbaen i gael golwg agosach ar sut y mae'r model yn gweithredu yno? A yw'r Gweinidog wedi ystyried ehangu cwmpas y Bil gan greu sefydliad rhoi organau, fel yr un sy'n bodoli yn Sbaen, fel rhan o Fil mwy cynhwysfawr i wella lefelau rhoi yng Nghymru?

Finally, as an Assembly Member who represents a constituency on the border, the majority of my constituents use English hospitals. There is, therefore, the issue of my constituents who live in Wales perhaps dying in England. There are clear implications to that, so I would be grateful if you could expand on any public awareness campaigns that you propose to deal with that issue in particular.

Yn olaf, fel Aelod Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth ar y ffin, mae'r rhan fwyaf o fy etholwyr yn defnyddio ysbytai yn Lloegr. Mae, felly, y mater o fy etholwyr sy'n byw yng Nghymru, efallai'n marw yn Lloegr. Mae goblygiadau amlwg i hynny, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar unrhyw ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus yr ydych yn eu cynnig i ymdrin â'r mater hwnnw yn arbennig.

**Lesley Griffiths:** I thank Russell George for those questions. In relation to the role of the family, I have been very clear, and it is important to be clear, that, legally, the wishes of the deceased take precedence, including their decision to have their consent deemed given. However, in a system such as the one that we are proposing, as an additional safeguard, as is the case now, families will be fully involved in the decision-making process.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Russell George am y cwestiynau hynny. Mewn perthynas â rôl y teulu, rwyf wedi bod yn glir iawn, ac mae'n bwysig bod yn glir, bod, yn gyfreithiol, dymuniadau'r ymadawedig yn cael blaenoriaeth, gan gynnwys eu penderfyniad i ystyried iddynt gydsynio. Fodd bynnag, mewn system fel yr un yr ydym yn ei chynnig, fel dull diogelu ychwanegol, fel y mae pethau ar hyn o bryd, bydd teuluoedd yn cymryd rhan lawn yn y

broses o wneud penderfyniadau.

Officials have looked closely at Spain and other countries, and the suggestion that you make about an organ donation organisation is something that we can look at.

Mae swyddogion wedi edrych yn ofalus ar Sbaen a gwledydd eraill, ac mae'r awgrym yr ydych yn ei wneud am sefydliad rhoi organau yn rhywbeth y gallwn edrych arno.

Cross-border issues are very important. This piece of legislation will only affect people over the age of 18 who have lived in Wales for six months and who live and die in Wales.

Mae materion traws-ffiniol yn bwysig iawn. Bydd y darn hwn o ddeddfwriaeth ddim ond yn effeithio ar bobl dros 18 oed sydd wedi byw yng Nghymru am chwe mis ac sy'n byw ac yn marw yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Minister, in relation to the last point, I have now heard you answer a number of questions in which concerns were raised about the ability of families to veto the donation of organs. You have said twice now—maybe more—that families will be involved. The concern is that they may well be involved, but will they be listened to? When I was a member of the Assembly's health committee and we undertook an investigation in Madrid into presumed consent in Spain, we found that some aspects of the system there were excellent, but, on the other hand, families that were reluctant to allow the organs of their next of kin to be donated would repeatedly be visited—every 5 or 10 minutes—until they pretty much felt that it was not right that they should withhold consent. I would not like to see that happen in Wales, and I hope that you can reassure us that families will be listened to.

**Nick Ramsay:** Weinidog, mewn perthynas â'r pwynt olaf, rwyf bellach wedi'ch clywed yn ateb nifer o gwestiynau lle codwyd pryderon ynghylch gallu teuluoedd i roi feto ar roi organau. Rydych wedi dweud ddwywaith yn awr—mwy o weithiau efallai—y bydd teuluoedd yn cymryd rhan. Y pryder yw efallai y byddant yn cymryd rhan, ond a fydd rhywun yn gwrando arnynt? Pan oeddwn yn aelod o bwyllgor iechyd y Cynulliad ac y cynhaliwyd ymchwiliad ym Madrid i gydsyniad tybiedig yn Sbaen, canfuom fod rhai agweddau ar y system yno yn ardderchog, ond, ar y llaw arall, roedd teuluoedd a oedd yn amharod i ganiatáu i organau eu perthynas agosaf gael eu rhoi yn cael ymweliad dro ar ôl tro—bob 5 neu 10 munud—nes eu bod fwy neu lai'n teimlo nad oedd yn briodol iddynt wrthod cydsyniad. Ni hoffwn weld hynny'n digwydd yng Nghymru, ac rwy'n gobeithio y gallwch roi sicrwydd inni y bydd teuluoedd yn cael gwrandawiad.

I have a couple of questions. Going back to the Bill itself and the substance of it, section 12(1) talks about preservation for transplantation. It says that, where a body is lying in a hospital, nursing home or other institution, it is lawful for the person having the control or management of the institution to take steps to preserve the body and to retain the body for that purpose.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau. Gan fynd yn ôl at y Bil ei hun a'i hanfodion, mae adran 12(1) yn sôn am gadwedigaeth ar gyfer trawsblannu. Mae'n dweud, pan fydd corff yn gorwedd mewn ysbyty, cartref nyrsio neu sefydliad arall, mae'n gyfreithlon i'r person sy'n llywio neu'n rheoli'r sefydliad i gymryd camau i warchod y corff ac i gadw'r corff i'r diben hwnnw.

Going back to the issue of family members, you can easily conceive of a situation in which a family member may want the body, and if there are religious issues at play as well, they may well want that body within a certain time frame. Clearly, there would have to be some mediation between the person

Gan fynd yn ôl at y mater o aelodau o'r teulu, gallwch yn hawdd feddwl am sefyllfa lle gallai aelod o'r teulu fod am gael y corff, ac os oes materion crefyddol ynghlwm yn ogystal, efallai y bydd arnynt eisiau'r corff o fewn ffrâm amser penodol. Yn amlwg, byddai'n rhaid cael rhywfaint o gyfryngu

running the institution and the family member, as the former would be in a position of influence and power over the latter, who could be in quite a state of emotional distress. What do you propose to provide the mediation that would clearly be necessary at that point?

rhwng y person sy'n rhedeg y sefydliad a'r aelod o'r teulu, gan y byddai'r cyntaf mewn sefyllfa o ddylanwad a phŵer dros yr olaf, a allai fod mewn cyflwr o gryn drallod emosiynol. Beth ydych chi'n gynnig er mwyn darparu'r cyfryngu a fyddai'n amlwg yn angenrheidiol ar y pwynt hwnnw?

Secondly, section 2 places a duty on Welsh Ministers to promote transplantation and to inform the public of the changes to the law. If we imagine that this does proceed and the Bill becomes law, then, at some point, you can imagine a case in which someone who has not made it clear that they want to opt out will be considered to be part of the new scheme and their organs will be up for harvesting by a medical team.

Yn ail, mae adran 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu trawsblannu a rhoi gwybod i'r cyhoedd am y newidiadau i'r gyfraith. Os byddwn yn dychmygu bod hyn yn mynd yn ei flaen ac mae'r Bil yn dod yn gyfraith, yna, ar ryw adeg, gallwch ddychmygu achos lle bydd rhywun nad yw wedi ei gwneud yn glir eu bod am optio allan yn cael eu hystyried i fod yn rhan o'r cynllun newydd a bydd ei organau'n barod i gael eu cynaeafu gan dîm meddygol.

3.30 p.m.

Clearly, that medical team needs to have absolute confidence that that person, in not opting out, was fully aware of the law as it happens in Wales, and was not one of the excepted people that you have in the Bill. What are you going to do to ensure that there is an effective campaign to make sure that people are aware of the difference in the law? I know that if you have moved from England or another country to Wales up to six months previously you will not be considered to be part of this scheme, but if you have moved a year earlier, you may still not be aware of the law in Wales. Therefore, what are you doing to make sure that people are aware of this?

Yn amlwg, mae angen i'r tîm meddygol fod yn gwbl hyderus fod y person hwnnw, drwy beidio ag optio allan, yn gwbl ymwybodol o'r gyfraith fel y mae'n digwydd yng Nghymru, ac nad oedd un o'r bobl a eithrir sydd gennych yn y Bil. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod ymgyrch effeithiol i wneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r gwahaniaeth yn y gyfraith? Rwy'n gwybod os ydych wedi symud o Loegr neu wlad arall i Gymru hyd at chwe mis ynghynt na fyddwch yn cael eich ystyried i fod yn rhan o'r cynllun hwn, ond os ydych wedi symud flwyddyn yn gynharach, efallai nad ydych yn ymwybodol o hyd o'r gyfraith yng Nghymru. Felly, beth ydych chi'n ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o hyn?

Finally—and thank you for giving me time on this, but they are important points, Presiding Officer—you mentioned the opt-out and hinted at the opt-out register. Unless I am very much mistaken, there is no specific reference in the Bill to an opt-out register. I know that it is early days and this will be subject to scrutiny, but you have spoken about an opt-out register that I always thought would apply in Wales, unlike in Spain and other countries. It does not seem guaranteed that there will be an opt-out register, so I would be grateful if you could clarify exactly how people are meant to opt-

Yn olaf—a diolch i chi am roi amser i mi ar hyn, ond maent yn bwyntiau pwysig, Lywydd—soniasoch am yr optio allan ac roeddech yn lledgyfeirio at y gofrestr eithrio. Os nad wyf yn camgymryd yn fawr iawn, nid oes cyfeiriad penodol yn y Bil at gofrestr optio allan. Gwn ei bod yn ddyddiau cynnar a bydd hyn yn destun craffu, ond rydych wedi siarad am gofrestr optio allan yr oeddwn bob amser yn meddwl fyddai'n berthnasol yng Nghymru, yn wahanol i Sbaen a gwledydd eraill. Nid yw'n ymddangos yn sicr y bydd cofrestr optio allan, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro yn union sut y

out, or are you intending to rely purely on people telling loved ones, next of kin or friends of their wishes? Those people might be unavailable at the point of death and may not be there to be consulted. All of these issues need addressing because, otherwise, we will not carry the public with us.

mae disgwyl i bobl optio allan, neu a ydych yn bwriadu dibynnu yn unig ar gael pobl yn dweud wrth anwyliaid, perthnasau agosaf neu ffrindiau am eu dymuniadau? Efallai na fydd y bobl hynny ar gael ar adeg y farwolaeth ac efallai na fyddant yno i ymgynghori â nhw. Mae angen mynd i'r afael â phob un o'r materion hyn oherwydd, fel arall, ni fyddwn yn cario'r cyhoedd gyda ni.

**Lesley Griffiths:** Thank you, Nick Ramsay, for those questions. Many of them were about the role of the family. I can reassure everyone that families will not feel pressurised into agreeing to organ donation. Clinicians will have a duty of responsibility and a duty of care to the family member as well and no-one will feel pressurised.

**Lesley Griffiths:** Diolch, Nick Ramsay, am y cwestiynau hynny. Mae llawer ohonynt yn ymwneud â rôl y teulu. Gallaf sicrhau pawb na fydd teuluoedd yn teimlo dan bwysau i gytuno i roi organau. Bydd gan glinigwyr ddyletswydd o gyfrifoldeb a dyletswydd gofal i'r aelod o'r teulu yn ogystal, ac ni fydd neb yn teimlo o dan bwysau.

In relation to communications, I mentioned that, even following Royal Assent, the Bill will not become law for a further two years. That is because—I have even put it on the face of the Bill—Welsh Ministers will have a duty to conduct a very robust campaign. You mentioned people who move to Wales becoming aware—there are students as well—and it is essential that we have that very robust communication campaign to ensure that everybody is aware of the law in this country.

Mewn perthynas â chyfathrebu, soniais, hyd yn oed ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, na fydd y Bil yn dod yn gyfraith am ddwy flynedd arall. Mae hynny oherwydd—rwyf hyd yn oed wedi ei roi ar wyneb y Bil—bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gynnal ymgyrch gadarn iawn. Soniasoch am bobl sy'n symud i Gymru yn dod yn ymwybodol—mae myfyrwyr hefyd—ac mae'n hanfodol bod gennym yr ymgyrch gyfathrebu gadarn iawn honno i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gyfraith yn y wlad hon.

In relation to opt-out, I mentioned that there will be one register and you will be able to opt in or opt out on that one register and that is how people will register their wishes.

Mewn perthynas ag optio allan, soniais y bydd un gofrestr a byddwch yn gallu optio i mewn neu optio allan ar yr un gofrestr honno a dyna sut y bydd pobl yn cofrestru eu dymuniadau.

**Mohammad Asghar:** You mentioned earlier the beliefs of Muslims with regard to the transplantation of the human body. I do not know which Muslim you met, but do you know that there are a lot of sections in the Muslim community and that a lot of those sections support the Government view on these issues and others? Do not paint everybody with the same brush please.

**Mohammad Asghar:** Roeddech yn sôn yn gynharach am gredoau Mwslimiaid mewn perthynas â thrawsblaniadau'r corff dynol. Nid wyf yn gwybod pa Fwslim y cwrddoch chi ag ef, ond a ydych yn gwybod bod yna lawer o adrannau yn y gymuned Fwslimaidd a bod llawer o'r adrannau hynny yn cefnogi barn y Llywodraeth ar y materion hyn ac eraill? Peidiwch â pheintio pawb gyda'r un brwsh os gwelwch yn dda.

**Lesley Griffiths:** I certainly would not do that and, as I said, I absolutely respect that there are two sides and two viewpoints. What I said was, it was not me, but my official,

**Lesley Griffiths:** Yn sicr ni fyddwn yn gwneud hynny, ac, fel y dywedais, rwy'n parchu'n llwyr fod dwy ochr a dau safbwynt. Yr hyn a ddywedais oedd, nid fi ydoedd, ond

who met yesterday with a group from the Muslim community and one gentleman said that he was very supportive of it. He was upset that he felt that a lot of 'rubbish' was being put around in his community. He was extremely supportive of the position we have taken as a Government.

fy swyddog, a gyfarfu ddoe â grŵp o'r gymuned Fwslimaidd a dywedodd un gŵr bonheddig ei fod yn gefnogol iawn iddo. Roedd yn drist ei fod yn teimlo bod llawer o 'sothach' yn cael ei ledaenu yn ei gymuned. Roedd yn hynod o gefnogol i'r safbwynt yr ydym wedi'i chymryd fel Llywodraeth.

## Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012
## The Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012

*Cynnig NDM5110 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2012.*

*Motion NDM5110 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:*

*Approves that the draft The Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 17 October 2012.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

Thank you for the opportunity to introduce the Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012 for debate today. I begin by expressing our thanks to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the Public Bodies (Water Supply and Water Quality) (Inspection Fees) Order 2012 and for the report that it has produced that highlights the merits of the Order.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

Diolch i chi am y cyfle i gyflwyno'r Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwi Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012 ar gyfer dadl heddiw. Dechreuaf drwy fynegi ein diolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Cyflenwad Dŵr ac Ansawdd Dŵr) (Ffioedd Arolygu) 2012 ac am yr adroddiad y mae wedi'i gynhyrchu sy'n amlygu rhinweddau'r Gorchymyn.

*Daeth Angela Burns i'r Gadair am 3.35 p.m.*
*Angela Burns took the Chair at 3.35 p.m.*

This Order relates to a proposed change in the way in which the drinking water inspectorate raises charges for inspection duties. This change builds on the polluter pays principle, by ensuring that if the water industry undertakes an activity that requires regulatory intervention, then it is the water industry that bears the cost as opposed to the taxpayer. It will allow the drinking water inspectorate to be more accountable to water

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â newid arfaethedig yn y ffordd y mae'r arolygiaeth dŵr yfed yn codi taliadau ar gyfer dyletswyddau arolygu. Mae'r newid hwn yn adeiladu ar yr egwyddor y llygrwr sy'n talu, gan sicrhau os bydd y diwydiant dŵr yn cynnal gweithgaredd sy'n gofyn am ymyrraeth reoleiddio, yna y diwydiant dŵr sy'n gyfrifol am y gost yn hytrach na'r trethdalwr. Bydd yn caniatáu i'r arolygiaeth

companies and therefore to all players. I welcome your comments and agreement to commence this Order on 1 January 2013.

dŵr yfed fod yn fwy atebol i gwmnïau dŵr ac felly i'r holl gyfranogwyr. Rwy'n croesawu eich sylwadau a chytundeb i ddechrau'r Gorchymyn hwn ar 1 Ionawr 2013.

**Angela Burns:** Thank you very much for that, Minister. There are no other speakers on the order paper and therefore I ask whether you would like to add anything else to this debate.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Nid oes siaradwyr eraill ar y papur trefn ac felly rwy'n gofyn a hoffech ychwanegu unrhyw beth arall i'r ddadl hon.

**Jane Hutt:** I have nothing to add at this stage.

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

**Angela Burns:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections and this motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Angela Burns:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes dim gwrthwynebiadau, ac mae'r cynnig yn cael ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
## Debate on the General Principles of the Public Audit (Wales) Bill

*Cynnig NDM5111 Jane Hutt*

*Motion NDM5111 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:*

*Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru).*

*Agrees to the general principles of the Public Audit (Wales) Bill.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to open this debate on the general principles of the Public Audit (Wales) Bill. I take this opportunity to thank the Chair and members of the Public Accounts Committee for their helpful advice and support during their Stage 1 scrutiny of the Bill, and for their comprehensive report. I also offer my thanks to the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their report.

Rwy'n falch o agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am eu cyngor defnyddiol a'u cymorth yn ystod Cam 1 eu craffu ar y Bil, ac am eu hadroddiad cynhwysfawr. Rwyf hefyd yn cynnig fy niolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu hadroddiad.

I would also like to place on the record my appreciation to the public bodies, other organisations and members of the public that responded in the spring of this year to our

Hoffwn hefyd gofnodi fy ngwerthfawrogiad i'r cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd a ymatebodd yn y gwanwyn eleni i'n hymgynghoriad ar y

consultation on the draft proposals for the Bill, which resulted in the publication of our consultation report last July, alongside the introduction of the Bill, as revised, to this Assembly. Indeed, I would like to thank those Members who helped to pave the way for this report, including former Chairs and members of the predecessor Public Accounts Committee of this Assembly.

cynigion drafft ar gyfer y Bil, a arweiniodd at gyhoeddi ein hadroddiad ymgynghori fis Gorffennaf diwethaf, ochr yn ochr â chyflwyno'r Bil, fel y'i diwygiwyd, i'r Cynulliad hwn. Yn wir, hoffwn ddiolch i'r Aelodau hynny sydd wedi helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer yr adroddiad hwn, gan gynnwys cyn gadeiryddion ac aelodau o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a ragflaenodd y Cynulliad hwn.

It is in that context that I believe it would be helpful in opening this debate to recall the circumstances that led to the Public Wales (Audit) Bill being brought forward as part of the first legislative programme of this Welsh Government. The Welsh Government, the Public Accounts Committee and individual Assembly Members raised significant concerns in March 2011 relating to the actions of a former Auditor General while in office, including failures to prepare accounts for the Wales Audit Office that complied fully with the required financial reporting standards, issues of propriety, and a failure to uphold high standards of governance. These concerns caused us to obtain new powers for this Assembly to enact legislation and powers that have led to this Bill.

Yn y cyd-destun hwnnw rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol wrth agor y ddadl hon i gofio'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) fel rhan o raglen ddeddfwriaethol gyntaf y Llywodraeth hon yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Aelodau Cynulliad unigol wedi codi pryderon sylweddol ym mis Mawrth 2011 sy'n ymwneud â gweithredoedd cyn Archwilydd Cyffredinol tra ei fod yn y swydd, gan gynnwys methiant i baratoi cyfrifon ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cydymffurfio'n llawn a'r safonau adrodd ariannol gofynnol, materion o briodoldeb, a methiant i gynnal safonau uchel o lywodraethu. Perodd y pryderon hyn ni i gael pwerau newydd i'r Cynulliad hwn i gyhoeddi deddfwriaeth a phwerau sydd wedi arwain at y Bil hwn.

The Public Audit (Wales) Bill, we believe, provides for more open and effective governance, thereby removing or substantially reducing the opportunity for any individual to act improperly. This is a Bill that strengthens accountability arrangements, so that systems of internal control within the Wales Audit Office cannot easily be bypassed or overridden. It is a Bill that will provide greater assurance on risk management to the Assembly and more widely, as well as boosting the confidence in Wales's most vital public audit service.

Mae Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), rydym yn credu, yn darparu ar gyfer llywodraethu mwy agored ac effeithiol, a thrwy hynny ddileu neu leihau'n sylweddol y cyfle i unrhyw unigolyn i weithredu'n amhriodol. Mae hwn yn Fil sy'n cryfhau trefniadau atebolrwydd, fel na ellir osgoi neu ddiystyru systemau rheolaeth fewnol o fewn Swyddfa Archwilio Cymru yn hawdd. Mae'n Fil a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd ar reoli risg i'r Cynulliad ac yn fwy eang, yn ogystal â rhoi hwb i hyder gwasanaeth archwilio cyhoeddus mwyaf hanfodol Cymru.

The public consultation exercise during March to May this year drew much support for our initial proposals, including widespread support for improving the governance of the AGW. Following further consideration of the consultation responses and discussions with Public Accounts Committee members and others, a number of changes were made to the Bill. It was a little

Roedd yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn ystod mis Mawrth i fis Mai eleni wedi tynnu llawer o gefnogaeth ar gyfer ein cynigion cychwynnol, gan gynnwys cefnogaeth eang ar gyfer gwella llywodraethu Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn dilyn ystyriaeth bellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a thrafodaethau gydag aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac eraill, gwnaed nifer o

disappointing that, for legislative competence reasons, the proposed consolidation and simplification clauses of the Bill had to be set aside and deferred for future consideration. Other changes to the Bill were made to reflect, more closely, the views of the Presiding Officer and the committee, most notably the placing of the oversight arrangements relating to the AGW and the corporate WAO in the hands of the Assembly to determine, rather than the Public Accounts Committee. It is a significant change, and one that demonstrates our willingness to listen and, if persuaded, to change our approach.

newidiadau i'r Bil. Roedd ychydig yn siomedig, am resymau cymhwysedd deddfwriaethol, bod rhaid i gymalau cyfnerthu a symleiddio arfaethedig y Bil gael eu gosod o'r neilltu a'u gohirio i'w hystyried yn y dyfodol. Gwnaed newidiadau eraill i'r Bil i adlewyrchu, yn fwy agos, farn y Llywydd a'r pwyllgor, yn fwyaf nodedig gosod y trefniadau goruchwylio sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gorfforaethol yn nwylo'r Cynulliad i'w penderfynu, yn hytrach na'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'n newid sylweddol, ac yn un sy'n dangos ein parodrwydd i wrando ac, os cawn ein perswadio, i newid ein dull o weithredu.

Since the introduction of the Bill, and as part of the Stage 1 scrutiny, the Public Accounts Committee has sought, received and considered further evidence, including evidence from audit and accountancy communities, and from myself in September and October. I welcomed the committee's constructive and thorough scrutiny of the Bill. Some of the evidence has suggested different interpretations of the effect of the Bill and my officials are still working with the committee and the AGW to allay any remaining concerns in this regard. However, I think that we are all united in the common aim of seeking to achieve the best possible outcome that includes a robust governance structure—a structure that recognises and provides for the AGW to retain his or her operational audit independence.

Ers cyflwyno'r Bil, ac fel rhan o graffu Cyfnod 1, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ceisio, derbyn ac ystyried tystiolaeth bellach, gan gynnwys tystiolaeth gan gymunedau archwilio a chyfrifeg, a gennyf fi fy hun ym mis Medi a mis Hydref. Croesewais graffu adeiladol a thrylwyr y pwyllgor o'r Bil. Mae rhywfaint o'r dystiolaeth wedi awgrymu dehongliadau gwahanol o effaith y Bil ac mae fy swyddogion yn dal i weithio gyda'r pwyllgor a'r Archwilydd Cyffredinol i leddfu unrhyw bryderon sy'n weddill yn hyn o beth. Fodd bynnag, rwy'n meddwl ein bod i gyd yn unedig yn y nod cyffredin o geisio cyflawni'r canlyniad gorau posibl sy'n cynnwys strwythur llywodraethu cadarn—strwythur sy'n cydnabod ac yn darparu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gadw ei annibyniaeth archwilio gweithredol.

I am pleased to note that the PAC recommends that the Assembly agrees the general principles in the Bill, including the establishment of a corporate Wales Audit Office—a key point in securing better oversight and governance. I also note, in the committee's report, its views on a range of matters from which it has made a number of other recommendations for my consideration. In addition, the Constitutional and Legislative Affairs Committee has made one recommendation, relating to whether the Assembly has the legislative competence to make the AGW the statutory auditor of chief constables in Wales.

Rwy'n falch o nodi bod y PAC yn argymell bod y Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Bil, gan gynnwys sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru gorfforaethol—pwynt allweddol o ran sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu gwell. Rwyf hefyd yn nodi, yn adroddiad y pwyllgor, ei farn ar amrywiaeth o faterion o'r rhain y mae wedi gwneud nifer o argymhellion eraill i mi eu hystyried. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi gwneud un argymhelliad, yn ymwneud ag a oes gan y Cynulliad y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud Archwilydd Cyffredinol Cymru yr archwilydd statudol ar brif gwnstabliaid yng Nghymru.

As regards the Public Accounts Committee's other recommendations, I am pleased to say that the Welsh Government is prepared to bring forward amendments in Stage 2 to address recommendations 4, 5, 6, 7 and 11. In light of recommendation 4, the Welsh Government will bring forward an amendment to section 25 of the Bill at Stage 2, so that the AGW and the WAO are required jointly to prepare an annual plan, rather than being required to agree it.

O ran argymhellion eraill y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rwy'n falch o ddweud bod Llywodraeth Cymru yn barod i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael ag argymhellion 4, 5, 6, 7 ac 11. Yn sgil argymhelliad 4, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i adran 25 y Bil yng Nghyfnod 2, fel y gofynnir i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd i baratoi cynllun blynyddol, yn hytrach na'i bod yn ofynnol iddynt gytuno iddo.

I will also accept recommendation 5 and at Stage 2 will introduce an amendment to omit section 26 of the Bill, which relates to the annual plan and resources to be allocated to the auditor general. By doing that, we will address concerns that the WAO might seek to rely on section 26 in order to constrain the AGW's function, which could lead to disputes. I trust that the Assembly agrees that these two amendments help to dispel such concerns.

Byddaf hefyd yn derbyn argymhelliad 5 ac yng Ngham 2 byddaf yn cyflwyno'r diwygiad i hepgor adran 26 y Bil, sy'n ymwneud â'r cynllun blynyddol a'r adnoddau i'w dyrannu i'r archwilydd cyffredinol. Drwy wneud hynny, byddwn yn rhoi sylw i bryderon y gallai Swyddfa Archwilio Cymru geisio dibynnu ar adran 26 er mwyn cyfyngu ar swyddogaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru, a allai arwain at anghydfod. Hyderaf fod y Cynulliad yn cytuno bod y ddau welliant yn helpu i chwalu pryderon o'r fath.

In response to recommendation 11, the Welsh Government will bring forward an amendment to paragraph 30(6) of Schedule 1 to the Bill relating to the WAO accounts, so as to confer the specification the WAO accounting officer's responsibilities, currently on the Public Accounts Committee, on the Assembly, providing consistency throughout the Bill and vesting oversight matters in the Assembly.

Mewn ymateb i argymhelliad 11, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i baragraff 30(6) o Atodlen 1 i'r Bil sy'n ymwneud â chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn rhoi manyleb cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, sydd ar hyn o bryd ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ar y Cynulliad, gan ddarparu cysondeb ar draws y Bil ac yn breinio materion goruchwylio yn y Cynulliad.

In recommendation 14, the Public Accounts Committee suggests that paragraph 20(5) of Schedule 1 to the Bill—which is about the recruitment and selection procedures and the terms of employment of WAO staff being broadly in line with Welsh Government staff—might be difficult to achieve and unduly restrictive. The Welsh Government therefore intends to bring forward an amendment at Stage 2 to remove the paragraph, which will enable the WAO to employ staff on such terms as it may determine.

Yn argymhelliad 14, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn awgrymu y gallai paragraff 2 (5) o Atodlen 1 y Bil—sy'n ymwneud â bod gweithdrefnau recriwtio a dethol a thelerau cyflogaeth staff Swyddfa Archwilio Cymru yn fras yn unol â staff Llywodraeth Cymru—fod yn anodd ei gyflawni ac yn rhy gaeth. Mae Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu cyflwyno gwelliant yng Ngham 2 i gael gwared ar y paragraff, a fydd yn galluogi i Swyddfa Archwilio Cymru gyflogi staff ar y telerau y mae'n penderfynu.

I have given a flavour of how we have reached this stage in this important and much-needed Bill and of the amendments

Rwyf wedi rhoi blas ar sut yr ydym wedi cyrraedd y cam hwn yn y Bil pwysig a mawr ei angen hwn a'r diwygiadau y mae

that the Welsh Government is content to introduce. There are other recommendations to be considered and I will be happy to listen to what Members have to say and to respond to them later in the debate.

Llywodraeth Cymru yn fodlon eu cyflwyno. Mae argymhellion eraill i'w hystyried a byddaf yn hapus i wrando ar yr hyn sydd gan yr Aelodau i'w ddweud ac i ymateb iddynt yn ddiweddarach yn y ddadl.

**Darren Millar:** I am pleased to be able to contribute to today's debate on behalf of the Public Accounts Committee. The committee's role was to consider and report on the general principles of the Public Audit (Wales) Bill. As part of that, we called for written evidence and heard oral evidence from a number of witnesses. Our report was laid before the Assembly just before the end of November. I would like to put of record my thanks to all those who took the time to respond to our call for evidence and to assist with our work. I also thank the legislation clerks and the special advisors who assisted the committee in informing its view and producing its report.

**Darren Millar:** Rwy'n falch o allu cyfrannu at y ddadl heddiw ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Rôl y pwyllgor oedd ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Fel rhan o hynny, roeddem yn galw am dystiolaeth ysgrifenedig a chlywsom dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Roedd ein hadroddiad gerbron y Cynulliad ychydig cyn diwedd mis Tachwedd. Hoffwn gofnodi fy niolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'n galwad am dystiolaeth ac i gynorthwyo gyda'n gwaith. Diolch hefyd i'r clercod deddfwriaeth a'r cynghorwyr arbennig a gynorthwyodd y pwyllgor i lywio ei farn a chynhyrchu ei adroddiad.

Many people will already be aware of the background to this piece of legislation. Due to the well-documented failings of a previous Auditor General for Wales and the WAO, the Public Accounts Committee of the third Assembly considered the accounting, propriety and governance arrangements of the Wales Audit Office at length and called for more rigorous safeguards to be put in place. This Bill is the legacy of that committee's scrutiny. I would like to take this opportunity to thank the Minister and the Welsh Government for facilitating this vital piece of legislation.

Bydd llawer o bobl eisoes yn ymwybodol o'r cefndir i'r darn hwn o ddeddfwriaeth. Oherwydd methiannau sydd wedi'u cofnodi'n dda cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, ystyriodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y trydydd Cynulliad drefniadau cyfrifyddu, priodoldeb a llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru yn fanwl a galwodd am sefydlu mesurau diogelwch mwy llym. Y Bil yw etifeddiaeth y pwyllgor craffu hwnnw. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru am hwyluso'r darn hanfodol hwn o ddeddfwriaeth.

Turning to the committee's consideration of the general principles, there was broad support expressed by consultees for the principle of strengthening and improving the accountability and governance arrangements for the Wales Audit Office, while maintaining the independence and objectivity of the Auditor General for Wales—a vital ingredient of a healthy democracy. Having considered the evidence before us and having listened to the arguments put forward by the Minister for the need to legislate in this area, the committee recommends that the Assembly should agree the general principles of the Bill today.

Gan droi at ystyriaeth y pwyllgor o'r egwyddorion cyffredinol, roedd cefnogaeth eang a fynegwyd gan ymgyngoreion i'r egwyddor o gryfhau a gwella atebolrwydd a threfniadau llywodraethu ar gyfer y Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnal annibyniaeth a gwrthrychedd Archwilydd Cyffredinol Cymru ar yr un pryd—elfen hanfodol o ddemocratiaeth iach. Ar ôl ystyried y dystiolaeth ger ein bron ac ar ôl gwrando ar y dadleuon a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros yr angen i ddeddfu yn y maes hwn, mae'r pwyllgor yn argymell y dylai'r Cynulliad gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw.

In making this recommendation, however, the committee wishes to stress that the auditor general is, and will continue to be, an independent statutory office holder who is personally responsible and accountable to the National Assembly for the discharge of a range of statutory functions, including the audit of accounts and a programme of value-for-money studies. As such, the auditor general must continue to have complete discretion as to the manner in which the functions of that office are exercised. Notwithstanding the general support for the principles of the Bill, many consultees had specific concerns about key provisions in the Bill, which were shared by the committee. I will deal with these in turn.

Wrth wneud yr argymhelliad hwn, fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn dymuno pwysleisio mai'r archwilydd cyffredinol yw, a bydd yn parhau i fod, y deiliad swydd statudol annibynnol sy'n bersonol gyfrifol ac yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau statudol, gan gynnwys archwiliad o gyfrifon a rhaglen o astudiaethau gwerth am arian. Fel y cyfryw, rhaid i'r archwilydd cyffredinol barhau i gael disgresiwn llwyr o ran y modd y mae swyddogaethau'r swyddfa honno yn cael eu harfer. Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol i egwyddorion y Bil, roedd gan nifer o ymgyngoreion bryderon penodol am ddarpariaethau allweddol yn y Bil, a gafodd eu rhannu gan y pwyllgor. Byddaf yn delio â'r rhain yn eu tro.

3.45 p.m.

The draft Bill, published by the Minister earlier this year, contained a number of much-needed provisions that would have rationalised, consolidated and updated the existing plethora of accounting and audit legislation. Unfortunately, as the Minister has explained, these provisions were not included in the Bill that was formally introduced, and we noted the Minister's evidence that this was for reasons of legislative competence. It would be interesting, Minister, to have a little bit of a timeline on how long you think it might take, in order to resolve some of those issues as quickly as possible so that a further Bill can be brought forward to ensure that consolidation can happen.

Mae'r Bil drafft a gyhoeddwyd gan y Gweinidog yn gynharach eleni, yn cynnwys nifer o ddarpariaethau mawr eu hangen a fyddai wedi rhesymoli, cyfnerthu a diweddaru'r plethora presennol o ddeddfwriaeth gyfrifo ac archwilio. Yn anffodus, fel y mae'r Gweinidog wedi esbonio, nid oedd y darpariaethau hyn wedi eu cynnwys yn y Bil a gyflwynwyd yn ffurfiol, a nodwn dystiolaeth y Gweinidog fod hyn am resymau cymhwysedd deddfwriaethol. Byddai'n ddiddorol, Weinidog, i gael llinell amser ar ba mor hir ydych chi'n meddwl a gymer, er mwyn datrys rhai o'r materion hynny cyn gynted ag y bo modd fel y gellir cyflwyno Bil pellach i sicrhau bod cyfnerthu'n gallu digwydd.

Turning to the governance arrangements for the new WAO, it is important to stress that the auditor general has a vital responsibility to provide independent assurance about the spending of public money. To do that job properly he or she must, within the overall resource envelope approved by the Assembly, be given the freedom to exercise his or her statutory functions as he or she sees fit. There must be no possibility of the AGW's independence being fettered as a result of any legislative provisions in respect of the governance of the new WAO.

Gan droi at y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, mae'n bwysig pwysleisio bod gan yr archwilydd cyffredinol gyfrifoldeb hanfodol er mwyn darparu sicrwydd annibynnol ynghylch gwario arian cyhoeddus. I wneud y gwaith hwnnw'n iawn rhaid iddo ef neu hi, o fewn yr amlen adnoddau cyffredinol a gymeradwywyd gan y Cynulliad, gael y rhyddid i arfer ei swyddogaethau statudol ef neu hi fel y mae ef neu hi yn gweld yn dda. Ni ddylai fod unrhyw bosibilrwydd i annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru gael ei lyffetheirio o ganlyniad i unrhyw

ddarpariaethau deddfwriaethol mewn perthynas â llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru newydd.

The Bill proposes that the new WAO will be governed by a corporate board comprising executive and non-executive members, with the latter having a majority. The Bill also proposes that the board will have executive as well as supervisory functions. The committee considered carefully the views of a number of witnesses that a simpler model of imposing a statutory, Assembly-appointed supervisory board over the existing structure would be a more straightforward option to that proposed in the Bill. We considered that at some length, but eventually came to the conclusion that we accepted that the Minister's proposal to reconstitute the WAO as a corporate body with an appointed board could be made to work, provided that it operates along the lines of the model recently introduced for the UK National Audit Office.

Mae'r Bil yn cynnig y bydd y Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn cael ei llywodraethu gan fwrdd corfforaethol sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol, gyda'r olaf yn cael mwyafrif. Mae'r Bil hefyd yn cynnig y bydd gan y bwrdd swyddogaethau gweithredol yn ogystal â goruchwyliol. Ystyriodd y pwyllgor yn ofalus farn nifer o dystion y byddai model symlach o osod bwrdd goruchwylio statudol, a benodwyd gan y Cynulliad dros y strwythur presennol yn opsiwn mwy syml i'r hyn a gynigir yn y Bil. Ystyriwyd hynny'n fanwl, ond yn y diwedd daethom i'r casgliad ein bod yn derbyn y gellid gwneud i gynnig y Gweinidog i ailgyfansoddi Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol gyda bwrdd a benodir i weithio, ar yr amod ei fod yn gweithio ar hyd llinellau'r model a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU.

We consider that this approach would necessitate a number of changes to the Bill to prevent any possibility of the board fettering the AGW's independence, and our support for the corporate body model proposed in the Bill is predicated on these changes being made. Recommendations 2 to 8 in our report set out these changes. Given the time constraints, I will, unfortunately, be able to touch on them only very briefly.

Rydym o'r farn y byddai'r dull hwn yn golygu bod angen nifer o newidiadau i'r Bil i atal unrhyw bosibilrwydd i'r bwrdd lyffetheirio annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac mae ein cefnogaeth i'r model corff corfforaethol a gynigir yn y Bil yn cael ei seilio ar wneud y newidiadau hyn. Mae argymhellion 2 i 8 ein hadroddiad yn nodi'r newidiadau hyn. O ystyried y cyfyngiadau amser, ni fyddaf, yn anffodus, ond yn gallu sôn amdanynt yn fyr iawn.

Section 18 of the Bill provides for the auditor general to delegate his or her statutory functions to staff of the WAO or to other organisations, such as private sector accountancy firms. This is a practical necessity, but the requirement in section 18(2) for WAO approval of the scheme of delegation has the potential, we feel, to fetter the AGW's discretion and the exercise of his or her functions. On this basis, we recommend that section 18(2) be removed from the Bill.

Mae adran 18 y Bil yn darparu ar gyfer yr archwilydd cyffredinol i ddirprwyo ei swyddogaethau statudol ef neu hi i staff Swyddfa Archwilio Cymru neu i sefydliadau eraill, megis cwmnïau cyfrifeg y sector preifat. Mae hwn yn anghenraid ymarferol, ond mae gan y gofyniad yn adran 18(2) i Swyddfa Archwilio Cymru gymeradwyo'r cynllun dirprwyo, yr ydym yn teimlo, y potensial i gyfyngu ar ddisgresiwn Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i allu ef neu hi i arfer ei swyddogaethau. Ar y sail hon, rydym yn argymell bod adran 18(2) yn cael ei ddileu o'r Bil.

We recommend that section 25 of the Bill be

Rydym yn argymell bod adran 25 o'r Bil yn

amended so that the AGW and WAO are required jointly to prepare an annual plan setting out their respective work programmes and the resources available for these. I am pleased that the Minister has taken on board the recommendations around this particular point. We also recommend that section 26 be removed.

cael ei diwygio fel ei bod yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar y cyd i baratoi cynllun blynyddol yn nodi eu rhaglenni gwaith perthnasol a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer y rhain. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion ynghylch y pwynt penodol hwn. Rydym hefyd yn argymell bod adran 26 yn cael ei dileu.

We heard a lot of evidence about the need for a code of practice to manage the relationship between the AGW and the WAO board. The committee agreed with that evidence and recommends that the Bill should provide for a code that should be jointly prepared by the AGW and WAO board and approved by the Assembly. Again, I am pleased that the Minister has accepted that recommendation.

Clywsom lawer o dystiolaeth am yr angen am god ymarfer i reoli'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Cytunodd y pwyllgor â'r dystiolaeth honno ac mae'n argymell y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer cod a ddylai gael ei baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac a gymeradwyir gan y Cynulliad. Unwaith eto, rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw.

Further to this, we recommend that any changes to that code must be approved by the Assembly, and that the Bill should provide for this. That was recommendation 7, which the Minister has also agreed with.

Yn ogystal â hyn, rydym yn argymell bod rhaid i unrhyw newidiadau i'r cod gael eu cymeradwyo gan y Cynulliad, ac y dylai'r Bil ddarparu ar gyfer hyn. Dyna oedd argymhelliad 7, yr oedd y Gweinidog hefyd wedi cytuno ag ef.

Recommendation 8 of the committee's report suggests that section 9(2) is unnecessary as the auditor general's existing powers to appoint staff are to be repealed, so there is no possibility of the AGW duplicating the WAO board's key functions. The committee considered that this provision would be unduly restrictive.

Mae argymhelliad 8 o adroddiad y pwyllgor yn awgrymu bod adran 9(2) yn ddiangen gan fod pwerau presennol yr archwilydd cyffredinol i benodi staff yn cael eu diddymu, felly nid oes unrhyw bosibilrwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyblygu swyddogaethau allweddol bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y pwyllgor o'r farn y byddai'r ddarpariaeth hon yn rhy gyfyngol.

In relation to the size and composition of the proposed board, we felt that the ratio of executive to non-executive members proposed in the Bill does not strike the right balance. We made two significant recommendations in relation to this. First, we agreed with the principle that non-executive members should outnumber the executive members of the board, and we recommended that the number of executives be increased from two to four, two of these being nominated by the AGW, one being the AGW, and one other being elected as a staff member. We feel that this would put a unique

Mewn perthynas â maint a chyfansoddiad y bwrdd arfaethedig, rydym yn teimlo nad oedd y gymhareb aelodau gweithredol i aelodau anweithredol a gynigir yn y Bil yn sicrhau'r cydbwysedd cywir. Gwnaethom ddau argymhelliad arwyddocaol mewn perthynas â hyn. Yn gyntaf, roeddem yn cytuno â'r egwyddor y dylai aelodau anweithredol fod yn fwy niferus nag aelodau gweithredol y bwrdd, ac rydym yn argymell bod y nifer o aelodau gweithredol yn cael ei gynyddu o ddau i bedwar, dau o'r rhain yn cael eu henwebu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, un ohonynt yw Archwilydd

Welsh stamp on that particular board, and that it could be a model that could be used elsewhere within the Welsh public sector.

Cyffredinol Cymru, a'r llall yn cael ei ethol fel aelod staff. Rydym yn teimlo y byddai hyn yn rhoi stamp Cymreig unigryw ar y bwrdd penodol hwnnw, ac y gallai fod yn fodel y gellid ei ddefnyddio mewn mannau eraill o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

We welcome the intention in the Bill to confer functions relating to the oversight and finances of the AGW on the Assembly, but we consider that paragraph 30(6) of Schedule 1 should be amended to confer the function currently vested on the Public Accounts Committee on the Assembly, and we welcome the Minister's commitment to bring forward an amendment to deal with that. We also made a further recommendation to tidy up this issue a little later on.

Rydym yn croesawu bwriad yn y Bil i roi swyddogaethau sy'n ymwneud â goruchwylio a chyllid Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y Cynulliad, ond rydym o'r farn y dylai paragraff 30(6) o Atodlen 1 gael ei ddiwygio i roi'r swyddogaeth a freiniwyd ar hyn o bryd ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cynulliad, ac rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno gwelliant i ddelio â hynny. Rydym hefyd yn gwneud argymhelliad pellach i dacluso'r mater hwn ychydig yn nes ymlaen.

Time does not permit me to go into the other issues that I wanted to raise, save to say this: there are a number of outstanding matters on taxation, the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981, the national fraud initiative and data sharing, which the committee discussed at some length, and we were very grateful for the opportunity to discuss those further with the Minister and the auditor general. We are at a stage where we believe that these issues could be resolved by amendment, if necessary, during Stage 2 of the legislative process and we are very grateful for the discussions that we have been able to have with the Minister to bring that situation to an end.

Nid yw amser yn caniatáu imi fynd i mewn i'r materion arall yr oeddwn am eu codi, ar wahân i ddweud hyn: mae nifer o faterion heb eu datrys ar drethiant, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981, y fenter twyll cenedlaethol a rhannu data, a drafododd y pwyllgor yn fanwl, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfle i drafod y rheini ymhellach gyda'r Gweinidog a'r archwilydd cyffredinol. Rydym ar gam lle rydym yn credu y gallai'r materion hyn gael eu datrys drwy ddiwygio, os oes angen, yn ystod Cam 2 y broses ddeddfwriaethol ac rydym yn ddiolchgar iawn am y trafodaethau yr ydym wedi gallu eu cael gyda'r Gweinidog i ddod â'r sefyllfa i ben.

I will touch briefly on the financial implications of the Bill. We noted that the auditor general's cost estimate contained a number of contingencies that are unlikely to be needed, and, further to the additional information that we have received today, we are more confident than ever that the revised schedule of costs that we expect the Minister to bring forward will be close to the cost that she has already identified. On that basis, and as a result of today's debate, we recommend that this Bill proceeds to Stage 2.

Rwyf am sôn yn fyr am oblygiadau ariannol y Bil. Rydym yn nodi bod amcangyfrif cost yr archwilydd cyffredinol yn cynnwys nifer o gynlluniau wrth gefn y mae'n annhebygol y bydd eu hangen, ac, yn dilyn y wybodaeth ychwanegol yr ydym wedi'i derbyn heddiw, rydym yn fwy hyderus nag erioed y bydd y rhestr ddiwygiedig o gostau yr ydym yn disgwyl i'r Gweinidog eu cyflwyno yn agos at y gost y mae hi eisoes wedi'i nodi. Ar y sail honno, ac o ganlyniad i ddadl heddiw, rydym yn argymell bod y Bil hwn yn mynd rhagddo i Gam 2.

**David Melding:** The committee considered this Bill at our meeting on 8 October and we

**David Melding:** Ystyriodd y pwyllgor y Bil hwn yn ein cyfarfod ar 8 Hydref ac rydym yn

reported to the Assembly on 20 November. The Constitutional and Legislative Affairs Committee's remit includes reporting on provisions in Assembly Bills that give powers to Welsh Ministers to make subordinate legislation. The Bill does not contain any new regulation-making powers, but provides Order-making powers for Welsh Ministers under section 19, on the provision of services, and section 34, on transitional, supplementary and saving provisions. The committee is content with the approach and procedures provided for in the Bill in relation to the Order-making powers.

adrodd i'r Cynulliad ar 20 Tachwedd. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cynnwys adrodd ar ddarpariaethau mewn Biliau Cynulliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau gwneud rheoliadau newydd, ond mae'n rhoi pwerau gwneud Gorchmynion i Weinidogion Cymru o dan adran 19, ar ddarparu gwasanaethau, ac adran 34, ar ddarpariaethau trosiannol, atodol ac arbed. Mae'r pwyllgor yn fodlon â'r dull a gweithdrefnau a ddarperir yn y Bil mewn perthynas â'r pwerau gwneud Gorchmynion.

We wrote to the Minister seeking confirmation that there were no issues or concerns in relation to the competence of the Bill. In her response to us, the Minister stated that discussions with the Wales Office were ongoing in relation to the audit arrangements for chief constables, and I note that the Minister referred to this in her opening speech. It would be opportune to report on any progress now, if any has been made, although I suspect that the Minister would have done that already if that was the case. However, if there has been progress, it would be useful if the Minister could mention it in winding up the debate. If not, we would appreciate having some idea as to when these negotiations are expected to be concluded.

Ysgrifennom ni at y Gweinidog gan ofyn am gadarnhad nad oedd unrhyw broblemau neu bryderon mewn perthynas â chymhwysedd y Bil. Yn ei hymateb i ni, dywedodd y Gweinidog fod trafodaethau gyda Swyddfa Cymru yn parhau mewn perthynas â'r trefniadau archwilio ar gyfer prif gwnstabliaid, a nodaf fod y Gweinidog wedi cyfeirio at hyn yn ei araith agoriadol. Byddai'n gyfle da i adrodd ar unrhyw gynnydd yn awr, os oes cynnydd wedi'i wneud o gwbl, er fy mod yn amau y byddai'r Gweinidog wedi gwneud hynny eisoes os oedd hynny'n wir. Fodd bynnag, os oes cynnydd wedi'i wneud, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog sôn amdano wrth ddirwyn y ddadl i ben. Os na, byddem yn gwerthfawrogi cael rhywfaint o syniad ynghylch pryd y disgwylir i'r trafodaethau hyn gael eu cwblhau.

**Jenny Rathbone:** This Bill is not, and never has been, a political matter; it is rightly the job of us all to ensure that we have the best possible arrangements for ensuring that the auditor general can carry out his or her role in a rigorous and ruthless manner, unfettered in any way by us as the Assembly, except in as much as to ensure that they are doing the work that is needed to ensure that public money is being well spent and to provide clear and deliverable examples of best practice, which might otherwise be ignored. This was always the case, even when public expenditure was increasing year on year, but it is vital during these times of reduced budgets and increased demand for services.

**Jenny Rathbone:** Nid yw'r Bil, ac ni fu erioed, yn fater gwleidyddol; gwaith pob un ohonom yn briodol yw sicrhau bod gennym y trefniadau gorau posibl ar gyfer sicrhau y gall yr archwilydd cyffredinol gyflawni ei swyddogaeth mewn ffordd drwyadl a didrugaredd, heb ei lyffetheirio mewn unrhyw ffordd gennym ni fel Cynulliad, ac eithrio yn gymaint â sicrhau eu bod yn gwneud y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n dda ac i ddarparu enghreifftiau clir a chyraeddadwy o arfer gorau, a allai fel arall gael eu hanwybyddu. Fel hyn yr oedd pethau bob amser, hyd yn oed pan oedd gwariant cyhoeddus yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'n hanfodol yn ystod y cyfnod hwn o gyllidebau llai a mwy o alw am

wasanaethau.

It is nothing short of astonishing that the UK coalition Government chose to abolish the Audit Commission for the whole of the UK as one of its first acts when it came to office in 2010. Why abolish the one organisation that knows where all the bodies are buried in terms of squeezing inefficiencies out of the system, and which was wholly dedicated to promoting best value in public services, unless, of course, your aim to undermine the whole concept of public services as the most efficient and effective way of delivering services to the public and you want to turn them over to your friends in the private sector?

Mae'n hollol ryfeddol bod Llywodraeth glymblaid y DU wedi dewis diddymu'r Comisiwn Archwilio ar gyfer y DU gyfan fel un o'i gweithredoedd cyntaf pan ddaeth i'r swydd yn 2010. Pam diddymu yr un sefydliad sy'n gwybod lle mae'r holl gyrff wedi cael eu claddu o ran gwasgu aneffeithlonrwydd allan o'r system, ac a oedd yn hollol ymroddedig i hyrwyddo gwerth gorau mewn gwasanaethau cyhoeddus, oni bai, wrth gwrs, mai eich nod yw tanseilio'r holl gysyniad o wasanaethau cyhoeddus fel y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac rydych am eu rhoi i'ch ffrindiau yn y sector preifat?

Happily, that is not the case in Wales, which is why it was a commitment of the First Minister at the start of the fourth Assembly to strengthen the governance of the office of the auditor general to try to eliminate permanently the abuse of power by and lack of accountability of a previous auditor general, which, sadly, came to light in the previous Assembly. The current auditor general has done a great deal to restore public confidence, both through the quality of the reports that he and his staff in the Wales Audit Office have produced as well as through the additional scrutiny arrangements for his work that he has put in place on a voluntary basis.

Yn ffodus, nid yw hynny'n wir yng Nghymru, a dyna pam yr oedd yn ymrwymiad Prif Weinidog Cymru ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad i gryfhau llywodraethu swyddfa'r archwilydd cyffredinol i geisio dileu yn barhaol y camddefnydd o rym gan yr archwilydd cyffredinol blaenorol a diffyg atebolrwydd yr archwilydd blaenorol, a ddaeth, yn anffodus, i'r amlwg yn y Cynulliad blaenorol. Mae'r archwilydd cyffredinol presennol wedi gwneud llawer i adfer hyder y cyhoedd, trwy ansawdd yr adroddiadau y mae ef a'i staff yn Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u cynhyrchu yn ogystal â thrwy'r trefniadau craffu ychwanegol ar gyfer ei waith y mae wedi ei sefydlu ar sail wirfoddol.

This Bill aims to enshrine the oversight of the auditor general's work into law, without fettering in any way the independence of the auditor general to investigate whether money is wisely spent, and spent for the purposes for which it was given, at all levels of government and by organisations funded by public money. It is important that all of us understand whether the proposals in the Bill, and discussed in the Public Accounts Committee report, will be sufficient to prevent, as far as possible, the abuse of office that occurred under a previous Auditor General for Wales. We deliberated long and hard on the merits of having an advisory or an executive board. In the end, we rejected the advisory model as lacking teeth and have

Mae'r Bil hwn yn anelu at ymgorffori goruchwylio gwaith yr archwilydd cyffredinol i mewn i gyfraith, heb lyffetheirio mewn unrhyw ffordd annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol i ymchwilio a yw arian yn cael ei wario'n ddoeth, a'i wario at y dibenion y cafodd ei roi, ar bob lefel o lywodraeth a chan sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn deall a oedd y cynigion yn y Bil, a drafodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn ddigon i atal, cyhyd ag y bo modd, y cam-drin swydd a ddigwyddodd o dan Archwilydd Cyffredinol blaenorol Cymru. Cafwyd trafod hir a chaled ar y rhinweddau o gael bwrdd cynghori neu fwrdd gweithredol. Yn y diwedd,

opted for an executive board, similar to that which oversees the work of the comptroller and auditor general in England.

gwrthodwyd y model ymgynghorol fel un sydd heb ddannedd, ac rydym wedi dewis bwrdd gweithredol, yn debyg i'r hyn sy'n goruchwylio gwaith y rheolwr a'r archwilydd cyffredinol yn Lloegr.

This, we sincerely hope, does not fetter the independence of the auditor general: he or she is responsible for devising the audit work and for deciding which value-for-money studies need pursuing. They would need to discuss with the board whether the extra income generated from an investigation of, for example, the work of the mayor of Bristol, would justify the time taken from other work that they need to conduct in Wales, and that is rightly a matter that the auditor general should discuss with the board. Given that the UK Audit Commission has been abolished, it is not impossible to envisage the potential for bids to come in for a lot of extra work for local authorities and Government departments in England. There is nothing wrong with that, as long as it does not get in the way of the core work of audit of our Welsh public bodies.

Nid yw hyn, rydym yn mawr obeithio, yn cyfyngu ar annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol: mae ef neu hi yn gyfrifol am ddyfeisio'r gwaith archwilio ac am benderfynu pa astudiaethau gwerth am arian sydd angen eu canlyn. Byddai angen iddynt drafod gyda'r bwrdd a fyddai'r incwm ychwanegol a gynhyrchir o ymchwiliad, er enghraifft, gwaith maer Bryste, yn cyfiawnhau'r amser a gymerir o waith arall y mae angen iddynt ei gynnal yng Nghymru, ac mae hynny'n briodol yn fater y dylai'r archwilydd cyffredinol ei drafod gyda'r bwrdd. O ystyried bod Comisiwn Archwilio'r DU wedi cael ei ddiddymu, nid yw'n amhosibl rhagweld y potensial ar gyfer ceisiadau i ddod i mewn am lawer o waith ychwanegol i awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth yn Lloegr. Nid oes dim o'i le ar hynny, cyn belled ag nad yw'n amharu ar y gwaith craidd o archwilio ein cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Therefore, while we are mindful of the need not to overcomplicate or unnecessarily increase the cost or burden of the process, I agree with the remarks made by the chair of the Public Accounts Committee about increasing the ratio of executive members to non-executive members on the board, while maintaining non-executives as the majority. However, it is perfectly possible to look again at whether the number of nine is correct or whether it should be seven or whatever in the interests of containing costs. That detail can be debated at the next stage of the Bill.

Felly, er ein bod yn ymwybodol o'r angen i beidio â gorgymhlethu neu gynyddu cost neu faich y broses yn ddiangen, rwy'n cytuno â'r sylwadau a wnaed gan gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch cynyddu'r gymhareb o aelodau gweithredol i aelodau anweithredol ar y bwrdd, gan gynnal aelodau anweithredol fel y mwyafrif. Fodd bynnag, mae'n gwbl bosibl edrych eto ar p'un ai naw yw'r nifer cywir neu a ddylai fod yn saith neu beth bynnag er budd rheoli costau. Gellir trafod y manylyn hwnnw yn ystod cam nesaf y Bil.

However, there was a useful consensus that electing one member of the board from among the staff would give them a sense that they would always have a stake in ensuring that their voices were heard, if they were in any way troubled about things going wrong. We have to make sure that we have an arrangement whereby the disagreements between the board and the auditor general can be resolved without having to go to legal people.

Fodd bynnag, roedd consensws defnyddiol y byddai ethol un aelod o'r bwrdd o blith y staff yn rhoi iddynt ymdeimlad y byddent bob amser yn cael cyfran mewn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed os oeddent mewn unrhyw ffordd yn poeni am bethau yn mynd o'i le. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod gennym drefniant lle y gall yr anghytundeb rhwng y bwrdd a'r archwilydd cyffredinol gael eu datrys heb orfod mynd at bobl gyfreithiol.

**Angela Burns:** Order. I ask the Member to draw her remarks to a close.

**Angela Burns:** Trefn. Gofynnaf i'r Aelod ddirwyn ei sylwadau i ben.

**Jenny Rathbone:** The one thing that was not addressed by the Constitutional and Legislative Affairs Committee was how the auditor general will be scrutinised by the National Assembly, because I think that it was agreed in our discussions with the Minister that that should not be a role for the Public Accounts Committee.

**Jenny Rathbone:** Yr un peth na roddwyd sylw iddo gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oedd sut y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar yr archwilydd cyffredinol, oherwydd credaf y cytunwyd yn ein trafodaethau gyda'r Gweinidog na ddylai hynny fod yn rôl ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Jocelyn Davies:** I have only recently joined the committee and Stage 1 proceedings were almost completed by that time. My colleague, Lindsay Whittle, was the Party of Wales Member who undertook this work and contributed to the report, which I think contains a range of very useful recommendations, and I am sure that those recommendations will be dealt with during later stages.

**Jocelyn Davies:** Dim ond yn ddiweddar yr wyf wedi ymuno â'r pwyllgor ac roedd achosion Cam 1 bron wedi'u cwblhau erbyn hynny. Fy nghydweithiwr, Lindsay Whittle, oedd yr Aelod Plaid Cymru – the Party of Wales a wnaeth y gwaith hwn ac a gyfrannodd at yr adroddiad, yr wyf yn meddwl sy'n cynnwys ystod o argymhellion defnyddiol iawn, ac rwy'n siŵr y bydd yr argymhellion yn cael eu trin yn ystod camau diweddarach.

I look forward to seeing the Welsh Government amendments addressing the concerns that led to those recommendations. Therefore, we, on these benches, also agree with the general principles of the Bill and with the chair's comments about governance. However, there is just one matter that we would like to put on the record, and that is the matter of TUPE in relation to the transfer of staff, because unless the issue of TUPE is resolved,

Edrychaf ymlaen at weld gwelliannau Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r pryderon a arweiniodd at yr argymhellion hynny. Felly, rydym ni, ar y meinciau hyn, hefyd yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil a gyda sylwadau'r cadeirydd am lywodraethu. Fodd bynnag, mae un mater y byddem yn hoffi ei roi ar y cofnod, sef mater TUPE mewn perthynas â throsglwyddo staff, oherwydd oni bai bod mater TUPE yn cael ei ddatrys,

'the new organisation will face an extremely problematic beginning, with the potential for poor industrial relations and low morale.'

bydd y sefydliad newydd yn wynebu dechrau hynod o anodd, gyda'r potensial ar gyfer cysylltiadau diwydiannol gwael a morâl isel.

4.00 p.m.

That is according to Gareth Howells of the Prospect union. That would be a disastrous outcome at a time when we need a strong audit function, and we want this organisation to get off to the very best start, for the reasons set out by Jenny Rathbone in her contribution. Therefore, the Prospect union has argued that the Bill lacks TUPE provisions, which has caused major anxiety for staff, and that must not continue.

Mae hynny'n ôl Gareth Howells o undeb Prospect. Byddai hynny'n ganlyniad trychinebus ar adeg pan rydym angen swyddogaeth archwilio gref, ac rydym am i'r sefydliad hwn gael y dechrau gorau, am y rhesymau a nodir gan Jenny Rathbone yn ei chyfraniad. Felly, mae undeb Prospect wedi dadlau bod y Bil yn brin o ddarpariaethau TUPE, sydd wedi achosi pryder mawr i staff, a rhaid i hynny beidio â pharhau.

The Minister used the phrase 'principles of TUPE' in her letter to the committee on 31 October. This term needs to be upgraded to completely reflect TUPE. We feel that 'principles of TUPE' is open to interpretation, and the workers fear the worst. According to the auditor general in his letter to the committee Chair,

Defnyddiodd y Gweinidog yr ymadrodd 'egwyddorion TUPE' yn ei llythyr at y pwyllgor ar 31 Hydref. Mae angen uwchraddio'r ymadrodd hwn i adlewyrchu TUPE yn llwyr. Rydym yn teimlo bod 'egwyddorion TUPE' yn agored i'w ddehongli, ac mae'r gweithwyr yn ofni'r gwaethaf. Yn ôl yr archwilydd cyffredinol yn ei lythyr at Gadeirydd y pwyllgor,

'Schedule 3 of the Bill falls significantly short of provision for transfer on terms no less favourable than would be the case if TUPE applied'.

Mae Atodlen 3 y Bil yn dod yn sylweddol brin o ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo ar delerau heb fod yn llai ffafriol na fyddai'r achos pe byddai TUPE yn berthnasol.

Furthermore, in the oral evidence given to the committee during September and October, there was an acceptance from the Welsh Government that it was prepared to make changes to the Bill to ensure that the same provisions of TUPE applied. In fact, the Minister stated on 24 September in oral evidence that she would be willing to make changes to the face of the Bill, if needed, to ensure that people's terms and conditions would be protected. Therefore, in conclusion, we would be grateful for assurances that resolving this matter will be a priority and that suitable changes will be made by the Minister at Stage 2.

Ar ben hynny, yn y dystiolaeth lafar a roddwyd i'r pwyllgor yn ystod mis Medi a mis Hydref, roedd derbyniad gan Lywodraeth Cymru ei bod yn barod i wneud newidiadau i'r Bil i sicrhau bod yr un darpariaethau o TUPE yn berthnasol. Yn wir, dywedodd y Gweinidog ar 24 Medi mewn tystiolaeth lafar y byddai hi'n barod i wneud newidiadau i wyneb y Bil, pe byddai angen, i sicrhau y byddai telerau ac amodau pobl yn cael eu diogelu. Felly, i gloi, byddem yn ddiolchgar am sicrwydd y bydd datrys y mater hwn yn flaenoriaeth ac y bydd newidiadau addas yn cael eu gwneud gan y Gweinidog yng Nghyfnod 2.

**Mike Hedges:** I am yet another member of the audit committee who is giving their view. My first question is: do we need an audit Bill? It has been the view of everyone who has given evidence to the committee that the Assembly needs an audit Bill. There has not been unanimity on what should go in it, but there has certainly been unanimity that we need such a Bill.

**Mike Hedges:** Rwyf innau'n aelod arall o'r pwyllgor archwilio sydd yn rhoi ei farn. Fy nghwestiwn cyntaf yw: a oes arnom angen Bil archwilio? Mae wedi bod yn farn gan bawb sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor fod y Cynulliad angen Bil archwilio. Ni fu unfrydedd ar beth ddylai fynd ynddo, ond mae yn sicr wedi bod unfrydedd bod angen Bil o'r fath arnom.

The Public Accounts Committee agreed with the Bill's general principles and stressed that the auditor general should continue to be an independent statutory office holder who is personally responsible and accountable to the Assembly.

Roedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cytuno ag egwyddorion y Bil cyffredinol ac yn pwysleisio y dylai'r archwilydd cyffredinol barhau i fod yn ddeiliad swydd statudol annibynnol sy'n bersonol gyfrifol ac yn atebol i'r Cynulliad.

The Bill also has to be futureproof. It cannot be written in the context of the current auditor general or previous ones. It needs to be relevant to all future auditors general. I do not think that, in a few years' time, when the next auditor general is appointed, anyone

Rhaid i'r Bil hefyd fod yn ddiogel ar gyfer y dyfodol. Ni ellir ei ysgrifennu yng nghyd-destun yr archwilydd cyffredinol cyfredol neu rai blaenorol. Mae angen iddo fod yn berthnasol i bob archwilydd cyffredinol yn y dyfodol. Nid wyf yn credu, ymhen ychydig

would want to be involved in writing a new Bill.

flynyddoedd, pan fydd yr archwilydd cyffredinol nesaf yn cael ei benodi, y byddai unrhyw un eisiau bod yn rhan o ysgrifennu Bil newydd.

It fulfils a commitment made by the First Minister in his legislative statement last July to consider strengthening and improving the governance, accountability and oversight arrangements relating to the Auditor General for Wales. That commitment stems from the well-documented professional behaviour and practice of a former auditor general. The absence of clear governance and accountability was a significant contributory factor in allowing the then-auditor general to override his office’s control systems. The resulting reputational damage caused by these activities to an important public office was considerable.

Mae’n cyflawni’r ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol fis Gorffennaf diwethaf i ystyried cryfhau a gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwylio yn ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae’r ymrwymiad hwnnw yn deillio o ymddygiad ac arfer proffesiynol archwilydd cyffredinol blaenorol sydd wedi’u dogfennu’n dda. Roedd absenoldeb llywodraethu ac atebolrwydd clir yn ffactor oedd yn cyfrannu’n sylweddol at ganiatáu i’r archwilydd cyffredinol ar y pryd ddiystyru systemau rheoli ei swyddfa. Roedd y niwed i enw da o ganlyniad a achoswyd gan y gweithgareddau hyn i swydd gyhoeddus bwysig yn sylweddol.

The Public Accounts Committee agreed with the Bill’s general principles and stressed that the auditor general should continue to be an independent statutory office holder who is personally responsible and accountable to the Assembly. That is the key point. Whatever comes out of the Bill, it has to make sure that is what happens.

Cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ag egwyddorion y Bil cyffredinol a phwysleisiodd y dylai’r archwilydd cyffredinol barhau i fod yn ddeiliad swydd statudol annibynnol sy’n bersonol gyfrifol ac atebol i’r Cynulliad. Dyna’r pwynt allweddol. Beth bynnag a ddaw allan o’r Bil, mae’n rhaid iddo wneud yn siŵr mai dyna beth sy’n digwydd.

The Bill is designed to strengthen and improve the accountability and governance arrangements relating to the Auditor General for Wales and the Wales Audit Office while protecting the auditor general’s independence and objectivity. The challenge for any audit Bill is to achieve that: a balance between greater transparency and the auditor general’s deployment of public resources while ensuring that the independence of the office of the auditor general is not constrained. The auditor general must be able to undertake audits as he or she sees fit without outside interference, but he or she must be accountable for the use of the resources. He or she must have the ability to do what is thought necessary, but there must be a mechanism by which he or she is accountable for his or her actions. Everyone, whatever job they hold or wherever they are in public life, needs to be accountable to somebody for

Mae’r Bil wedi’i gynllunio i gryfhau a gwella’r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy’n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru gan ddiogelu annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd cyffredinol ar yr un pryd. Yr her i unrhyw Fil archwilio yw sicrhau bod: cydbwysedd rhwng mwy o dryloywder a defnydd o adnoddau cyhoeddus yr archwilydd cyffredinol gan sicrhau nad yw annibyniaeth swydd yr archwilydd cyffredinol yn cael ei chyfyngu. Rhaid i’r archwilydd cyffredinol allu cynnal archwiliadau fel y mae ef neu hi yn gweld yn dda heb ymyrraeth o’r tu allan, ond rhaid iddo ef neu hi fod yn atebol am y defnydd o’r adnoddau. Rhaid iddo ef neu hi gael y gallu i wneud yr hyn sy’n angenrheidiol, ond rhaid cael mecanwaith lle mae ef neu hi yn atebol am ei weithredoedd ef neu ei gweithredoedd hi. Mae pawb, beth bynnag yw’r swydd y

their actions. That is the key to this Bill: to bring accountability.

maent yn ei dal neu lle bynnag y maent mewn bywyd cyhoeddus, angen bod yn atebol i rywun am eu gweithredoedd. Dyna'r allwedd i'r Bil hwn: i ddod ag atebolrwydd.

This is the challenge of the Bill. The main aim of the Bill must be to address the concerns about governance, accountability and oversight. The Bill must not be about the current or previous auditors general. It is easy to produce one that solves the problems of the past; the key is to make sure that we do not have any problems in the future. It is about future office holders. We must get the Bill right now. There must be no need for a new Bill every eight years when a new auditor general is appointed. We have to get it right first time. I believe that we are right to take it on to the next stage, and some concerns have been expressed by Darren Millar, Jocelyn Davies and others, and these need to be addressed, but I believe that the basic principle is right: we need this Bill.

Dyma her y Bil. Mae'n rheidrwydd mai prif nod y Bil fydd mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch llywodraethu, atebolrwydd a goruchwylio. Ni ddylai'r Bil ymwneud â'r archwilwyr cyffredinol presennol neu flaenorol. Mae'n hawdd cynhyrchu un sy'n datrys problemau'r gorffennol; yr allwedd yw gwneud yn siŵr nad oes gennym unrhyw broblemau yn y dyfodol. Mae'n ymwneud â deiliaid y swydd yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni gael y Bil yn iawn yn awr. Ni ddylai fod unrhyw angen i gael Bil newydd bob wyth mlynedd pan benodir archwilydd cyffredinol newydd. Mae'n rhaid i ni gael pethau'n iawn y tro cyntaf. Credaf ein bod yn iawn i fynd ag ef ymlaen i'r cam nesaf, ac mae rhai pryderon wedi cael eu mynegi gan Darren Millar, Jocelyn Davies ac eraill, ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain, ond rwy'n credu bod yr egwyddor sylfaenol yn iawn: mae angen y Bil hwn arnom.

**Aled Roberts:** I also welcome the opportunity to speak on the proposed legislation, and also to reflect on the committee's deliberations.

**Aled Roberts:** Rwyf innau hefyd yn croesawu'r cyfle i siarad ar y ddeddfwriaeth arfaethedig, a hefyd i adlewyrchu ar drafodaethau'r pwyllgor.

At first reading, we thought it was probably going to be one of the driest issues that we would debate this term, but, as it turned out, it was quite interesting to discuss. As Mike Hedges has outlined, although there was general agreement about the backdrop that led to a reconsideration of the governance arrangements, there were also differences of opinion about some of the detail.

Ar y darlleniad cyntaf, roeddem yn meddwl ei fod yn fwy na thebyg yn mynd i fod yn un o'r materion sychaf y byddem yn ei drafod y tymor hwn, ond, fel y digwyddodd, roedd yn eithaf diddorol i'w drafod. Fel y mae Mike Hedges wedi amlinellu, er nad oedd cytundeb cyffredinol am y cefndir a arweiniodd at ailystyried y trefniadau llywodraethu, roedd hefyd gwahaniaeth barn ynglŷn â rhai o'r manylion.

While the majority of points have already been raised, it is worth my underlining some of them and stressing the need for the committee to be satisfied about some of the amendments that the Government may bring forward during Stage 2.

Er bod y rhan fwyaf o bwyntiau wedi eu codi eisoes, mae'n werth i mi danlinellu rhai ohonynt a phwysleisio bod angen i'r pwyllgor fod yn fodlon am rai o'r gwelliannau y gall y Llywodraeth eu cyflwyno yn ystod Cam 2.

I believe that clarity is required, and even today we have had sight as committee members of a recent exchange of letters between our Chair, the Minister for Finance

Credaf fod angen eglurder, a hyd yn oed heddiw rydym wedi cael golwg fel aelodau pwyllgor ar gyfnewid llythyrau diweddar rhwng ein Cadeirydd, y Gweinidog Cyllid ac

and Leader of the House and the Auditor General for Wales, which further clarifies the situation.

Arweinydd y Tŷ ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n egluro'r sefyllfa ymhellach.

While recognising the need for greater governance, what is uppermost in our minds as committee members is the need to ensure, as some have already mentioned, that the auditor general remains independent and that he is not fettered in any way. That is why, as our Chair has already mentioned, we believe that a code of practice should govern the relationship between the board and the auditor general, as is in place in England.

Er ein bod yn cydnabod yr angen am fwy o lywodraethu, yr hyn sydd flaenaf yn ein meddyliau fel aelodau o'r pwyllgor yw'r angen i sicrhau, fel y mae rhai wedi sôn eisoes, bod yr archwilydd cyffredinol yn parhau i fod yn annibynnol ac nad yw'n cael ei lyffetheirio mewn unrhyw ffordd. Dyna pam, fel y mae ein Cadeirydd wedi crybwyll eisoes, y credwn y dylai'r cod ymarfer reoli'r berthynas rhwng y bwrdd a'r archwilydd cyffredinol, fel y mae wedi'i sefydlu yn Lloegr.

As the Minister outlined, it is important that legislation that is designed to strengthen and improve the role of the Wales Audit Office and Auditor General for Wales should not lead to a situation in which it could be foreseen that the board could, effectively, fetter the independent exercise of the auditor general's statutory functions. That is why recommendations 5 and 6, which the Minister has already referred to, reflect that view.

Fel yr amlinellodd y Gweinidog, mae'n bwysig na ddylai deddfwriaeth sydd wedi'i chynllunio i gryfhau a gwella rôl Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru arwain at sefyllfa lle gellid rhagweld y gallai'r bwrdd, mewn gwirionedd, lyffetheirio gweithredu annibynnol ar swyddogaethau statudol yr archwilydd cyffredinol. Dyna pam y mae argymhellion 5 a 6, y mae'r Gweinidog eisoes wedi cyfeirio atynt, yn adlewyrchu'r farn honno.

Recommendations 11 and 12 regarding the accountability of the auditor general and the Wales Audit Office have led the Minister to accept that there is a need for amendments to be tabled to confer the functions currently vested in the Public Accounts Committee on the Assembly.

Mae argymhellion 11 a 12 ynghylch atebolrwydd yr archwilydd cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi arwain y Gweinidog i dderbyn bod angen i welliannau gael eu cyflwyno i roi swyddogaethau sydd wedi'u breinio ar hyn o bryd yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Cynulliad.

I referred earlier to the exchange of letters for clarification, and I want to amplify the cause that Jocelyn Davies made with regard to the TUPE arrangements, contained in committee recommendation 13. We strongly support the principle that staff transferred to the Wales Audit Office should be transferred on terms that are no less favourable than those under the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) Regulations 2006. It is clear from the exchange of correspondence seen today that there are still differences in the views being taken, although the Minister, as has been outlined, gave her assurance to us as a committee. However, there are clearly still issues with the potential cost consequences.

Cyfeiriais yn gynharach at y cyfnewid llythyrau ar gyfer eglurhad, ac rwyf am ymhelaethu'r achos a wnaeth Jocelyn Davies o ran y trefniadau TUPE, a gynhwysir yn argymhelliad pwyllgor 13. Rydym yn cefnogi'n gryf yr egwyddor y dylai staff sydd wedi eu trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru gael eu trosglwyddo ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol na'r rhai o dan Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. Mae'n amlwg o'r cyfnewid gohebiaeth a welwyd heddiw bod gwahaniaethau yn parhau yn y safbwyntiau a gymerir, er bod y Gweinidog, fel y dywedwyd, wedi rhoi ei sicrwydd i ni fel pwyllgor. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod problemau o hyd gyda chanlyniadau cost

posibl.

I also believe that we made it clear as a committee that we still want to have more information about how tax is dealt with, and also about the requirements for registration under freedom of information and equalities legislation. It might be helpful if the Minister could indicate to the Chamber whether she believes that we are looking at two distinct entities or one single entity with regard to registration and other responsibilities and obligations.

Rwyf hefyd yn credu ein bod wedi ei gwneud yn glir fel pwyllgor ein bod yn dal i fod eisiau mwy o wybodaeth am sut yr ymdrinnir â'r dreth, a hefyd am y gofynion ar gyfer cofrestru o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a chydraddoldeb. Gallai fod yn ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog ddweud wrth y Siambr a yw'n credu ein bod yn edrych ar ddau endid gwahanol neu un endid sengl o ran cofrestru a chyfrifoldebau a rhwymedigaethau eraill.

Once again, I welcome the opportunity to examine the detail of this Bill. There are issues that we will need to debate further in committee, but on the basis of the evidence and assurances given by the Minister at this stage, I am quite happy that amendments are to be tabled at Stage 2.

Unwaith eto, rwy'n croesawu'r cyfle i archwilio manylion y Bil hwn. Mae materion y bydd angen i ni eu trafod ymhellach yn y pwyllgor, ond ar sail y dystiolaeth a'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog ar hyn o bryd, rwy'n ddigon bodlon bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno yng Ngham 2.

**Julie Morgan:** I am very pleased to speak in this debate, as I have been pleased to take part in the deliberations of the Public Accounts Committee. As Aled Roberts said, we may have thought that this was going to be a dry discussion, but it was extremely interesting. It is an example of how views change, and I welcome the Minister's flexibility in responding to the committee's views.

**Julie Morgan:** Rwy'n falch iawn i siarad yn y ddadl hon, fel yr wyf wedi bod yn falch i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Fel y dywedodd Aled Roberts, efallai ein bod wedi meddwl bod hon yn mynd i fod yn drafodaeth sych, ond roedd yn hynod o ddiddorol. Mae'n enghraifft o sut y mae barn yn newid, a chroesawaf hyblygrwydd y Gweinidog wrth ymateb i farn y pwyllgor.

When I was thinking about this debate, I was reminded of the recent debate regarding the Leveson inquiry. Lord Justice Leveson, in presenting his report, ended his press conference by saying that politicians must now decide 'who guards the guardians?'. That is the issue that we are trying to work out here today. I do not think that anyone would argue, in view of the events that have happened, or generally really, that the Wales Audit Office should be beyond any accountability. History tells us that, here, and at Westminster, some form of accountability or control is an unfortunate necessity. This Bill tries to get a balance between independence and accountability. As Darren Millar said, the committee supports the principles of the Bill. I think that that has emerged quite clearly.

Pan oeddwn yn meddwl am y ddadl hon, cefais fy atgoffa o'r ddadl ddiweddar ynghylch ymchwiliad Leveson. Roedd yr Arglwydd Ustus Leveson, wrth gyflwyno ei adroddiad, yn gorffen ei gynhadledd i'r wasg drwy ddweud bod yn rhaid i wleidyddion yn awr benderfynu pwy sy'n gwarchod y gwarcheidwaid. Dyna'r mater yr ydym yn ceisio ei ddatrys yma heddiw. Nid wyf yn credu y byddai neb yn dadlau, o ystyried y digwyddiadau sydd wedi digwydd, neu'n gyffredinol mewn gwirionedd, y dylai Swyddfa Archwilio Cymru fod y tu hwnt i unrhyw atebolrwydd. Mae hanes yn dweud wrthym, yma, ac yn San Steffan, bod rhyw fath o atebolrwydd neu reolaeth yn anghenraid anffodus. Mae'r Bil hwn yn ceisio cael cydbwysedd rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd. Fel y dywedodd Darren Millar, mae'r pwyllgor yn cefnogi

egwyddorion y Bil. Credaf fod hynny wedi dod i'r amlwg yn eithaf clir.

Previous reports of the Public Accounts Committee have highlighted the concerns that arose about accounting matters, issues of propriety and the fact that there were not high standards of governance. Although, as Jenny Rathbone said, the auditor general has worked hard to try to improve the standing of the office, it remains the fact that the three present advisory committees that he has have no independent input in that it is entirely his say who sits on those committees and there are no procedures for independent and external appointments.

Mae adroddiadau blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi tynnu sylw at y pryderon a gododd ynghylch materion cyfrifyddu, materion o ran priodoldeb a'r ffaith nad oedd safonau uchel o lywodraethu. Er, fel y dywedodd Jenny Rathbone, bod yr archwilydd cyffredinol wedi gweithio'n galed i geisio gwella statws y swydd, mae'r ffaith yn aros nad oes gan y tri phwyllgor ymgynghorol presennol sydd ganddo unrhyw fewnbwn annibynnol gan mai ei air ef yn gyfan gwbl sy'n penderfynu pwy sy'n eistedd ar y pwyllgorau hynny, ac nid oes gweithdrefnau ar gyfer penodiadau annibynnol ac allanol.

Therefore, the fact that this Bill will introduce external input and transparency is a good step forward. The Bill specifically ensures that the auditor general will determine his own work programme and how much money is needed to carry that out. The Wales Audit Office will step in only if what he proposes is unreasonable. It has already been said that the committee's discussions centred around why a corporate WAO is preferred to an advisory board model. This was the basis of most of our discussions as we tried to reach general agreement on that. The fact that the committee has recommended a code of practice to manage the relationship between the Wales Audit Office and the Auditor General for Wales is an important step forward. The code of practice is vital in ensuring that this works.

Felly, mae'r ffaith y bydd y Bil hwn yn cyflwyno mewnbwn allanol a thryloywder yn gam da ymlaen. Mae'r Bil yn benodol yn sicrhau y bydd yr archwilydd cyffredinol yn pennu ei raglen waith ei hun a faint o arian sydd ei angen i gyflawni hynny. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn camu i mewn dim ond os yw'r hyn y mae'n ei gynnig yn afresymol. Mae eisoes wedi dweud bod trafodaethau'r pwyllgor yn canolbwyntio ar pam fod Swyddfa Archwilio Cymru gorfforaethol yn well na model bwrdd cynghori. Roedd hyn yn sail i'r rhan fwyaf o'n trafodaethau wrth i ni geisio cyrraedd cytundeb cyffredinol ar hynny. Mae'r ffaith bod y pwyllgor wedi argymell cod ymarfer i reoli'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gam pwysig ymlaen. Mae'r cod ymarfer yn hanfodol i sicrhau bod hyn yn gweithio.

To refer briefly to some of the recommendations, I welcome the Minister's acceptance of so many of them. I would also like to draw attention to recommendation 9, which has been referred to by the Chair of the committee and other committee members. This represents a change to the composition of the board and suggests that there should be one elected member. We had quite a lot of debate about that in the committee because it is a new model. However, I think that it is a very welcome step forward. We also made the point quite strongly that other employees could be co-opted to the board if their particular expertise were needed on a certain

I gyfeirio yn fyr at rai o'r argymhellion, rwy'n croesawu bod y Gweinidog yn derbyn cynifer ohonynt. Hoffwn hefyd dynnu sylw at argymhelliad 9, y cyfeiriwyd ato gan Gadeirydd y pwyllgor ac aelodau eraill y pwyllgor. Mae hyn yn cynrychioli newid i gyfansoddiad y bwrdd ac yn awgrymu y dylai fod un aelod etholedig. Cawsom gryn dipyn o ddadlau am hynny yn y pwyllgor oherwydd ei fod yn fodel newydd. Fodd bynnag, credaf ei fod yn gam ymlaen i'w groesawu. Roeddem hefyd yn gwneud y pwynt yn eithaf cryf y gallai gweithwyr eraill gael eu cyfethol i'r bwrdd pe byddai angen eu harbenigedd penodol ar fater arbennig.

issue.

Committee members have also raised the TUPE issue. I am sure that the Minister would not want this transfer to happen on any less favourable terms than the members of staff have at the moment. I would be interested to hear her response to that.

Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd wedi codi mater TUPE. Rwy'n siŵr na fyddai'r Gweinidog am i'r trosglwyddo hwn ddigwydd ar unrhyw delerau llai ffafriol nag sydd gan yr aelodau o staff ar hyn o bryd. Byddai gennyf ddiddordeb i glywed ei hymateb i hynny.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I thank the Chair of the Public Accounts Committee and the Members who have contributed to this debate so constructively this afternoon. Clearly, we have wide agreement, and I think that that has developed through a robust scrutiny process and robust engagement. It was a partnership approach, not just through attendance at committee but through discussions with Members and the Chair, as well as through one-to-one meetings with the auditor general to ensure that we got this Bill right and dealt with the challenges. I will be considering the points made in this debate very carefully, and I will respond at this stage to those that I can answer effectively.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Aelodau sydd wedi cyfrannu mor adeiladol at y ddadl hon y prynhawn yma. Yn amlwg, mae gennym gytundeb eang, a chredaf fod hynny wedi datblygu drwy broses graffu gadarn ac ymgysylltu cadarn. Roedd yn ddull partneriaeth, nid yn unig drwy bresenoldeb yn y pwyllgor ond drwy drafodaethau gydag Aelodau a'r Cadeirydd, yn ogystal â thrwy gyfarfodydd un-i-un gyda'r archwilydd cyffredinol i sicrhau ein bod yn cael y Bil hwn iawn ac yn delio â'r heriau. Byddaf yn ystyried y pwyntiau a wnaed yn y ddadl hon yn ofalus iawn, a byddaf yn ymateb ar hyn o bryd i'r rhai y gallaf eu hateb yn effeithiol.

4.15 p.m.

It is important to go back to the point that I made about independence in my opening remarks. This point was made by the Chair of the Public Accounts Committee and other Members this afternoon. This is a robust governance structure that recognises the need and provides for the Auditor General for Wales to retain his or her operational audit independence. Those are the key words: operational audit independence. Julie Morgan has drawn attention so effectively to the challenge that we have in considering who should guard the guardians. Jenny Rathbone drew attention to this as well. As Julie Morgan said, in considering this Bill, we have had to look at a balance between independence and accountability. I am grateful for the recognition across the Chamber today and from the Public Accounts Committee of the need for that transparency in terms of that all-important operational audit independence, to ensure that we have a robust governance structure for this all-important public audit function for Wales.

Mae'n bwysig mynd yn ôl at y pwynt a wneuthum am annibyniaeth yn fy sylwadau agoriadol. Gwnaed y pwynt hwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Aelodau eraill y prynhawn yma. Mae hwn yn strwythur llywodraethu cadarn sy'n cydnabod yr angen ac yn darparu at weld Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadw ei annibyniaeth neu ei hannibyniaeth archwilio gweithredol. Dyna'r geiriau allweddol: annibyniaeth archwilio gweithredol. Mae Julie Morgan wedi tynnu sylw mor effeithiol at yr her sydd gennym wrth ystyried pwy ddylai warchod y gwarcheidwaid. Tynnodd Jenny Rathbone sylw at hyn yn ogystal. Fel y dywedodd Julie Morgan, wrth ystyried y Bil hwn, rydym wedi gorfod edrych ar gydbwysedd rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd. Rwy'n ddiolchgar am y gydnabyddiaeth ar draws y Siambr heddiw a chan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am yr angen ar gyfer y tryloywder o ran yr annibyniaeth archwilio gweithredol hollbwysig, er mwyn sicrhau bod gennym

strwythur llywodraethu cadarn ar gyfer y swyddogaeth archwilio cyhoeddus hollbwysig hon i Gymru.

In responding to the points made by Members today, it is important that we look at those issues where there is much common ground and where we can make progress. On the issues raised by Jocelyn Davies, Julie Morgan and Aled Roberts in terms of staff transfers, I have written today on this matter to the Chair and I am glad that that letter has been circulated to Members. Responding to recommendations 13 and 14, I make it very clear that we need to ensure that the terms on which staff can transfer will be no less favourable than their current terms. The Cabinet Office statement of practice on staff transfers in the public sector is very valuable on this point. Indeed, we have examples relating to this point, which I have shared with the Chair of the committee and Members. It is therefore a critical point that we need to look at very carefully.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a wnaed gan Aelodau heddiw, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y materion hynny lle mae llawer o dir cyffredin a lle gallwn wneud cynnydd. O ran y materion a godwyd gan Jocelyn Davies, Julie Morgan ac Aled Roberts ynghylch trosglwyddo staff, rwyf wedi ysgrifennu heddiw ar y mater hwn at y Cadeirydd ac rwy'n falch bod y llythyr wedi cael ei ddosbarthu i'r Aelodau. Wrth ymateb i argymhellion 13 a 14, rwyf yn ei gwneud yn glir bod angen i ni sicrhau y bydd y telerau ar gyfer staff yn trosglwyddo yn ddim llai ffafriol na'u telerau presennol. Mae datganiad ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar drosglwyddiadau staff yn y sector cyhoeddus yn werthfawr iawn ar y pwynt hwn. Yn wir, mae gennym enghreifftiau yn ymwneud â'r pwynt hwn, yr wyf wedi eu rhannu gyda Chadeirydd y pwyllgor ac Aelodau. Felly, mae'n bwynt hollbwysig y mae angen i ni edrych arno'n ofalus iawn.

There is also a recommendation, as the Chair of the Public Accounts Committee raised, about the size of the WAO board. I am considering the recommendation from the committee at this point.

Mae argymhelliad hefyd, fel y cododd Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ynglŷn â maint bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Rwy'n ystyried yr argymhelliad gan y pwyllgor ar y pwynt hwn.

Points have also been made in terms of recommendation 17 about taxation, as highlighted by Aled Roberts. We have taken advice that there will not be any significant tax liability. We have now heard from the auditor general on this matter, indicating that he now takes the view that any tax liability will not be significant.

Mae pwyntiau hefyd wedi cael eu gwneud o ran argymhelliad 17 ynghylch trethiant, fel yr amlygwyd gan Aled Roberts. Rydym wedi cael cyngor na fydd unrhyw atebolrwydd treth sylweddol. Rydym wedi clywed erbyn hyn gan yr archwilydd cyffredinol am y mater hwn, yn nodi ei fod yn awr o'r farn na fydd unrhyw atebolrwydd treth yn sylweddol.

There are important points to make in terms of other recommendations, which would be helpful to share in the Assembly today. On recommendations 15 and 16, there is nothing in the Bill that will prevent the Auditor General for Wales from continuing, for example, to participate in the national fraud initiative. However, if we need to make the position absolutely clear, we could consider bringing forward an amendment to that end.

Mae pwyntiau pwysig i'w gwneud o ran argymhellion eraill, y byddai'n ddefnyddiol i'w rhannu yn y Cynulliad heddiw. Ar argymhellion 15 a 16, nid oes dim yn y Bil a fydd yn atal Archwilydd Cyffredinol Cymru rhag parhau, er enghraifft, i gymryd rhan yn y fenter twyll genedlaethol. Fodd bynnag, os bydd angen i ni wneud y sefyllfa yn hollol glir, gallem ystyried cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw.

In relation to recommendation 2, as I have

Mewn perthynas ag argymhelliad 2, fel y

said, it is important that section 21 places a duty on the Wales Audit Office to provide resources for the exercise of the auditor general's functions, as required by the auditor general. That includes the WAO employing staff and securing services to assist the auditor general. As the employer and the budget holder, we consider it reasonable and sensible for the WAO, with the auditor general as its chief officer, to be able to consider and approve how its resources are to be deployed under a scheme of delegation made by the Auditor General for Wales. In these circumstances, the likelihood of the WAO seeking to restrict the auditor general's discretion is remote. I will be considering bringing forward a suitable Welsh Government amendment at Stage 2 of the Bill to address this concern, in relation to the point made about section 18(2) in terms of any concerns about limiting discretion. That is an important point for us to look at very carefully.

dywedais, mae'n bwysig bod adran 21 yn gosod dyletswydd ar Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu adnoddau ar gyfer ymarfer swyddogaethau'r archwilydd cyffredinol, fel sy'n ofynnol gan yr archwilydd cyffredinol. Mae hynny'n cynnwys Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff a sicrhau gwasanaethau i gynorthwyo'r archwilydd cyffredinol. Fel y cyflogwr a deiliad y gyllideb, rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol ac yn synhwyrol i Swyddfa Archwilio Cymru, gyda'r archwilydd cyffredinol fel ei phrif swyddog, i fod yn gallu ystyried a chymeradwyo sut y mae ei hadnoddau yn cael eu defnyddio o dan gynllun dirprwyo a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r tebygolrwydd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cyfyngu ar ddisgresiwn yr archwilydd cyffredinol yn fach. Byddaf yn ystyried cyflwyno gwelliant Llywodraeth Cymru addas yn ystod Cam 2 y Bil i fynd i'r afael â'r pryder hwn, mewn perthynas â'r pwynt a wnaed am adran 18 (2) o ran unrhyw bryderon am gyfyngu disgresiwn. Mae hwnnw'n bwynt pwysig i ni edrych arno'n ofalus iawn.

I am glad that Aled Roberts and Julie Morgan—and this has been reflected today in the debate—raised the recommendation on bringing forward a code of practice:

Rwy'n falch bod Aled Roberts a Julie Morgan—ac mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y ddadl heddiw—wedi codi'r argymhelliad ar gyflwyno cod ymarfer:

'for the purposes of giving effect to section 8'.

at ddibenion rhoi grym i adran 8.

I am minded to accept this recommendation and I have asked my officials to work up a suitable amendment for my consideration.

Rwy'n bwriadu derbyn yr argymhelliad hwn ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion lunio gwelliant addas ar gyfer fy ystyriaeth.

Finally, in terms of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report regarding audit arrangements for chief constables in Wales, the Welsh Government is of the view that provision to make the auditor general the statutory auditor of chief constables is within competence. Currently, police authorities are audited by auditors appointed by the AGW under section 30 of the Public Audit (Wales) Act 2004. It is the Welsh Government's intention to make the auditor general the statutory auditor of all local government bodies in Wales. In relation to the statutory auditing role, it would not make sense to have that for all such bodies

Yn olaf, o ran adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch trefniadau archwilio ar gyfer prif gwnstabliaid yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddarpariaeth i wneud yr archwilydd cyffredinol yr archwilydd statudol o brif gwnstabliaid o fewn cymhwysedd. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau heddlu yn cael eu harchwilio gan archwilwyr a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i wneud yr archwilydd cyffredinol yr archwilydd statudol ar holl gyrff llywodraeth

and not for chief constables, because those audit systems operate in respect of police bodies and we need the efficiency and effectiveness of that arrangement. However, we will work through this in terms of developments to secure the competence. We are of the view that we have the competence. I also say to the chair of the Public Accounts Committee that, for the wider proposed consolidation and simplification sections of the Bill, we will seek appropriate legislative opportunity to take this forward.

leol yng Nghymru. Mewn perthynas â rôl archwilio statudol, ni fyddai'n gwneud synnwyr i gael hynny ar gyfer pob corff o'r fath ac nid ar gyfer prif gwnstabliaid, oherwydd bod y systemau archwilio yn gweithredu mewn perthynas â chyrff yr heddlu ac mae angen effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniant hwnnw arnom. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio drwy hyn o ran datblygiadau i sicrhau cymhwysedd. Rydym o'r farn bod y cymhwysedd gennym. Rwyf hefyd yn dweud wrth gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ar gyfer adrannau ehangach cyfuno a symleiddio arfaethedig y Bil, y byddwn yn ceisio cyfle deddfwriaethol priodol i weithredu.

Finally, we will move on, after this debate, to the financial resolution to the Bill —indeed, I will move the motion to approve the financial resolution. However, to reassure Members, in establishing the estimates, advice was sought from key Welsh Government officials on the remuneration of similar public sector corporate boards operating in Wales, so I am confident that the costs provide the best available estimate at present. The Welsh Government's proposed costs take account of potential annual variations in costs and we consider that there is a sufficient contingency in place. Of course, I am content to revisit the regulatory impact assessment at the end of Stage 2, taking into account the committee's comments and the impact of changes brought about by amendments. So, I am very pleased that the Public Accounts Committee is content to move forward to Stage 2 and I feel that this has been a helpful debate in terms of my ability to take this forward in partnership with Assembly Members.

Yn olaf, byddwn yn symud ymlaen, ar ôl y ddadl hon, at y penderfyniad ariannol i'r Bil—yn wir, byddaf yn gwneud y cynnig i gymeradwyo'r penderfyniad ariannol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau Aelodau, wrth sefydlu'r amcangyfrifon, gofynnwyd am gyngor gan swyddogion allweddol Llywodraeth Cymru ar dâl byrddau corfforaethol sector cyhoeddus tebyg sy'n gweithredu yng Nghymru, felly rwy'n hyderus bod y costau yn rhoi'r amcangyfrif gorau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae costau arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ystyried amrywiadau blynyddol posibl mewn costau, ac rydym yn ystyried bod digon wrth gefn ar gael. Wrth gwrs, rwy'n fodlon ailedrych ar yr asesiad o effaith rheoleiddiol ar ddiwedd Cam 2, gan ystyried sylwadau'r pwyllgor ac effaith y newidiadau a achoswyd gan ddiwygiadau. Felly, rwy'n falch iawn bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn fodlon symud ymlaen i Gam 2, ac rwy'n teimlo bod hon wedi bod yn ddadl ddefnyddiol o ran fy ngallu i ddatblygu hyn mewn partneriaeth ag Aelodau'r Cynulliad.

**Angela Burns:** Thank you, Minister. The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Angela Burns:** Diolch ichi, Weinidog. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.23 p.m*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.23 p.m.*

## Cynnig i Gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
## Motion to Approve the Financial Resolution of the Public Audit (Wales) Bill

*Cynnig NDM5112 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii), sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**The Deputy Presiding Officer:** I do not have any speakers and I suspect that the Minister does not want to add to her formal moving of the motion. Therefore, the proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see that there is not. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Motion NDM5112 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Public Audit (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69(ii), arising in consequence of the Bill.*

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr ac rwy'n amau nad yw'r Gweinidog yn dymuno ychwanegu at ei chynnig ffurfiol o'r cynnig. Felly, y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, cytunwyd ar y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

## Y Gyllideb Flynyddol
## The Annual Budget

*Cynnig NDM5109 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:*

*Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ ar 27 Tachwedd 2012.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

Our final budget for 2013-14 sets out the actions that the Welsh Government is taking—in touch with the needs of our people and in tune with the economic imperative to deliver our ambitious agenda for Wales during the toughest of times.

*Motion NDM5109 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 20.25:*

*Approves the Annual Budget for the financial year 2013-2014 laid in the Table Office by the Minister for Finance and Leader of the House on 27 November 2012.*

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

Mae ein cyllideb derfynol ar gyfer 2013-14 yn nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd—mewn cysylltiad ag anghenion ein pobl ac mewn cytgord â'r rheidrwydd economaidd i gyflawni ein hagenda uchelgeisiol ar gyfer Cymru yn ystod yr adegau mwyaf anodd.

We recognise the need to reduce the budget deficit, but we have long opposed the scale and speed of the cuts imposed by the UK Government. Everything tells us that the economic and financial challenges are unlikely to abate. The Institute for Fiscal Studies' grim predictions for financial forecasting and their impact on the next spending review will have a huge impact on Wales—our economy, our businesses and our communities. The IFS is also predicting that austerity will now last until 2018, which is a daunting prospect. However, that means that it is more important than ever that we do not hold back and we continue to maximise the impact of the resources available to us to promote growth, and to create and sustain jobs. It also means that we must continue to invest in our vital public services and that we protect, as far as possible, the most vulnerable from the deepening financial pressures they are facing.

Rydym yn cydnabod yr angen i leihau'r diffyg yn y gyllideb, ond rydym ers amser wedi gwrthwynebu graddfa a chyflymder y toriadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Mae popeth yn dweud wrthym fod yr heriau economaidd ac ariannol yn annhebygol o leihau. Bydd rhagfynegiadau llym y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar gyfer rhagolygon ariannol a'u heffaith ar yr adolygiad nesaf o wariant yn cael effaith enfawr ar Gymru—ein heconomi, ein busnesau a'n cymunedau. Mae'r IFS hefyd yn rhagweld y bydd y llymder yn awr yn para tan 2018, sydd yn rhagolwg brawychus. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu ei bod yn bwysicach nag erioed nad ydym yn dal yn ôl ac rydym yn parhau i wneud y gorau o effaith yr adnoddau sydd ar gael i ni er mwyn hybu twf, ac i greu a chynnal swyddi. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i ni barhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a'n bod yn diogelu, cyn belled ag y bo modd, y rhai mwyaf agored i niwed rhag y pwysau ariannol cynyddol y maent yn eu hwynebu.

This is an approach that we have consistently impressed on the UK Government. Despite indications that the autumn statement will include a much-needed increase to capital investment, we will need to consider the overall impact on the Welsh budget once the detail is known tomorrow. We also remain concerned that this increased investment could be at the cost of further reductions to public services, which have already faced significant reductions over the spending review period.

Mae hwn yn ddull yr ydym wedi siarsio Llywodraeth y DU yn gyson yn ei gylch. Er gwaethaf arwyddion y bydd datganiad yr hydref yn cynnwys cynnydd mawr ei angen i fuddsoddiad cyfalaf, bydd angen i ni ystyried yr effaith gyffredinol ar gyllideb Cymru unwaith y bydd y manylion yn hysbys yfory. Rydym hefyd yn parhau i bryderu y gallai'r buddsoddiad cynyddol hwn fod ar draul gostyngiadau pellach i wasanaethau cyhoeddus, sydd eisoes wedi wynebu gostyngiadau sylweddol dros y cyfnod adolygu gwariant.

The distinct Welsh approach that we have taken has been strengthened by the open and constructive dialogue that we have had with our opposition parties around our priorities. As a result of our agreement with Plaid Cymru, this is borne out by the budget proposals before us today, which provide for additional funding of £20 million for 2013-14, with a similar indicative amount of £20 million in 2014-15, to extend support for apprenticeships in Wales to benefit young people and employers. The proposals provide £10 million to support the creation of a science, research and business facility led by

Mae'r dull Cymreig arbennig yr ydym wedi'i gymryd wedi cael ei gryfhau gan y ddeialog agored ac adeiladol yr ydym wedi'i chael â'n gwrthbleidiau ynghylch ein blaenoriaethau. O ganlyniad i'n cytundeb â Phlaid Cymru, mae hyn yn cael ei gadarnhau gan y cynigion cyllideb sydd o'n blaenau heddiw, sy'n darparu ar gyfer cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer 2013-14, gyda swm dangosol tebyg o £20 miliwn yn 2014-15, i estyn cymorth i brentisiaethau yng Nghymru er budd pobl ifanc a chyflogwyr. Mae'r cynigion yn darparu £10 miliwn i gefnogi creu cyfleuster gwyddoniaeth, ymchwil a

Bangor University in collaboration with Aberystwyth University. They also provide a reminder that the extra investment of £20 million that we agreed last year supports the most disadvantaged pupils by the establishment of the pupil deprivation grant. This is on top of this Welsh Labour Government's commitment to growing investment in schools by 1% above overall changes to the Welsh budget as a whole. We will also take forward the Welsh Liberal Democrats' proposals for a health technologies fund.

busnes a arweinir gan Brifysgol Bangor mewn cydweithrediad â Phrifysgol Aberystwyth. Maent hefyd yn ein hatgoffa bod y buddsoddiad ychwanegol o £20 miliwn a gytunwyd y llynedd yn cefnogi'r disgyblion mwyaf difreintiedig drwy sefydlu'r grant amddifadedd disgyblion. Mae hyn ar ben ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i fuddsoddiad cynyddol mewn ysgolion gan 1% uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i gyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd. Byddwn hefyd yn datblygu cynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am gronfa dechnolegau iechyd.

As we have consistently stated, enhancing investment in our infrastructure is key to supporting the economic recovery and to transforming public services. It is vital to the economy both in the short term, for the stimulus that it provides, and in providing the long-term conditions for growth. To make our position crystal clear, I raised this with the Chief Secretary to the Treasury at the finance Ministers quadrilateral meeting in November, and I urged the UK Government to take swift and decisive action to increase capital investment in projects that create jobs quickly and make a lasting difference to our economy. I highlighted a number of shovel-ready projects in the Wales infrastructure investment plan that could benefit from earlier and increased investment. I said that additional support through the autumn statement tomorrow would boost our budget for growth and jobs. Wales is already leading the way in efforts to support the economy, and we are doing this by maximising investment opportunities during these challenging times.

Fel yr ydym wedi datgan yn gyson, mae gwella buddsoddiad yn ein seilwaith yn allweddol i gefnogi'r adferiad economaidd ac i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n hanfodol i'r economi yn y tymor byr, ar gyfer yr ysgogiad y mae'n eu darparu, ac mewn darparu'r amodau tymor hir ar gyfer twf. Er mwyn gwneud ein safbwynt yn hollol glir, codais hyn gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn y cyfarfod cyllid Gweinidogion pedairochrog ym mis Tachwedd, ac rwy'n annog Llywodraeth y DU i gymryd camau cyflym a phendant i gynyddu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau sy'n creu swyddi'n gyflym ac yn gwneud gwahaniaeth parhaol i'n heconomi. Tynnais sylw at nifer o brosiectau cwbl barod yn y cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru a allai elwa o fuddsoddiad cynharach a mwy. Dywedais y byddai cymorth ychwanegol drwy ddatganiad yr hydref yfory yn rhoi hwb i'n cyllideb ar gyfer twf a swyddi. Mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd mewn ymdrechion i gefnogi'r economi, ac rydym yn gwneud hyn drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi yn ystod y cyfnod heriol hwn.

That is why we announced additional capital allocations of £175 million in the draft budget, including additional funding for schools and transport, and, in the final budget last week, an additional £46.7 million capital investment, including £16.7 million to support the use of public sector land for housing and £30 million for the Wales economic growth fund. This brings the additional capital investment over the next two years in support of our infrastructure

Dyna pam y cyhoeddwyd dyraniadau cyfalaf ychwanegol gennym o £175 miliwn yn y gyllideb ddrafft, gan gynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion a thrafnidiaeth, ac, yn y gyllideb derfynol yr wythnos diwethaf, £46.7 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad cyfalaf, gan gynnwys £16.7 miliwn i gefnogi'r defnydd o dir y sector cyhoeddus ar gyfer tai a £30 miliwn ar gyfer cronfa twf economaidd Cymru. Mae hyn yn dod â'r buddsoddiad cyfalaf ychwanegol dros

priorities to more than £220 million, creating or sustaining over 4,000 jobs across Wales.

y ddwy flynedd nesaf i gefnogi ein blaenoriaethau seilwaith i fwy na £220 miliwn, gan greu neu gynnal dros 4,000 o swyddi ledled Cymru.

However, I have also been clear that, because of the cuts in our capital budget, there is a strong case for supplementing capital with additional resources. When I published the Wales infrastructure investment plan in May, I set out plans to invest over £1 billion through innovative finance between now and 2020. This £1 billion includes investment in our innovative waste programme and the Welsh housing partnership. It includes support for business and enterprise, like the JEREMIE and small and medium-sized enterprises funds, and the initial phase of the local government borrowing initiative, which will see around £170 million of additional investment in highways in all parts of Wales over the next three years, generating demand in local supply chains and creating or safeguarding up to 900 jobs in this financial year alone.

Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi bod yn glir, oherwydd y toriadau yn ein cyllideb cyfalaf, bod achos cryf dros gynyddu'r cyfalaf gydag adnoddau ychwanegol. Pan gyhoeddais gynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru ym mis Mai, nodais gynlluniau i fuddsoddi dros £1 biliwn drwy gyllid arloesol rhwng nawr a 2020. Mae'r £1 biliwn hwn yn cynnwys buddsoddi yn ein rhaglen wastraff arloesol a phartneriaeth tai Cymru. Mae'n cynnwys cymorth ar gyfer busnes a menter, fel y JEREMIE a chronfeydd mentrau bach a chanolig, a chyfnod cychwynnol y fenter benthyca llywodraeth leol, a fydd yn gweld tua £170 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn priffyrdd ym mhob rhan o Gymru dros y tair blynedd nesaf, gan greu galw mewn cadwyni cyflenwi lleol a chreu neu ddiogelu hyd at 900 o swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol hon yn unig.

We have always been clear that we want and need to do more. Today, I am able to announce a substantial investment boost for Wales. Over the course of the next year, we will develop a major new innovative investment programme, at the vanguard of which will be two new initiatives that will take our innovative investment to over £1.5 billion between now and 2020, on top of our £1.3 billion annual capital programme. First, in partnership with local government, we will accelerate delivery of the twenty-first century schools programme in a second phase of the local government borrowing initiative. Between 2014-15 and 2016-17, £200 million of additional investment in schools across Wales will be provided, delivering the programme by 2018-19, two years ahead of schedule.

Rydym bob amser wedi bod yn glir ein bod eisiau a bod angen inni wneud mwy. Heddiw, rwy'n gallu cyhoeddi hwb buddsoddiad sylweddol i Gymru. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu rhaglen fuddsoddi arloesol newydd bwysig, ac yn flaenllaw yn y rhaglen bydd dwy fenter newydd a fydd yn mynd â'n buddsoddiad arloesol dros £1.5 biliwn rhwng nawr a 2020, ar ben ein rhaglen gyfalaf flynyddol o £1.3 biliwn. Yn gyntaf, mewn partneriaeth â llywodraeth leol, byddwn yn cyflymu darpariaeth y rhaglen ysgolion unfed ganrif ar hugain mewn ail gam i fenter benthyca llywodraeth leol. Rhwng 2014-15 ac yn 2016-17, bydd £200 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol mewn ysgolion ledled Cymru yn cael ei ddarparu, gan gyflwyno'r rhaglen erbyn 2018-19, ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl.

4.30 p.m.

Secondly, we will invest £300 million in sections 5 and 6 of the A465, starting in 2016, using a non-dividend investment mechanism. This will mean having a dual carriageway along the full length of the Heads of the Valleys road, the A465, before 2020, enhancing the links between businesses

Yn ail, byddwn yn buddsoddi £300 miliwn yn adrannau 5 a 6 yr A465, gan ddechrau yn 2016, gan ddefnyddio mecanwaith buddsoddi di-ddifidend. Bydd hyn yn golygu cael ffordd ddeuol ar hyd ffordd Blaenau'r Cymoedd, yr A465, cyn 2020, gan wella cysylltiadau rhwng busnesau a chymunedau a rhoi hwb i

and communities and boosting the growth prospects of some of the most deprived areas of Wales. We will undertake the project using a non-dividend financing mechanism that will work for Wales. I will also be considering the case for this type of innovative transport infrastructure investment in north Wales.

ragolygon twf rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Byddwn yn ymgymryd â'r prosiect gan ddefnyddio mecanwaith ariannu di-ddifidend a fydd yn gweithio dros Gymru. Byddaf hefyd yn ystyried yr achos dros y math hwn o fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth arloesol yng ngogledd Cymru.

Adding these initiatives to the £220 million of additional capital investment set out in the final budget means that we are committing almost £0.75 billion to the Welsh economy and public services. This demonstrates this Government's commitment to job creation and sustainable, long-term growth. Our plans are ambitious and innovative but they demonstrate that Wales can lead the way with a strong budget for growth and jobs. I believe that this budget is built on a strong measure of consensus across the Chamber, as we seek to serve the wider economic and social needs of Wales and deliver robust outcomes in the toughest of times. I call this Assembly to support the annual budget motion.

Bydd ychwanegu'r mentrau hyn at y £220 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol a nodwyd yn y gyllideb derfynol yn golygu ein bod yn ymrwymo bron i £0.75 biliwn i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i greu swyddi a thwf cynaliadwy, tymor hir. Mae ein cynlluniau yn uchelgeisiol ac yn arloesol, ond maent yn dangos y gall Cymru arwain y ffordd gyda chyllideb gref ar gyfer twf a swyddi. Rwy'n credu bod y gyllideb hon yn cael ei hadeiladu ar fesur cryf o gonsensws ar draws y Siambr, wrth i ni geisio gwasanaethu anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach Cymru a chyflawni canlyniadau cadarn yn yr adegau mwyaf anodd. Rwy'n galw ar y Cynulliad hwn i gefnogi'r cynnig cyllideb flynyddol.

**Paul Davies:** Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i ymateb i gyllideb y Llywodraeth y prynhawn yma ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Fel rwyf wedi dweud eisoes yn y Siambr, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyllideb hon o dan amgylchiadau ariannol anodd. Felly, mae hyd yn oed yn bwysicach inni sicrhau bod yr arian sy'n cael ei wario yn cael ei wario'n effeithiol, a sicrhau ein bod yn gweld canlyniadau go iawn a chanlyniadau gwell i bobl Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn gwario arian yn y meysydd sy'n bwysig i bobl Cymru. Felly, ni fydd yn syndod i chi ein bod ni, ar ochr hon y Siambr, yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio gwariant arian y trethdalwyr ar iechyd, addysg a'r economi. Dyna yw blaenoriaethau pobl Cymru.

**Paul Davies:** I am grateful for the opportunity to respond to the Government's budget this afternoon on behalf of the Welsh Conservatives. As I have already said in the Chamber, the Welsh Government has laid this budget in difficult economic circumstances. Therefore, it is even more important for us to ensure that money is spent effectively, and to ensure that we see real results, and better results, for the people of Wales. It is vital that we spend money in areas that are important for the people of Wales. Therefore, it will come as no surprise to you that we on this side of the Chamber believe that the Welsh Government should focus the spending of taxpayers' money on health, education and the economy. Those are the priorities for the people of Wales.

Following on from the Minister's publication of the final budget for 2013-14 last week, it will come as no great shock to the Minister that we, on this side of the Chamber, still believe that the budget, in its current form, is not fit for purpose. We believe that it clearly does not address the needs of the people of

Yn dilyn ymlaen o gyhoeddiad y Gweinidog ar y gyllideb derfynol ar gyfer 2013-14 yr wythnos diwethaf, ni fydd yn syndod mawr i'r Gweinidog ein bod ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, yn dal i gredu nad yw'r gyllideb, ar ei ffurf bresennol, yn addas i'r diben. Rydym yn credu ei bod yn amlwg nad yw'n mynd i'r

Wales. In the Minister's statement accompanying the final budget document, she states that there is

'no overriding evidence emerging from the scrutiny of the draft budget 2013-14 to suggest that we should fundamentally alter our spending plans'.

I simply cannot accept that argument. It is worth reminding the Chamber that the Assembly's Health and Social Care Committee has said again this year, in a letter to the Finance Committee, that

'the Committee continues to have concerns about the Welsh Government's ability to deliver its programme for government commitments in relation to health and social services from within the current allocation'.

In further evidence, the Assembly's Finance Committee has also specified its concerns that it is unconvinced that local health boards will come in on budget this year. In addition, the Royal College of Nursing has also endorsed our fears over the Government's health budget, with its director, Tina Donnelly, saying that the health budget should be protected. Even the Scottish Labour leader, Johann Lamont, has come round to our way of thinking. She has been criticising the Scottish Government for imposing a real-terms cut in the Scottish health budget. How much more overriding evidence does this Government need to change course? In fact, there are even senior people within the health service itself now questioning current spending on the Welsh NHS. Giving evidence to the Public Accounts Committee, the chief executive of the Welsh NHS, David Sissling, called Wales Audit Office forecasts of NHS funding realistic, following an updated report in which the Wales Audit Office predicted a most likely deficit of almost £70 million in the current financial year. The truth is that our health boards cannot cope with this Government's record-breaking cuts.

It is extremely disappointing that there are

afael ag anghenion pobl Cymru. Yn natganiad y Gweinidog gyda'r ddogfen gyllideb derfynol, mae hi'n dweud nad oes

unrhyw dystiolaeth hollbwysig sy'n dod i'r amlwg o graffu ar y gyllideb ddrafft 2013-14 i awgrymu y dylem newid ein cynlluniau gwario yn sylfaenol.

Ni allaf dderbyn y ddadl honno. Mae'n werth atgoffa'r Siambr bod Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad wedi dweud unwaith eto eleni, mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid, fod

y Pwyllgor yn parhau i fod â phryderon ynghylch gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei rhaglen ar gyfer ymrwymiadau llywodraeth mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol o fewn y dyraniad presennol.

Mewn tystiolaeth bellach, mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad wedi nodi hefyd ei bryderon nad yw'n argyhoeddedig y bydd byrddau iechyd lleol yn cadw at eu cyllideb eleni. Yn ogystal, mae Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi cadarnhau hefyd ein hofnau dros gyllideb iechyd y Llywodraeth, gyda'i gyfarwyddwr, Tina Donnelly, yn dweud y dylai'r gyllideb iechyd gael ei diogelu. Mae hyd yn oed arweinydd Llafur yr Alban, Johann Lamont, wedi dod i dderbyn ein ffordd ni o feddwl. Mae hi wedi bod yn beirniadu Llywodraeth yr Alban am wneud toriadau mewn termau real yng nghyllideb iechyd yr Alban. Faint mwy o dystiolaeth bwysig sydd ei hangen ar y Llywodraeth hon i newid cwrs? Yn wir, mae hyd yn oed pobl uwch o fewn y gwasanaeth iechyd ei hun bellach yn cwestiynu gwariant cyfredol ar y GIG yng Nghymru. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, galwodd prif weithredwr GIG Cymru, David Sissling, ragolygon Swyddfa Archwilio Cymru o ariannu'r GIG yn realistig, yn dilyn adroddiad wedi'i ddiweddaru lle'r oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhagweld diffyg fwyaf tebygol o bron i £70 miliwn yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Y gwir yw na all ein byrddau iechyd ymdopi â thoriadau neilltuol y Llywodraeth hon.

Mae'n siomedig iawn bod pobl eraill yn y

others in the Chamber willing to ensure that this budget is passed without any fundamental change. Plaid Cymru has now chosen to allow the Welsh Government's budget to pass. By doing so, it is, in effect, supporting Welsh Labour's cuts to the Welsh NHS budget. I accept that, as a result of budget negotiations, an additional £20 million has been allocated this year—and £20 million next year—for apprenticeships. I am sure that we would all agree that apprenticeships can play a vital role in reducing the high percentage of people not in education, employment or training in Wales. However, the narrative with this budget does not show us any further detail for this additional funding. There are no specific details or clarity. The Government must guarantee that this additional funding will result in an actual increase in the number of people attaining jobs at the end of their placements. Outcomes must be the priority.

Siambr yn barod i sicrhau bod y gyllideb hon yn cael ei phasio heb unrhyw newid sylfaenol. Mae Plaid Cymru wedi dewis caniatáu i gyllideb Llywodraeth Cymru basio. Drwy wneud hynny, y mae, mewn gwirionedd, yn cefnogi toriadau Llafur Cymru i gyllideb GIG Cymru. Rwy'n derbyn, o ganlyniad i drafodaethau cyllideb, bod swm ychwanegol o £20 miliwn wedi cael ei ddyrannu eleni—a £20 miliwn y flwyddyn nesaf—ar gyfer prentisiaethau. Rwy'n siŵr y byddem oll yn cytuno y gall prentisiaethau chwarae rhan hanfodol o ran lleihau'r ganran uchel o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r naratif gyda'r gyllideb hon yn dangos unrhyw fanylion pellach i ni am y cyllid ychwanegol. Nid oes unrhyw fanylion penodol neu eglurder. Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn arwain at gynnydd gwirioneddol yn nifer y bobl sy'n cael swyddi ar ddiwedd eu lleoliadau. Rhaid i'r canlyniadau fod yn flaenoriaeth.

The Government must ensure that every penny of Welsh taxpayers' money is spent wisely, and that real outcomes are achieved for the people of Wales. It is crucial that the Welsh Government ensures that any spending through this Assembly is efficient and effective, delivering real value for money for the people of Wales. As it stands, this budget does not meet the needs of the people of Wales. Individuals, businesses, independent organisations and members of all political parties, through committee reports, have expressed huge concerns about this budget, so I urge Members to vote against this budget, and let us draw up a budget that will meet the needs of the people of Wales.

Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod pob ceiniog o arian trethdalwyr Cymru yn cael ei gwario'n ddoeth, a bod canlyniadau go iawn yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw wariant drwy'r Cynulliad hwn yn effeithlon ac yn effeithiol, gan ddarparu gwerth gwirioneddol am arian i bobl Cymru. Fel y saif, nid yw'r gyllideb hon yn diwallu anghenion pobl Cymru. Mae unigolion, busnesau, sefydliadau annibynnol ac aelodau o bob plaid wleidyddol, trwy adroddiadau pwyllgor, wedi mynegi pryder mawr am y gyllideb hon, felly rwy'n annog Aelodau i bleidleisio yn erbyn y gyllideb hon, a gadewch inni lunio cyllideb a fydd yn diwallu anghenion pobl Cymru.

**Leanne Wood:** Since being elected leader of Plaid Cymru last March, my focus has been the Welsh economy and jobs. This week's final budget in the Assembly and tomorrow's autumn statement in Westminster are, therefore, significant opportunities to change course in the economy. Unfortunately, the Welsh Government still only has limited job-creating levers at its disposal. Therefore, I give a cautious welcome to the non-dividend investment mechanism announced by the Minister this afternoon. Build for Wales was

**Leanne Wood:** Ers cael fy ethol yn arweinydd Plaid Cymru fis Mawrth diwethaf, fy ffocws fu economi Cymru a swyddi. Mae cyllideb derfynol yr wythnos hon yn y Cynulliad a datganiad yr hydref yfory yn San Steffan, felly, yn gyfleoedd sylweddol i newid cwrs yn yr economi. Yn anffodus, dim ond dulliau creu swyddi cyfyngedig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o hyd. Felly, rwy'n estyn croeso pwyllog i'r mecanwaith buddsoddi anweithredol di-ddifidend a gyhoeddwyd gan y Gweinidog y prynhawn

a Plaid Cymru manifesto pledge in the 2011 election, and it was there because we recognised the damage that would be done by cuts from Westminster to the block grant here. Plaid Cymru has consistently pushed for substantial borrowing-to-invest powers.

yma. Roedd adeiladu ar gyfer Cymru yn addewid ym maniffesto Plaid Cymru yn etholiad 2011, ac roedd yno oherwydd ein bod yn cydnabod y niwed a fyddai'n cael ei wneud gan y toriadau o San Steffan i'r grant bloc yma. Mae Plaid Cymru wedi gwthio'n gyson am bwerau sylweddol benthyca i fuddsoddi.

Local authorities can borrow against future income, yet the Assembly's borrowing powers are woefully limited. A not-for-distributable-profit company, the intention of Build for Wales was that any profits made by the company would be reinvested. Unlike the situation with the private finance initiative, the Welsh public sector would own the assets at the end. This mechanism is well overdue and we, therefore, look forward to more detailed information being brought forward on this proposal.

Gall awdurdodau lleol fenthyca yn erbyn incwm yn y dyfodol, ond mae pwerau benthyca'r Cynulliad yn druenus o gyfyngedig. Ac yntau'n gwmni dielw dosbarthiadwy, bwriad Adeiladu ar gyfer Cymru oedd y byddai unrhyw elw a wnaed gan y cwmni yn cael ei ail-fuddsoddi. Yn wahanol i'r sefyllfa gyda'r fenter cyllid preifat, byddai sector cyhoeddus Cymru yn berchen ar yr asedau ar y diwedd. Mae'r mecanwaith hwn yn hwyr iawn, ac rydym ni, felly, yn edrych ymlaen at fwy o wybodaeth fanwl yn cael ei dwyn ymlaen ar y cynnig hwn.

In coming to an agreement to provide £40 million of funding for apprenticeships in the next two years, and to pump prime a £10 million science park led by Bangor University, Plaid Cymru has achieved a good deal for young people in particular, but also for the wider economy. We now have an opportunity to attract further funding via EU money, and also via the private sector. Further detail on those projects will be available in the new year.

Wrth ddod i gytundeb i ddarparu £40 miliwn o gyllid ar gyfer prentisiaethau yn ystod y ddwy flynedd nesaf, ac i ysgogi parc gwyddoniaeth £10 miliwn a arweinir gan Brifysgol Bangor, mae Plaid Cymru wedi cyflawni bargen dda i bobl ifanc yn arbennig, ond hefyd ar gyfer yr economi ehangach. Mae gennym yn awr gyfle i ddenu cyllid pellach trwy arian yr UE, a hefyd drwy'r sector preifat. Bydd manylion pellach ar y prosiectau hyn ar gael yn y flwyddyn newydd.

However, the autumn statement is where real change can be made. It is clear that austerity is not working. Plaid Cymru has consistently said that the Government has to take the place of the private sector until the economy is in a position to improve. Hopefully, the UK Government will announce its thoughts for the Silk commission, and it should announce greater capital allowance support for Welsh enterprise zones, the devolution of business rates to Wales, borrowing powers without penalties to the block grant and the timetable for other tax devolution. The worrying change is the suggestion that benefits will rise in line with wages and not inflation. The idea is to make work pay, but if there are no jobs, you can use all of the sticks in the world but it will not get anyone into

Fodd bynnag, datganiad yr hydref yw lle y gellir gwneud newid gwirioneddol. Mae'n amlwg nad yw cynilo yn gweithio. Mae Plaid Cymru wedi dweud yn gyson bod rhaid i'r Llywodraeth gymryd lle'r sector breifat hyd nes y mae'r economi mewn sefyllfa i wella. Gyda lwc, bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei syniadau ar gyfer comisiwn Silk, a dylai gyhoeddi mwy o gymorth lwfans cyfalaf ar gyfer parthau menter Cymru, datganoli ardrethi busnes i Gymru, pwerau benthyca heb gosbau i'r grant bloc a'r amserlen ar gyfer datganoli trethi eraill. Y newid sy'n achosi pryder yw'r awgrym y bydd budd-daliadau'n codi yn unol â chyflogau ac nid chwyddiant. Y syniad yw gwneud i waith dalu, ond os nad oes swyddi, gallwch ddefnyddio pob dull yn y byd ond ni

work.

fydd yn cael unrhyw un i mewn i waith.

There are 50,000 more people in Wales searching for work now than there were five years ago. In addition, there are a further 50,000 people in Wales who are underemployed. That is why we want to see the Welsh Government have the incentive to do more about the economy and to take on more responsibility. We have one of the lowest GVA figures per head in the UK and the highest unemployment of any UK country, yet many of our young people are either looking for work or are underemployed, when they should be contributing the best years of their lives to improving themselves and the economy. Last week's report by the Institute for Public Policy Research states that the failure to redistribute money throughout the UK shows why the economic gap is growing. We cannot trust the Government at Westminster to do what is right for Wales. That is why we must have those job-creating powers here in Wales. I hope that that is what we will get in the autumn statement tomorrow.

Mae 50,000 o bobl yn fwy yng Nghymru yn chwilio am waith yn awr nag yr oedd bum mlynedd yn ôl. Yn ogystal, mae 50,000 o bobl yng Nghymru a dangyflogir. Dyna pam yr ydym am weld Llywodraeth Cymru yn cael y cymhelliant i wneud mwy ynghylch yr economi ac i gymryd mwy o gyfrifoldeb. Mae gennym un o'r ffigurau GYC isaf y pen yn y DU a'r diweithdra uchaf o unrhyw wlad yn y DU, ac eto mae llawer o'n pobl ifanc naill ai yn chwilio am waith neu yn cael eu tangyflogi, pryd y dylent fod yn cyfrannu blynyddoedd gorau eu bywydau i wella eu hunain a'r economi. Mae adroddiad yr wythnos diwethaf gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn datgan bod y methiant i ailddosbarthu arian ar draws y DU yn dangos pam fod y bwlch economaidd yn tyfu. Ni allwn ymddiried yn y Llywodraeth yn San Steffan i wneud yr hyn sy'n iawn i Gymru. Dyna pam mae'n rhaid inni gael y pwerau creu swyddi yma yng Nghymru. Gobeithiaf mai dyna beth y byddwn yn ei gael yn natganiad yr hydref yfory.

**Mike Hedges:** All budgets need to be looked at in the context of the Government's financial position. We are seeing a substantial real-terms reduction in public expenditure in Britain by the Conservative-Liberal Democrat coalition at Westminster. Wales is obviously affected by this. The UK is part way through a significant real-terms reduction in Government expenditure. The financial crisis of the late 2000s caused by the banks and other financial institutions, and the associated recession, has been followed by only a very modest economic recovery. Indeed, economic output is estimated to have shrunk between the fourth quarter of 2011 and the second quarter of 2012, putting the UK back into recession, and there was only a small improvement in the third quarter.

**Mike Hedges:** Mae angen edrych ar bob cyllideb yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y Llywodraeth. Rydym yn gweld gostyngiad sylweddol termau real mewn gwariant cyhoeddus ym Mhrydain gan y glymblaid Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Effeithir ar Gymru yn amlwg gan hyn. Mae'r DU ran o'r ffordd drwy ostyngiad sylweddol termau real mewn gwariant y Llywodraeth. Mae argyfwng ariannol y 2000au hwyr a achoswyd gan y banciau a sefydliadau ariannol eraill, a'r dirwasgiad cysylltiedig, wedi cael ei ddilyn gan adferiad economaidd cymedrol iawn yn unig. Yn wir, amcangyfrifir bod allbwn economaidd wedi crebachu rhwng pedwerydd chwarter 2011 ac ail chwarter 2012, gan roi'r DU yn ôl i mewn i ddirwasgiad, a dim ond gwelliant bychan a gafwyd yn y trydydd chwarter.

Most of the increases in tax and the reductions in investment spending are due to have happened by the end of the current financial year, but the majority of the reduction in investment in expenditure on public services as a proportion of national income—almost three quarters—is still to

Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn treth a'r gostyngiadau mewn gwariant buddsoddi i fod wedi digwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, ond mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad yn y buddsoddiad mewn gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel cyfran o incwm cenedlaethol—bron i dri chwarter—

come; those are not my words, but those of the Institute for Fiscal Studies. Thus it can be seen that this budget has been set during a challenging time. People are losing their jobs and prices are rising, but household incomes are not rising. Markets across the world are in tumult. Many European Union countries that are members of the euro—some parties here were very much in favour of the euro at one time—are seeing continual crisis and cuts in public expenditure and living standards.

yn dal heb ddod; nid fy ngeiriau yw'r rhain, ond geiriau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Felly gellir gweld bod y gyllideb hon wedi cael ei gosod yn ystod cyfnod heriol. Mae pobl yn colli eu swyddi a phrisiau yn codi, ond nid yw incwm y cartref yn codi. Mae marchnadoedd ar draws y byd mewn cynnwrf. Mae llawer o wledydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n aelodau o'r ewro—roedd rhai pleidiau yma o blaid yr ewro yn fawr iawn ar un pryd—yn gweld argyfwng parhaus a thoriadau mewn gwariant cyhoeddus a safonau byw.

As a result of the Tory-led UK Government's cuts, by 2014-15, the Welsh Government's revenue budget will be £2.1 billion lower in real terms than it was in 2009-10. At the same time, the capital budget will be 45% lower in real terms than its peak in 2009-10, at about the same level as in 2005-06. The capital budget is what puts money into the Welsh economy. That is what stimulates growth. That is what gets the private sector moving. It is the key to benefiting the people of Wales in getting back to work.

O ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid, erbyn 2014-15, bydd cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru £21.1 biliwn yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2009-10. Ar yr un pryd, bydd y gyllideb gyfalaf 45% yn is mewn termau real na'i uchafbwynt yn 2009-10, ar tua'r un lefel ag yn 2005-06. Y gyllideb gyfalaf yw'r hyn sy'n rhoi arian yn economi Cymru. Dyna beth sy'n ysgogi twf. Dyna beth sy'n cael y sector preifat i symud. Dyma'r allwedd i roi budd i bobl Cymru mewn mynd yn ôl i weithio.

I support this budget because it is fair and balanced and continues to use all the levers available to stimulate the economy. Growth and jobs remain Welsh Labour's priority, and since approval of the final budget for 2012-13 last December, the Welsh Government has continued to take action to support businesses in Wales, to provide a further economic stimulus, working for Wales. That is why the Welsh Government's annual budget for 2013-14 gives an additional £220 million to capital allocations, to go towards key infrastructure projects. It supports capital investment throughout Wales as a key lever for delivering modern public services and for providing investment in the economy, thereby creating growth and getting people back into work.

Rwy'n cefnogi'r gyllideb hon gan ei bod yn deg ac yn gytbwys ac yn parhau i ddefnyddio pob dull sydd ar gael i ysgogi'r economi. Mae twf a swyddi yn aros yn flaenoriaeth i Lafur Cymru, ac ers cymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2012-13 fis Rhagfyr diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gymryd camau i gefnogi busnesau yng Nghymru, i ddarparu ysgogiad economaidd pellach, gan weithio dros Gymru. Dyna pam mae cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn rhoi swm ychwanegol o £220 miliwn i ddyraniadau cyfalaf, i fynd tuag at brosiectau seilwaith allweddol. Mae'n cefnogi buddsoddiad cyfalaf ledled Cymru fel dull allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus modern ac ar gyfer darparu buddsoddiad yn yr economi, gan greu twf a chael pobl yn ôl i mewn i waith.

We have seen a huge increase—£65 million—to improve transport, with £10 million for telecommunications. There is £43 million for hospitals and the Flying Start initiative, with £25 million going to improve the quality of our schools and colleges, and

Rydym wedi gweld cynnydd enfawr—£65 miliwn i wella trafnidiaeth, gyda £10 miliwn ar gyfer telathrebu. Mae £43 miliwn ar gyfer ysbytai a'r fenter Dechrau'n Deg, ac mae £25 miliwn yn mynd i wella ansawdd ein hysgolion a'n colegau, a bydd £10 miliwn yn

£10 million will be allocated to protect properties in Wales from the risk of flooding. This is good expenditure for the benefit of Wales, across Wales.

cael ei ddyrannu i ddiogelu eiddo yng Nghymru rhag y perygl o lifogydd. Mae hyn yn wariant da er lles Cymru, ar draws Cymru.

There are alternatives. Let us bust some myths. Last week, the Conservatives criticised grants, but they are the lifeblood of a lot of important organisations, including the Higher Education Funding Council for Wales. Central administration in education can, apparently, be cut, but what does that include? It includes home-to-school transport, employment training, educational welfare officers, education other than in school, legal, financial and personnel services and, more importantly, the building of school buildings and payment for them. On health, I just cannot accept the Conservative Party, which opposed the setting up of the national health service in the beginning—[*Interruption.*]—and which is engaged in large-scale privatisation in England, as the champion of the NHS in Wales. Ring-fencing the health budget in the way that the Tories have suggested would lead to consequential cuts in other budgets, such as social services—[*Interruption.*]

Mae dewisiadau eraill. Gadewch i ni chwalu rhai mythau. Yr wythnos diwethaf, roedd y Ceidwadwyr yn beirniadu grantiau, ond dyma enaid llawer o sefydliadau pwysig, gan gynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Gellir, mae'n debyg, torri gweinyddiaeth ganolog mewn addysg, ond beth mae hynny'n ei gynnwys? Mae'n cynnwys cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, hyfforddiant cyflogaeth, swyddogion lles addysg, addysg mewn llefydd heblaw ysgol, gwasanaethau cyfreithiol, ariannol a phersonél ac, yn bwysicach, codi adeiladau ysgol a thalu amdanynt. O ran iechyd, rwy'n methu'n lân â derbyn y Blaid Geidwadol, a wrthwynebodd sefydlu'r gwasanaeth iechyd gwladol yn y dechrau—*[Torri ar draws.]*—ac sy'n ymwneud â phreifateiddio ar raddfa fawr yn Lloegr, fel hyrwyddwr y GIG yng Nghymru. Byddai neilltuo'r gyllideb iechyd yn y ffordd y mae'r Torïaid wedi awgrymu yn arwain at doriadau mewn cyllidebau canlyniadol eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol—*[Torri ar draws.]*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. There is far too much sledging going on. I genuinely cannot hear what the Member is saying. The Member usually makes lucid contributions and I want to hear him.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae gormod o lawer o gecru yn digwydd. O ddifrif, ni allaf glywed yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud. Mae'r Aelod fel arfer yn gwneud cyfraniadau eglur ac rwyf am ei glywed.

**Mike Hedges:** Ring-fencing of the health budget, as the Tories have suggested, would lead to consequential cuts in other budgets, such as social services. It would include the housing budget, too, and those cuts would have a huge impact on the health and wellbeing of people in Wales.

**Mike Hedges:** Byddai neilltuo'r gyllideb iechyd, fel y mae'r Torïaid wedi awgrymu, yn arwain at doriadau canlyniadol mewn cyllidebau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol. Byddai'n cynnwys y gyllideb dai, hefyd, a byddai'r toriadau'n cael effaith enfawr ar iechyd a lles pobl yng Nghymru.

On social services and the need for home care and housing, I attended this morning's Public Accounts Committee meeting, where, in evidence, Betsi Cadwaladr University Local Health Board stressed the importance of social services to the frail and the elderly, to dementia sufferers and to those with mental health issues. The collaborative agenda in social services in north Wales was greeted by Betsi Cadwaladr as a great way forward,

O ran gwasanaethau cymdeithasol a'r angen am ofal cartref a thai, mynychais gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y bore yma, lle, mewn tystiolaeth, roedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol i bobl fregus ac i'r henoed, i ddioddefwyr dementia ac i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Cafodd yr agenda gydweithredol yn y gwasanaethau

while Cardiff and Vale University Local Health Board mentioned how important social care is to health. You cannot look at health in isolation. This budget makes the best use of the funds available. That is why it deserves to be supported.

cymdeithasol yng ngogledd Cymru ei chroesawu gan Betsi Cadwaladr fel ffordd wych ymlaen, tra crybwyllodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro pa mor bwysig yw gofal cymdeithasol i iechyd. Ni allwch edrych ar iechyd ar wahân. Mae'r gyllideb hon yn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael. Dyna pam y mae'n haeddu cael ei chefnogi.

4.45 p.m.

**Peter Black:** The Finance Minister, when she set out the budget—as did Mike Hedges just now—talked about the economic situation that we are facing. Without going into the reasons why we are where we are, that underlines more than anything else the importance of investing in education and the need to equip young people for the job market. That means that we need to provide that investment and target resources at the poorest and those who will benefit from it the most. That is one of the reasons why we, as Welsh Liberal Democrats, will not be supporting the budget, because it has failed to do that.

**Peter Black:** Roedd y Gweinidog Cyllid, pan oedd yn amlinellu'r gyllideb—fel y gwnaeth Mike Hedges yn awr—yn sôn am y sefyllfa economaidd yr ydym yn eu hwynebu. Heb fynd i mewn i'r rhesymau pam yr ydym ble yr ydym, mae hynny'n tanlinellu'n fwy nag unrhyw beth arall bwysigrwydd buddsoddi mewn addysg a'r angen i baratoi pobl ifanc ar gyfer y farchnad swyddi. Mae hynny'n golygu bod angen i ni ddarparu'r buddsoddiad hwnnw a thargedu adnoddau at y bobl dlotaf a'r rhai fydd yn elwa ohono fwyaf. Dyna un o'r rhesymau pam na fyddwn ni, fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cefnogi'r gyllideb, oherwydd mae wedi methu â gwneud hynny.

It has failed to take forward the important initiative that was introduced last year for the pupil premium, which was part of the previous budget. Although that money has been carried into the next year, the fact that it has not been increased, as it has in England, means that the funding gap between England and Wales has widened. As a result, children from deprived backgrounds will not get the fair start in life that they deserve. Evidence has shown that there is a large attainment gap for pupils from deprived backgrounds. The pupil premium is a chance to change that by focusing our investment on those pupils who need support the most. The budget will effectively mean that the funding gap between schools in England and Wales will rise. The pupil premium in England will increase to £1,200 per pupil in 2014-15, but in Wales we are still stuck with the £450 that was agreed last year.

Mae wedi methu â datblygu'r fenter bwysig a gyflwynwyd y llynedd ar gyfer y premiwm disgyblion, a oedd yn rhan o'r gyllideb flaenorol. Er bod arian wedi cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf, mae'r ffaith nad yw wedi cael ei gynyddu, fel y gwnaethpwyd yn Lloegr, yn golygu bod y bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr wedi ehangu. O ganlyniad, ni fydd plant o gefndiroedd difreintiedig yn cael y dechrau teg mewn bywyd y maent yn ei haeddu. Mae tystiolaeth wedi dangos bod bwlch mawr mewn cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae'r premiwm disgyblion yn gyfle i newid hyn drwy ganolbwyntio ein buddsoddiad ar y disgyblion hynny sydd angen cymorth fwyaf. Bydd y gyllideb yn effeithiol yn golygu y bydd y bwlch cyllido rhwng ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn codi. Bydd y premiwm disgyblion yn Lloegr yn cynyddu i £1,200 y disgybl yn 2014-15, ond yng Nghymru rydym yn dal gyda'r £450 y cytunwyd arno y llynedd.

The Government is adding additional money

Mae'r Llywodraeth yn ychwanegu arian

to absorb increases in demand for free school meals and to cover looked-after children, which is welcome. However, these are small changes to the current scheme. It is a sad fact that the demand for free school meals is rising. The Government does not take the substantial step towards tackling the spending gap or attainment that we would need to see to support this budget. We believe that it is affordable for the Government to double the pupil premium to £900 per pupil. If the Minister were to stand up and say that she was prepared to do that, we would change our minds and support the budget. However, we are not expecting that change of mind.

ychwanegol i gynnwys y cynnydd yn y galw am brydau ysgol am ddim ac i gyflenwi plant sy'n derbyn gofal, sydd i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'r rhain yn newidiadau bach i'r cynllun presennol. Mae'n ffaith drist bod y galw am brydau ysgol am ddim yn codi. Nid yw'r Llywodraeth yn cymryd y cam sylweddol tuag at fynd i'r afael â'r bwlch gwariant neu gyrhaeddiad y byddai angen i ni weld i gefnogi'r gyllideb hon. Rydym yn credu ei bod yn fforddiadwy i'r Llywodraeth ddyblu'r premiwm disgyblion i £900 y disgybl. Pe byddai'r Gweinidog yn sefyll i fyny a dweud ei bod yn barod i wneud hynny, byddem yn newid ein meddyliau ac yn cefnogi'r gyllideb. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl gweld y newid meddwl hwnnw.

I welcome the fact that the Minister has confirmed that she will pursue a health technologies fund. That proposal will allow patients to access newer, more innovative forms of treatment when the readily available treatments have failed. As the Minister has acknowledged, it was an idea from the Welsh Liberal Democrats and I am pleased that she is prepared to look into that and include it in the budget when she has come up with a suitable scheme. I would be grateful if she could clarify whether that scheme will include drugs, or if it is just associated with equipment. We need to encourage the development of innovative treatments by drug companies as well, where that is appropriate. It is important that we ensure that we are not focusing entirely on one particular aspect of the innovative treatments agenda.

Croesawaf y ffaith bod y Gweinidog wedi cadarnhau y bydd yn mynd ar drywydd cronfa technolegau iechyd. Bydd y cynnig yn caniatáu i gleifion gael ffurfiau newydd, mwy arloesol o driniaeth pan fydd y triniaethau sydd ar gael yn rhwydd wedi methu. Fel y mae'r Gweinidog wedi cydnabod, daeth hynny o syniad gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac rwy'n falch ei bod yn barod i edrych i mewn i hynny a'i gynnwys yn y gyllideb pan fydd hi wedi meddwl am gynllun addas. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai egluro a fydd y cynllun yn cynnwys cyffuriau, neu ai cyfarpar cysylltiedig yn unig. Mae angen i ni annog datblygiad triniaethau arloesol gan gwmnïau cyffuriau yn ogystal, lle bo hynny'n briodol. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau nad ydym yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar un agwedd benodol ar yr agenda triniaethau arloesol.

The budget is going through today because Plaid Cymru has announced that it is supporting it. Plaid Cymru has made much of its support for jobs and apprenticeships. The details of where that money is going are not yet available, so it is difficult to properly scrutinise that. If Plaid is so much in favour of this, I would be interested to hear why it is abstaining on the budget and not voting for the proposals that it has put forward as part of the budget negotiations.

Mae'r gyllideb yn mynd drwyddi heddiw oherwydd bod Plaid Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn ei chefnogi. Mae Plaid Cymru wedi gwneud llawer o'i chefnogaeth i swyddi a phrentisiaethau. Nid yw manylion i ble mae'r arian yn mynd ar gael eto, felly mae'n anodd iawn craffu ar hynny. Os yw Plaid Cymru gymaint o blaid hyn, byddai gennyf ddiddordeb i glywed pam ei bod yn ymatal ar y gyllideb ac yn peidio â phleidleisio dros y cynigion y mae wedi'u cyflwyno fel rhan o'r trafodaethau ar y gyllideb.

**Simon Thomas:** I am grateful to you for giving way, Peter. Are you going to vote for

**Simon Thomas:** Rwy'n ddiolchgar ichi am ildio, Peter. A ydych chi'n mynd i bleidleisio

this budget, which includes the deal that you did last year carrying on for two years?

dros y gyllideb hon, sy'n cynnwys y fargen a wnaethoch chi'r llynedd yn parhau am ddwy flynedd?

**Peter Black:** I have already explained, Simon, that we are not voting for the budget because we were hoping that the deal that we did last year would be taken forward and increased. The deal last year was to help to keep up with England, but by not increasing the pupil premium, the doubling of the pupil premium, which is needed, is not going to happen. As such, we are going to fall behind England again in terms of the differences between the pupil premium in England and in Wales. That is something that we cannot support. When it came before us last year, and the deal was done with the Welsh Government, we made a point of voting for the budget because it was in there. You are saying that you are in favour of all the things that will happen as a result of your deal, but you are not prepared to put your vote where your mouth is and vote in favour of the budget as part of that.

**Peter Black:** Rwyf wedi egluro eisoes, Simon, nad ydym yn pleidleisio dros y gyllideb oherwydd yr oeddem yn gobeithio y byddai'r cytundeb y daethom iddo y llynedd yn cael ei ddatblygu ac yn cynyddu. Y cytundeb y llynedd oedd helpu i gadw i fyny â Lloegr, ond drwy beidio â chynyddu'r premiwm disgyblion, nid yw dyblu'r premiwm disgyblion, sydd ei angen, yn mynd i ddigwydd. Gan hynny, rydym yn mynd i ddisgyn y tu ôl i Loegr eto o ran y gwahaniaethau rhwng y premiwm disgyblion yn Lloegr ac yng Nghymru. Mae hynny'n rhywbeth na allwn ei gefnogi. Pan ddaeth ger ein bron y llynedd, ac y gwnaed y cytundeb gyda Llywodraeth Cymru, gwnaethom bwynt o bleidleisio dros y gyllideb oherwydd ei fod yno. Rydych yn dweud eich bod o blaid yr holl bethau a fydd yn digwydd o ganlyniad i'ch cytundeb, ond nid ydych yn barod i roi eich pleidlais ar eich gair a phleidleisio o blaid y gyllideb fel rhan o hynny.

Finally, as regards the Minister's announcement on the non-dividend investment, we very much support that. It takes forward the Finance Committee's recommendations that were part of its very good report on how we could extend the Government's ability to borrow to invest in capital. That is welcome. Obviously, we need a lot more detail, particularly in terms of how the investment in the Heads of the Valleys will be financed. I am sure that, at some stage, the Minister will come before the relevant committee to answer questions on that. I would also like to see more detail in terms of how local authorities will take that forward. I am disappointed that, despite the fact that there have been two rounds of this in England, there is no progress on tax increment financing, which is an important means of trying to develop local council areas that need investment and redevelopment. Certainly, I would hope to see that.

Yn olaf, o ran cyhoeddiad y Gweinidog ar y buddsoddiad di-ddifidend, rydym yn gefnogol iawn i hwnnw. Mae'n gweithredu argymhellion y Pwyllgor Cyllid a oedd yn rhan o'i adroddiad da iawn ar sut y gallem ymestyn gallu'r Llywodraeth i fenthyca i fuddsoddi mewn cyfalaf. Mae hynny i'w groesawu. Yn amlwg, mae angen llawer mwy o fanylion, yn enwedig o ran sut y bydd y buddsoddiad ym Mlaenau'r Cymoedd yn cael ei ariannu. Rwy'n siŵr, ar ryw adeg, y bydd y Gweinidog yn dod gerbron y pwyllgor perthnasol i ateb cwestiynau ar hynny. Hoffwn hefyd weld mwy o fanylion o ran sut y bydd awdurdodau lleol yn datblygu hynny. Rwy'n siomedig, er gwaethaf y ffaith y bu dwy rownd o hyn yn Lloegr, nad oes unrhyw gynnydd ar ariannu cynyddiad treth, sy'n ddull pwysig o geisio datblygu ardaloedd y cynghorau lleol sydd angen buddsoddiad ac ail-ddatblygu. Yn sicr, byddwn yn gobeithio gweld hynny.

In conclusion, this is a budget in which the Minister has done the best that she can with the resources available, but on this key issue of not taking forward that investment in the

I gloi, mae hon yn gyllideb lle mae'r Gweinidog wedi gwneud y gorau y gall hi gyda'r adnoddau sydd ar gael, ond ar y mater allweddol hwn o beidio â datblygu'r

poorest pupils, and extending the pupil premium, it is flawed.

buddsoddiad yn y disgyblion tlotaf, ac ymestyn y premiwm disgyblion, mae'n ddiffygiol.

**Ieuan Wyn Jones:** Hoffwn ddweud pa mor falch yr ydwyf i gael cymryd rhan yn y ddadl hon. Rydym i gyd yn gwybod, fel mae nifer o siaradwyr eisoes wedi dweud, bod y cyd-destun yn un hynod o anodd. Rydym yn deall hefyd bod y mwyafrif llethol o'r cyd-destun yn cael ei osod gan Ganghellor y Trysorlys yn San Steffan, a bydd yn cael ychwanegu at hynny pan fydd ei ddatganiad yn cael ei wneud yfory. Mae sefyllfa fel hon yn dangos, fel mae arweinydd Plaid Cymru eisoes wedi amlinellu, gwendid affwysol y setliad presennol, a'r diffyg pwerau cyllidol sydd gan y Llywodraeth. Rwy'n gobeithio, pan ddaw cyfle i bleidleisio ar argymhellion Silk, y bydd undod llwyr yn y Cynulliad i weithredu'r rheini ac i wneud hynny ar fyrder.

**Ieuan Wyn Jones:** I would like to say how pleased I am to take part in this debate. We all know, as many speakers have already said, that the context is a very difficult one. We also understand that the vast majority of the context is set by the Chancellor of the Exchequer in Westminster, and he will be able to add to that when his statement is made tomorrow. A situation like this shows, as the leader of Plaid Cymru has already said, the pathetic weakness of the present settlement and the lack of financial powers that the Government has. I hope, when the opportunity comes to vote on the Silk recommendations, that there will be complete consensus in this Assembly on implementing them, and to do so urgently.

Ychydig gall y Llywodraeth hon ei wneud i leddfu sgil effeithiau oes y llymder, fel y galwodd Leanne Wood hi, sy'n cael ei gweithredu gan y glymblaid yn Llundain. Dyna pam yr oedd hi mor bwysig bod y cytundeb a wnaethom ni efo'r Llywodraeth ar y gyllideb yn canolbwyntio'n glir ar yr hyn y mae modd i ni ei wneud. Rwy'n teimlo mai'r flaenoriaeth yw helpu pobl ifanc—nid yn unig helpu pobl ifanc, ond helpu pobl ifanc yn benodol i gael swyddi. Un o'r pethau sy'n dal i roi hunllefau i'r rhai ohonom a fuodd fyw drwy wleidyddiaeth y 1980au oedd gweld cenhedlaeth o bobl ifanc wedi'i cholli'n llwyr o'r farchnad waith. Mae pobl a oedd yn ifanc yn yr 1980au sydd erioed wedi gweithio. Mae eu plant nhw bellach yn y sefyllfa lle maen nhw hefyd yn methu cael swyddi. Nid ydym eisiau ail-greu'r hyn ddigwyddodd yn y cyfnod hwnnw.

The Government can only do a little to mitigate the age of austerity, as Leanne Wood called it, that is being implemented by the coalition in London. That is why it was so important that the agreement that we made with the Government on the budget concentrates clearly on what we can do. I feel that the priority is to help young people—not only to help young people, but to help them specifically to get jobs. One thing that still gives nightmares to those of us who lived through the politics of the 1980s was seeing a generation of young people lost from the job market. There are people who were young in the 1980s who have never worked. Their children are now in situations where they too cannot get jobs. We do not want to recreate what happened in that period.

That is why we prioritise the area of apprenticeships and training. If I can just address a couple of the points that Peter Black mentioned—and I am afraid his speech was full of sour grapes in view of the fact that the deal was done with Plaid Cymru this time, and not the Liberal Democrats—the reason that we have not specifically mentioned where the money is going in terms of apprenticeships is that we wanted to respond to what the Assembly committees

Dyna pam yr ydym yn blaenoriaethu'r maes prentisiaethau a hyfforddiant. Os caf fi roi sylw i rai o'r pwyntiau y soniodd Peter Black amdanynt—ac mae arnaf ofn fod ei araith yn llawn o rawnwin surion yn wyneb y ffaith fod y cytundeb wedi ei wneud gyda Phlaid Cymru y tro hwn, ac nid y Democratiaid Rhyddfrydol—y rheswm nad ydym wedi sôn yn benodol i ble mae'r arian yn mynd o ran prentisiaethau yw ein bod yn awyddus i ymateb i'r hyn a ddywedodd pwyllgorau'r

said. The Enterprise and Business Committee has actually looked at the whole area of apprenticeships. It has come forward with some innovative ideas on how we might reshape some of the products that we now offer our young people, so it is very responsible of us to reflect—

Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes mewn gwirionedd wedi edrych ar holl faes prentisiaethau. Mae wedi cyflwyno rhai syniadau arloesol ar sut y gallem ail-lunio rhywfaint o'r cynnyrch yr ydym yn awr yn ei gynnig i'n pobl ifanc, felly mae'n gyfrifol iawn ohonom i adlewyrchu—

I will take your intervention.

Byddaf yn cymryd eich ymyriad.

**Eluned Parrott:** As you say, the Enterprise and Business Committee has made a report full of recommendations on apprenticeships. Why did you not feel able then to specify what you would use the money for?

**Eluned Parrott:** Fel y dywedwch, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi gwneud adroddiad llawn o argymhellion ar brentisiaethau. Pam felly nad oeddech yn teimlo y gallech nodi i beth y byddech yn defnyddio'r arian?

**Ieuan Wyn Jones:** Simply because it is right and proper that we sit down with the Government to work out exactly which one of those recommendations we feel is most appropriate to take forward. The silly thing would have been to say, 'Let us just use everything that we've got; put it in the budget under particular headings, even where we were not satisfied, in view of the committee's recommendations, that we wanted to do them that way'. The responsible thing to do is to consider carefully the recommendations made by that committee and come forward with suggestions. I can tell you that the discussions we have had with the Government so far have been extremely fruitful. What we want is outcomes out of the £20 million that will be invested, so that young people will have jobs at the end of their training and apprenticeships. That is why the deal was done. I make no bones about it: I think that it was an excellent deal for us.

**Ieuan Wyn Jones:** Yn syml oherwydd ei fod yn iawn ac yn briodol ein bod yn eistedd i lawr gyda'r Llywodraeth i weithio allan yn union pa un o'r argymhellion hynny yr ydym yn teimlo sydd fwyaf priodol i'w ddatblygu. Y peth gwirion i'w wneud fyddai dweud, 'Gadewch inni ddefnyddio popeth yr ydym wedi ei gael; ei roi yn y gyllideb o dan benawdau penodol, hyd yn oed lle nad oeddem yn fodlon, o ystyried argymhellion y pwyllgor, ein bod am eu gwneud y ffordd honno'. Y peth cyfrifol i'w wneud yw ystyried yn ofalus yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgor hwnnw a chyflwyno awgrymiadau. Gallaf ddweud wrthych fod y trafodaethau yr ydym wedi'u cael gyda'r Llywodraeth hyd yn hyn wedi bod yn hynod o ffrwythlon. Yr hyn yr ydym ei eisiau yw canlyniadau allan o'r £20 miliwn a gaiff ei fuddsoddi, fel y bydd pobl ifanc yn cael swyddi ar ddiwedd eu hyfforddiant a phrentisiaethau. Dyna pam y gwnaed y fargen. Nid wyf yn gwadu'r peth: rwy'n meddwl ei bod yn fargen ardderchog i ni.

On the point that Peter Black made about whether his party would vote for this or abstain, it matters not, as the budget will go through, although we have some reservations about other aspects of the budget that have been mentioned in earlier discussions. Peter is a member of the Finance Committee with me and concerns were expressed in that committee as well.

Ar y pwynt a wnaeth Peter Black ynghylch a fyddai ei blaid yn pleidleisio o blaid hyn, neu'n ymatal, nid yw'n bwysig, gan y bydd y gyllideb yn mynd drwyddo, er bod gennym rai amheuon ynghylch agweddau eraill ar y gyllideb sydd wedi eu crybwyll mewn trafodaethau cynharach. Mae Peter yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid gyda mi a mynegwyd pryderon yn y pwyllgor hwnnw yn ogystal.

Given that time has beaten us, I want to say briefly that we give a cautious welcome to

O ystyried bod amser wedi'n trechu, rwyf am ddweud yn fyr ein bod yn rhoi croeso gofalus

the new vehicle that the Government has announced. It has not been able to provide us with great detail today, but it looks as though the Build for Wales programme is now being taking up by the Government. Therefore, what we would like is a little more detail on how that is going to work. There are also a couple of questions on the money for education, which is very welcome. You say that that money will speed up the programme so that you are two years ahead of schedule, but it would be helpful for us to know whether that is two years ahead of the original schedule, which was agreed prior to the recession, or whether you are pulling it back to where it was, because you had to extend the programme as a result of economic difficulties. We would also like some clarification on the increase in the proportion of funding from local authorities due to changing economic circumstances. Are you now able to take it back to where it was, with the Government paying around 70% of the cost and local authorities paying around 30%, which would be very much welcomed by local authorities right across Wales?

i'r cyfrwng newydd y mae'r Llywodraeth wedi'i gyhoeddi. Nid yw wedi llwyddo i roi llawer o fanylion inni heddiw, ond mae'n edrych fel pe bai'r rhaglen Adeiladu ar gyfer Cymru bellach yn cael ei derbyn gan y Llywodraeth. Felly, yr hyn y byddem yn hoffi yw ychydig mwy o fanylder o ran sut y mae hynny'n mynd i weithio. Mae hefyd un neu ddau o gwestiynau ynghylch yr arian ar gyfer addysg, sydd i'w groesawu'n fawr. Rydych yn dweud y bydd yr arian yn cyflymu'r rhaglen fel eich bod ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl, ond byddai o gymorth i ni wybod a yw hynny'n golygu dwy flynedd cyn yr amserlen wreiddiol, y cytunwyd arni cyn y dirwasgiad, neu a ydych yn ei thynnu'n ôl i'w lle gwreiddiol, oherwydd bu'n rhaid i chi ymestyn y rhaglen o ganlyniad i anawsterau economaidd. Byddem hefyd yn hoffi rhywfaint o eglurhad ar y cynnydd yn y gyfran o gyllid oddi wrth awdurdodau lleol o ganlyniad i amgylchiadau economaidd sy'n newid. A ydych yn awr yn gallu mynd â hi yn ôl i lle'r oedd hi, gyda'r Llywodraeth yn talu tua 70% o'r gost ac awdurdodau lleol yn talu tua 30%, a fyddai'n cael ei groesawu'n fawr gan awdurdodau lleol ledled Cymru?

**Joyce Watson:** There is much to welcome in this annual budget and, as chair of the construction cross-party group, I am especially pleased to see the extra funding for housing, including the £12 million to expand the Welsh housing partnership. I am told that, all in all, it will deliver 1,800 new Welsh homes—that is more affordable homes for single people, couples and families, which is good news. However, it will also create a potential 300 jobs, which is great news. I never tire of reading off the statistic that for every pound spent on construction, we get £2.84 back in economic activity. We have to help Welsh businesses reap the rewards in terms of construction contracts and sub-contracts, so that the Welsh economy gets maximum cashback for its investment.

**Joyce Watson:** Mae llawer i'w groesawu yn y gyllideb flynyddol ac, fel cadeirydd y grŵp adeiladu trawsbleidiol, rwyf yn arbennig o falch o weld y cyllid ychwanegol ar gyfer tai, gan gynnwys y £12 miliwn i ehangu'r bartneriaeth tai Cymru. Dywedir wrthyf, ar y cyfan, y bydd yn darparu 1,800 o gartrefi newydd yng Nghymru—hynny yw mwy o dai fforddiadwy i bobl sengl, cyplau a theuluoedd, sy'n newyddion da. Fodd bynnag, bydd hefyd yn creu 300 o swyddi posib, sy'n newyddion gwych. Dwi byth yn blino darllen yr ystadegyn, am bob punt a werir ar adeiladu, rydym yn cael £2.84 yn ôl mewn gweithgarwch economaidd. Mae'n rhaid i ni helpu busnesau Cymru i elwa o ran contractau ac is-gontractau adeiladu, fel bod economi Cymru yn cael uchafswm arian yn ôl am ei fuddsoddiad.

The commitment to infrastructure also dovetails with the Welsh Government's commitment to apprenticeships. If we are serious about giving our young people a hand up and a good start in working life, training has to be a deal breaker in more procurement contracts. As well as housing, the additional

Mae'r ymrwymiad i seilwaith hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i brentisiaethau. Os ydym o ddifrif ynglŷn â rhoi help llaw a dechrau da mewn bywyd gwaith i'n pobl ifanc, rhaid i hyfforddiant fod yn rhan annatod o fwy o gontractau caffael. Yn ogystal â thai, bydd y £220 miliwn

£220 million of overall capital allocations in this budget will support other key infrastructure projects throughout Wales. Contrast the Welsh Labour Government's commitment to economic stimulus with the Tory Government's damaging, dogmatic and discredited economic plan; it has failed. There can be no question about that. It is bad for Britain and it is bad for Wales that it failed, but failed it has. The Chancellor has admitted that he will not meet the second target of his plan, the load-bearing wall of his fiscal house, his target of reducing debt as a proportion of national income by the end of this Parliament.

ychwanegol o ddyraniadau cyfalaf cyffredinol yn y gyllideb hon yn cefnogi prosiectau seilwaith allweddol eraill ledled Cymru. Cyferbynnwch ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i ysgogiad economaidd gyda chynllun economaidd niweidiol, dogmatig a gwaradwyddus y Llywodraeth Doriaidd; mae wedi methu. Nid oes unrhyw amheuaeth am hynny. Mae'n ddrwg i Brydain ac mae'n ddrwg i Gymru ei fod wedi methu, ond methu a wnaeth. Mae'r Canghellor wedi cyfaddef na fydd yn cyrraedd ail darged ei gynllun, wal cynnal llwyth ei dŷ ariannol, ei darged o leihau dyledion fel cyfran o'r incwm cenedlaethol erbyn diwedd y Senedd hon.

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the Member for Mid and West Wales for giving way, but I take issue with her point about the failure of the plan that has created 1 million new jobs and has kept interest rates at a record low level. We are borrowing money on the money markets at the same rate as Germany when we have the same deficit situation as Spain.

**Andrew R.T. Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ildio, ond rwy'n anghytuno gyda'i phwynt am fethiant y cynllun sydd wedi creu un filiwn o swyddi newydd ac wedi cadw cyfraddau llog ar y lefel isaf erioed. Rydym yn benthyca arian ar y marchnadoedd arian ar yr un gyfradd â'r Almaen pan fod gennym yr un sefyllfa o ddiffyg â Sbaen.

**Joyce Watson:** I am sure that you have some blue-sky thinking, but I am in the world of reality.

**Joyce Watson:** Rwy'n siŵr eich bod yn meddwl heb orwelion i raddau, ond rwyf fi ym myd o realiti.

Since the spending review two years ago, UK growth has been just 0.6%, compared to the 4.6% that the Tories promised to deliver. Yet, there is no plan B, and, in his autumn statement tomorrow, George Osborne will cut deeper and wider still. I think that he should be looking to Wales, to the Welsh Government, as an example of the alternative. I also think that he should read Michael Heseltine's report on how to boost growth, which stated that the UK coalition Government—and these are his words, not mine—

Ers yr adolygiad gwario ddwy flynedd yn ôl, mae twf y DU wedi bod yn 0.6% yn unig, o'i gymharu â'r 4.6% yr oedd y Toriaid wedi addo ei gyflawni. Eto, nid oes cynllun B, ac, yn ei ddatganiad hydref yfory, bydd George Osborne yn torri'n ddyfnach ac yn ehangach fyth. Credaf y dylai fod yn edrych ar Gymru, ar Lywodraeth Cymru, fel enghraifft o'r dewis arall. Credaf hefyd y dylai ddarllen adroddiad Michael Heseltine ar sut i hybu twf, a oedd yn nodi nad oes gan Lywodraeth glymblaid y DU—a'i eiriau ef yw'r rhain nid fy rhai i—

'does not have a strategy for growth and wealth creation.'

y strategaeth ar gyfer twf a chreu cyfoeth.

I can only guess that the Heseltine report is lying with the 2,000 discarded pages of the Leveson report, in a recycling bin somewhere in Westminster.

Ni allaf ond dyfalu bod adroddiad Heseltine yn gorwedd gyda'r 2,000 o dudalennau adroddiad Leveson a daflwyd o'r neilltu, mewn bin ailgylchu yn rhywle yn San Steffan.

5.00 p.m.

We are doing things differently in Wales. The investment to tackle youth employment, which my party has agreed with Plaid Cymru is true to the Welsh foundations for delivery in Wales. The Welsh Liberal Democrats have worked constructively with the Government, looking at proposals for an innovative health technologies fund for Welsh patients, but where are the Tories? They stand alone and isolated on the wrong side of the economic debate. To be fair, it is hard to pick holes in the Welsh Conservatives' plan, because, again, they have failed to publish their own detailed budget plans. They claim more should be spent on the economy, but they have, in the past, called for a 30% cut in the economic department's budget. Meanwhile, their demand for a council-tax freeze fails to acknowledge the fact that the average band D bill in Wales is 20% lower than that in England. At least they have dropped their pie-in-the-sky health budget proposals, which were, and still are, roundly ridiculed.

Rydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Mae'r buddsoddiad i fynd i'r afael â diweithdra ymysg yr ifanc y mae fy mhlaid wedi cytuno arno gyda Phlaid Cymru yn driw i sylfeini Cymru ar gyfer cyflenwi yng Nghymru. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gweithio'n adeiladol gyda'r Llywodraeth, gan edrych ar gynigion am gronfa technolegau iechyd arloesol ar gyfer cleifion o Gymru, ond ble mae'r Torïaid? Maent yn sefyll ar eu pennau ei hunain ac yn ynysig ar ochr anghywir y ddadl economaidd. I fod yn deg, mae'n anodd pigo brychau yng nghynllun y Ceidwadwyr Cymreig, oherwydd, unwaith eto, maent wedi methu â chyhoeddi eu cynlluniau cyllideb manwl eu hunain. Maent yn honni y dylai mwy gael ei wario ar yr economi, ond maent wedi galw, yn y gorffennol, am ostyngiad o 30% yng nghyllideb yr adran economaidd. Yn y cyfamser, mae eu galw am rewi treth y cyngor yn methu â chydnabod y ffaith bod y bil cyfartalog ar gyfer band D yng Nghymru 20% yn is nag yn Lloegr. O leiaf maent wedi gostwng eu cynigion cyllideb iechyd breuddwyd gwrach, oedd yn cael, ac sy'n dal i gael eu gwawdio'n swta.

**Nick Ramsay:** It is always a great pleasure to follow Joyce Watson. To be fair to you, Joyce, I think that what you say is more a message from the mothership than what you would agree with privately, because I think that you understand the deep problems that this country faces. From listening repeatedly to Labour speakers, it really is extraordinary how they think that they can simply invent this Welsh world in which we can go on spending and spending with absolutely no commitment from any of you to ever pay any of this money back. It really is extraordinary. We hear it debate after debate.

**Nick Ramsay:** Mae bob amser yn bleser mawr i ddilyn Joyce Watson. I fod yn deg â chi, Joyce, rwy'n meddwl bod yr hyn a ddywedwch yn fwy o neges oddi uchod na'r hyn y byddech yn cytuno ag ef yn breifat, oherwydd credaf eich bod yn deall y problemau dwfn y mae'r wlad hon yn eu hwynebu. O wrando dro ar ôl tro ar siaradwyr Llafur, mae'n wir yn hynod sut y maent yn credu y gallant yn syml ddyfeisio'r byd Cymreig hwn lle gallwn gario ymlaen i wario a gwario heb unrhyw ymrwymiad gan unrhyw un ohonoch i dalu dim o'r arian hwn yn ôl. Mae'n wir yn eithriadol. Rydym yn ei glywed mewn dadl ar ôl dadl.

**Joyce Watson:** Will you take an intervention?

**Joyce Watson:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Nick Ramsay:** I will in a minute, Joyce, but I will make some progress first.

**Nick Ramsay:** Gwnaf mewn munud, Joyce, ond rwyf am fwrw ymlaen am ychydig yn gyntaf.

We hear it debate after debate. You criticise my party in Westminster for not having a

Rydym yn ei glywed mewn dadl ar ôl dadl. Rydych yn beirniadu'r fy mhlaid yn San

plan. Well, I see precious little plan from your side to get this country out of the mess that your party in Westminster—not the party here, actually—is responsible for. I do not blame you for that, but, unfortunately, your party in Westminster has not listened, probably, to some of the Minister for Finance's better points. They were away with the fairies up there when you were here having to wrestle with the problems that your party has created.

Steffan am fod heb gynllun. Wel, ni welaf fawr iawn o gynllun o'ch ochr chi i gael y wlad allan o'r llanastr y mae eich plaid yn San Steffan—nid y blaid yma, mewn gwirionedd—yn gyfrifol amdano. Nid wyf yn eich beio chi am hynny, ond, yn anffodus, nid yw eich plaid yn San Steffan wedi gwrando, yn ôl pob tebyg, ar rai o bwyntiau gwell y Gweinidog Cyllid. Roeddent mewn byd ffantasi yno pan oeddech chi yma yn gorfod ymgodymu â'r problemau y mae eich plaid wedi eu creu.

It was interesting to see the eyes of Alun Davies, the Deputy Minister for agriculture, light up when reference was made at the start of this debate on the non-dividend investment mechanism to fund the Heads of the Valleys scheme. Clearly, it is not only Plaid Cymru that has done a deal with the Labour Government to get something that it wants through. We welcome any moves that will improve infrastructure in Wales, and the road infrastructure in particular, to try to ensure that Wales is best placed to deal with the economic realities when we come out of the current problems.

Roedd yn ddiddorol gweld llygaid Alun Davies, y Dirprwy Weinidog amaethyddiaeth, yn goleuo pan gyfeiriwyd ar ddechrau'r ddadl hon at y mecanwaith buddsoddi di-ddifidend i ariannu cynllun Blaenau'r Cymoedd. Yn amlwg, nid Plaid Cymru'n unig sydd wedi gwneud cytundeb â'r Llywodraeth Lafur i gael rhywbeth drwodd y mae ei eisiau. Rydym yn croesawu unrhyw symudiadau a fydd yn gwella seilwaith yng Nghymru, a'r seilwaith ffyrdd yn benodol, i geisio sicrhau bod Cymru yn y sefyllfa orau i ddelio â'r realiti economaidd pan fyddwn yn dod allan o'r problemau presennol.

My head is still spinning from Ieuan Wyn Jones's comments earlier. Ieuan Wyn Jones said that he agreed concessions on the budget. So, you supported the budget, but you do not support aspects of the budget and you do not support the budget and will abstain on the budget. That is probably an oversimplification, but, to be honest, that is as simple as I could get it from the comments that Ieuan Wyn Jones was making. 'Complicated' and 'confusing' are the words that spring to mind. It was quite amusing seeing the Liberal Democrats attacked for not supporting this budget. Thank goodness the Liberal Democrats did not rush into supporting this budget blindly just so that they could get their names on the tin, so to speak, and then claim some credit for it, which we know in the past has never benefited them anyway. Whenever you have supported that party in the past, Labour is the one who always takes credit for anything you put forward. When will you learn your lesson? Obviously not in this budget.

Mae fy mhen yn dal i droi ar ôl sylwadau Ieuan Wyn Jones yn gynharach. Dywedodd Ieuan Wyn Jones ei fod yn cytuno ar gonsesiynau ar y gyllideb. Felly, roeddech yn cefnogi'r gyllideb, ond nid ydych yn cefnogi agweddau ar y gyllideb ac nid ydych yn cefnogi'r gyllideb a byddwch yn ymatal ar y gyllideb. Mae'n debyg mai gorsymleiddio yw hynna, ond, i fod yn onest, mae hynna mor syml ag y gallwn ei fynegi o'r sylwadau yr oedd Ieuan Wyn Jones yn eu gwneud. Cymhleth a dryslyd yw'r geiriau sy'n dod i'r meddwl. Roedd yn eithaf doniol gweld ymosod ar y Democratiaid Rhyddfrydol am beidio â chefnogi'r gyllideb hon. Diolch byth nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhuthro i gefnogi'r gyllideb hon yn ddall dim ond er mwyn cael eu henwau ar y tun, fel petai, ac yna hawlio peth clod am hynny, yr ydym yn gwybod yn y gorffennol nad yw erioed wedi bod o fudd iddynt beth bynnag. Pryd bynnag yr ydych wedi cefnogi'r blaid honno yn y gorffennol, Llafur yw'r un sydd bob amser yn cymryd y clod am unrhyw beth yr ydych yn ei gyflwyno. Pryd fyddwch chi'n

dysgu eich gwers? Nid yn y gyllideb hon yn amlwg.

I have been distracted with previous speeches, but what I actually want to focus on is apprenticeships. A lot of good things have been said by many Members from all parties on apprenticeships. I do, in fact, welcome the fact that there is funding for apprenticeships, and I have said that to the Minister for Business and the Minister for Finance. We know that evidence has been provided that too many companies in Wales find the whole apprenticeship structure too complicated and confusing at present. Therefore, putting aside the fact that Plaid Cymru has agreed to this £20 million without any idea, it seems, as to where that £20 million will go within the apprenticeship field—that is certainly the message that I got—it would be nice to have some details from the Minister about exactly where that money will go and whether companies really will benefit from that money, because in the past we have seen good money thrown at these things and put into schemes, and, at the end of the day, was there any long-term benefit from it? We have to create a sustainable economy in Wales. All of us, from all parties, can talk about the need to put money into investment, into infrastructure and to support the economic base, but, if it is not sustainable funding in the long term, then it might as well just go down the drain. We need to create a new economy and not try to recreate the edifices of the past.

Tynnwyd fy sylw gan yr areithiau blaenorol, ond yr hyn yr wyf eisiau canolbwyntio arno mewn gwirionedd yw prentisiaethau. Mae llawer o bethau da wedi cael eu dweud gan nifer o Aelodau o bob plaid ar brentisiaethau. Rwyf, mewn gwirionedd, yn croesawu'r ffaith bod cyllid ar gyfer prentisiaethau, ac rwyf wedi dweud hynny wrth y Gweinidog Busnes a'r Gweinidog Cyllid. Rydym yn gwybod bod tystiolaeth wedi ei darparu bod gormod o gwmnïau yng Nghymru yn ystyried yr holl strwythur prentisiaeth yn rhy gymhleth ac yn ddryslyd ar hyn o bryd. Felly, gan roi o'r neilltu y ffaith bod Plaid Cymru wedi cytuno i'r £20 miliwn hwn heb unrhyw syniad, mae'n ymddangos, i ble fydd yr £20 miliwn yn mynd o fewn y maes prentisiaeth—dyna'n sicr y neges a gefais i—byddai'n braf cael rhywfaint o fanylion gan y Gweinidog am ble yn union y bydd yr arian yn mynd a pha gwmnïau mewn gwirionedd fydd yn elwa ar yr arian hwnnw, oherwydd yn y gorffennol rydym wedi gweld arian da yn cael ei luchio at y pethau hyn ac yn cael ei roi ar gyfer cynlluniau, ac, yn y bôn, a oedd unrhyw fudd tymor hir ohono? Mae'n rhaid i ni greu economi gynaliadwy yng Nghymru. Gall pob un ohonom, o bob plaid, siarad am yr angen i roi arian i fuddsoddi, mewn seilwaith ac i gefnogi'r sylfaen economaidd, ond, os nad yw'n gyllid cynaliadwy yn y tymor hir, yna waeth iddo fynd i lawr y draen ddim. Mae angen i ni greu economi newydd a pheidio â cheisio ail-greu adeiladwaith y gorffennol.

Coming back to some of the earlier speeches, I think it is very sad, when there are parties in Westminster trying to get the UK economy onto a sound footing and trying to clear up some of the mess that has been created in the past, that Members on this side of the Chamber and, indeed, on the corner of the other side of the Chamber, have to constantly take this flak. Thank goodness some people are actually facing up to the economic realities in this country, which are very serious, and thank goodness your party is no longer in power in Westminster, because I have heard precious little sense so far from you guys.

Gan ddod yn ôl at rai o'r areithiau cynharach, rwy'n meddwl ei fod yn drist iawn, pan fo pleidiau yn San Steffan yn ceisio cael yr economi yn y DU ar sail gadarn ac yn ceisio egluro peth o'r llanast sydd wedi ei greu yn y gorffennol, bod Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr, ac, yn wir, ar gornel ochr arall y Siambr, yn gyson gorfod cymryd y feirniadaeth hon. Diolch byth bod rhai pobl mewn gwirionedd yn wynebu'r realiti economaidd yn y wlad hon, sydd yn ddifrifol iawn, a diolch byth nad yw eich plaid chi bellach mewn grym yn San Steffan, oherwydd ychydig iawn o synnwyr yr wyf wedi ei glywed gennych chi bobl.

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** This Welsh Government is committed, as I said, through our budget for growth and jobs, to maximising our opportunities to increase infrastructure investment in Wales. We are doing this with a multi-million-pound boost to the economy. I would expect that the people of Wales and businesses in Wales will receive this news with enthusiasm and will expect the Assembly to unite behind the Welsh Government that is making these important announcements today.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, fel y dywedais, drwy ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi, i wneud y mwyaf o'n cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru. Rydym yn gwneud hyn gyda hwb gwerth miliynau o bunnoedd i'r economi. Byddwn yn disgwyl y bydd pobl Cymru a busnesau yng Nghymru yn derbyn y newyddion gyda brwdfrydedd a byddant yn disgwyl i'r Cynulliad uno y tu ôl i Lywodraeth Cymru sy'n gwneud y cyhoeddiadau pwysig hyn heddiw.

The development of our innovative investment programme reflects the importance we place on acting now for the long-term interests of the people of Wales, leading the way with our commitment to create and sustain jobs, and delivering this especially for our young people through the £20 million uplift to our apprenticeship programme. This builds on the 4,000 job opportunities created by Jobs Growth Wales, which is already overreaching targets. As Ieuan Wyn Jones said, it is vital that we strengthen our measures to tackle youth unemployment in Wales. Of course, Nick Ramsay, we will be considering the findings of the Enterprise and Business Committee. This, once again, is where the Assembly can act together to deliver for our young people in Wales.

Mae datblygu ein rhaglen fuddsoddi arloesol yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddwn ar weithredu yn awr ar gyfer buddiannau tymor hir pobl Cymru, gan arwain y ffordd gyda'n hymrwymiad i greu a chynnal swyddi, a darparu hyn yn arbennig ar gyfer ein pobl ifanc drwy'r cynnydd o £20 miliwn at ein rhaglen brentisiaeth. Mae hyn yn adeiladu ar y 4,000 o gyfleoedd swyddi a grëwyd gan Twf Swyddi Cymru, sydd eisoes yn gorgyrraedd targedau. Fel y dywedodd Ieuan Wyn Jones, mae'n hanfodol ein bod yn cryfhau ein mesurau i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Wrth gwrs, Nick Ramsay, byddwn yn ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Menter a Busnes. Dyma, unwaith eto, lle y gall y Cynulliad weithredu gyda'i gilydd i ddarparu ar gyfer ein pobl ifanc yng Nghymru.

To respond to Peter Black's contribution this afternoon, I believe, Peter Black, that you would like to support this budget. Everything you said was very positive. Before you get to your feet, Peter, I will just tell you why I think you like this budget: this draft budget shows increases in the funding for the pupil deprivation grant from this year's levels by £4.4 million, taking it to £36.8 million in the next financial year. There are further planned increases of £1.4 million in the following year. Coupled with the school effectiveness grant, the pupil deprivation grant brings total grant funding to over £65 million. Surely, you welcome this and, if you do not welcome that, in terms of the money that is going directly to schools—

Er mwyn ymateb i gyfraniad Peter Black y prynhawn yma, rwy'n credu, Peter Black, y byddech yn hoffi cefnogi'r gyllideb hon. Roedd popeth a ddywedoch yn gadarnhaol iawn. Cyn i chi godi ar eich traed, Peter, rwyf am ddweud wrthych pam yr wyf yn meddwl eich bod yn hoffi'r gyllideb hon: mae'r gyllideb ddrafft yn dangos cynnydd yn y cyllid ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion o lefelau eleni gan £4.4 miliwn, gan ei godi i £36.8 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae cynnydd arfaethedig pellach o £1.4 miliwn yn y flwyddyn ganlynol. Ynghyd ag effeithiolrwydd y grant ysgol, mae'r grant amddifadedd disgyblion yn dod â chyfanswm y cyllid grant i dros £65 miliwn. Siawns nad ydych yn croesawu hyn ac, os nad ydych yn croesawu hynny, o ran yr arian sy'n mynd yn uniongyrchol i

ysgolion—

**Peter Black:** Obviously, any increase is welcome, but it is largely down to pressures in terms of increases in free school meals. If you are prepared to make a commitment now to double the pupil premium to £900 per pupil, I will vote for it.

**Peter Black:** Yn amlwg, mae unrhyw gynnydd i'w groesawu, ond i raddau helaeth mae oherwydd pwysau o ran cynnydd mewn prydau ysgol am ddim. Os ydych yn barod i wneud ymrwymiad yn awr i ddyblu'r premiwm disgyblion i £900 y disgybl, byddaf yn pleidleisio drosto.

**Jane Hutt:** I also believe that the Welsh Liberal Democrats would surely back the commitment to grow our investment in schools above the rate of growth of the Welsh budget as a whole, as well as the fact that, over the spending review period, we have invested an additional £185 million in schools. Peter Black, I remember you asking in this Chamber 'When are you going to move on with the local government borrowing initiative and invest in a twenty-first century schools programme?' What am I saying today? I am saying, 'Yes, we are.' That is the next stage, and the next phase of our local government borrowing initiative, which has created 900 jobs this year in the construction sector. It is creating and saving jobs. You have seen all of the work going on in your constituencies and now it is in relation to twenty-first century schools. Clearly, the Minister will come back on the detail of how he will deliver this—bringing it forward by two years.

**Jane Hutt:** Rwyf hefyd yn credu y byddai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn sicr yn cefnogi'r ymrwymiad i dyfu ein buddsoddiad mewn ysgolion yn uwch na'r twf yng nghyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â'r ffaith ein bod, dros y cyfnod adolygu gwariant, wedi buddsoddi swm ychwanegol o £185 miliwn mewn ysgolion. Peter Black, cofiaf i chi ofyn yn y Siambr hon 'Pryd ydych chi'n mynd i symud ymlaen â'r fenter benthyca llywodraeth leol a buddsoddi mewn rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?' Beth ydw i'n ei ddweud heddiw? Rwy'n dweud, 'Ydym, yr ydym.' Dyna'r cam nesaf, a cham nesaf ein menter benthyca llywodraeth leol, sydd wedi creu 900 o swyddi eleni yn y sector adeiladu. Mae'n creu ac yn arbed swyddi. Rydych wedi gweld yr holl waith sy'n mynd ymlaen yn eich etholaethau ac yn awr mae mewn perthynas ag ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Yn amlwg, bydd y Gweinidog yn dod yn ôl ar y manylion o ran sut y bydd yn cyflawni hyn—gan ddod ag ef ymlaen gan ddwy flynedd.

I am also glad that Peter Black, Ieuan Wyn Jones and Conservative Members have welcomed the non-dividend vehicle. Yes, there is much more that you are welcoming than disagreeing with in this budget, as usual. That is what people want to see: that the Assembly is uniting behind a Government that is determined to make changes in growth and jobs. I will say briefly, Peter, that tax increment financing has not been discounted, but we know what we can do, what we have trialled and what we are acting upon in terms of the local government borrowing initiative.

Rwyf hefyd yn falch bod Peter Black, Ieuan Wyn Jones ac Aelodau Ceidwadol wedi croesawu'r cyfrwng di-ddifidend. Oes, mae llawer mwy yr ydych yn ei groesawu nag yn anghytuno ag ef yn y gyllideb, fel arfer. Dyna beth mae pobl eisiau ei weld: bod y Cynulliad yn uno y tu ôl i Lywodraeth sy'n benderfynol o wneud newidiadau mewn twf a swyddi. Byddaf yn dweud yn fyr, Peter, nad yw ariannu cynyddiad treth wedi'i ddiystyru, ond rydym yn gwybod beth y gallwn ei wneud, yr hyn yr ydym wedi ei dreialu a beth yr ydym yn ei weithredu ar ran y fenter benthyca llywodraeth leol.

As Leanne Wood says, it is important that we refer to the UK Government's autumn statement tomorrow. We need a strong

Fel y mae Leanne Wood yn ei ddweud, mae'n bwysig ein bod yn cyfeirio at ddatganiad hydref Llywodraeth y DU yfory.

message from Wales, and I think it should be a strong united message from Wales. It is also not just from us in Wales. The chair of the British Chamber of Commerce, John Longworth, said at the weekend that much of the Chancellor’s 2011 list of infrastructure projects turned out to be pie in the sky. He calls for something tangible and solid; will the autumn statement give that tomorrow?

Mae angen neges gref o Gymru, ac rwy’n credu y dylai fod yn neges unedig gref o Gymru. Nid gennym ni yng Nghymru yn unig chwaith. Dywedodd cadeirydd Siambr Fasnach Prydain, John Longworth, dros y penwythnos bod llawer o restr o brosiectau seilwaith 2011 y Canghellor wedi bod yn ddim mwy na breuddwyd gwrach. Mae’n galw am rywbeth pendant a chadarn; bydd datganiad yr hydref yn rhoi hynny yfory?

Joyce, I very much welcome your contribution this afternoon. In terms of housing, last week £16.8 million for land for housing was announced—land that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science and the Minister for Housing, Regeneration and Heritage can now take forward in terms of projects to provide affordable housing. That is in addition to the £12 million for a Welsh housing partnership. I have already mentioned the construction jobs in relation to the highways improvement programme.

Joyce, rwy’n croesawu eich cyfraniad y prynhawn yma. O ran tai, yr wythnos diwethaf cyhoeddwyd £16.8 ar gyfer tir ar gyfer tai—tir y gall y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a’r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn awr ei ddatblygu o ran prosiectau i ddarparu tai fforddiadwy . Mae hynny yn ychwanegol at y £12 miliwn ar gyfer partneriaeth tai Cymru. Rwyf eisoes wedi sôn am y swyddi adeiladu mewn perthynas â’r rhaglen wella priffyrdd.

We have a Welsh approach here. Since devolution, we have developed this unique Welsh approach and we have pursued distinct Welsh policies that meet Welsh needs, Welsh circumstances and Welsh priorities. We are proud of that across this Chamber and in Wales, and there is more that unites us than divides us. I assure the finance spokesperson of the Welsh Conservatives that we are clear in our support for the NHS in Wales. We are also clear that supporting healthy outcomes in Wales requires investment in social services, housing and education.

Mae gennym ymagwedd Gymreig yma. Ers datganoli, rydym wedi datblygu’r dull Cymreig unigryw hwn, ac rydym wedi mynd ar drywydd polisïau penodol Gymreig sy’n diwallu anghenion Cymru, amgylchiadau Cymru a blaenoriaethau Cymru. Rydym yn falch o hynny ar draws y Siambr hon ac yng Nghymru, ac mae mwy sy’n ein huno nag sy’n ein rhannu. Gallaf sicrhau llefarydd cyllid y Ceidwadwyr Cymreig ein bod yn glir yn ein cefnogaeth i’r GIG yng Nghymru. Rydym hefyd yn glir bod cefnogi canlyniadau iach yng Nghymru yn gofyn am fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg.

**Eluned Parrott:** Thank you for your comments on the NHS, Minister. I want to ask about Peter’s question regarding the innovative treatments fund. The question was put as to whether you will you keep your options open with regard to including innovative drug treatments, as well as innovative technology treatments, as they have a major impact not only on patient outcomes, but also on the research sector in higher education.

**Eluned Parrott:** Diolch i chi am eich sylwadau ar y GIG, Weinidog. Rwyf am ofyn am gwestiwn Peter ynghylch y gronfa triniaethau arloesol. Gofynnwyd y cwestiwn ynghylch a fyddwch yn cadw eich dewisiadau yn agored o ran cynnwys triniaethau cyffuriau arloesol, yn ogystal â thriniaethau technoleg arloesol, gan eu bod yn cael effaith fawr nid yn unig ar ganlyniadau cleifion, ond hefyd ar y sector ymchwil mewn addysg uwch .

**Jane Hutt:** I assure the Member that we are looking at this very closely with experts in

**Jane Hutt:** Gallaf sicrhau’r Aelod ein bod yn edrych ar hyn yn agos iawn gydag

the field and we will be able to report back on that.

arbenigwyr yn y maes a byddwn yn gallu adrodd yn ôl ar hynny.

I am conscious that Mike Hedges recognised how important it is, in terms of support for the NHS, that we look for the healthy outcomes that Wales requires. However, we must remember that we have protected the £6.5 billion health budget—43% of our budget in Wales—

Rwy'n ymwybodol bod Mike Hedges wedi cydnabod pa mor bwysig yw hi, o ran cymorth i'r GIG, ein bod yn edrych am y canlyniadau iach sydd eu hangen ar Gymru. Fodd bynnag, rhaid inni gofio ein bod wedi diogelu'r gyllideb iechyd £6.5 biliwn—43% o'n cyllideb ni yng Nghymru—

**Andrew R.T. Davies:** Will you give way?

**Andrew R.T. Davies:** A wnewch chi ildio?

**Jane Hutt:** No. The Minister for health has also instigated a review of the financial and non-financial performance of the NHS. She will report on that tomorrow.

**Jane Hutt:** Na. Mae'r Gweinidog iechyd hefyd wedi cychwyn adolygiad o berfformiad ariannol ac an-ariannol y GIG. Bydd yn adrodd ar hynny yfory.

In the draft budget, I highlighted my concerns that welfare reform as a whole will drive people into greater poverty, particularly the most vulnerable. I also highlighted the specific potential impacts on disabled people and women. Many will have seen the very powerful report produced by Tanni Grey-Thompson, whom we all respect and admire in this Chamber.

Yn y gyllideb ddrafft, tynnais sylw at fy mhryderon y bydd diwygio lles yn ei gyfanrwydd yn gyrru pobl i fwy o dlodi, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Roeddwn hefyd yn tynnu sylw at yr effeithiau penodol posibl ar bobl a menywod anabl. Bydd llawer wedi gweld yr adroddiad hynod bwerus a gynhyrchwyd gan Tanni Grey-Thompson, yr ydym i gyd yn ei pharchu a'i hedmygu yn y Siambr hon.

Finally, 70 years ago this week William Beveridge published his report, and, in fact, he launched at Cardiff city hall. That report, 'Report of the Inter-Departmental Committee on Social Insurance and Allied Services', offered a national system of social security. That system was about protecting all of our citizens from the cradle to the grave. It was built on the achievements of the 1906 to 1911 Liberal Government, as I would point out to my Welsh Liberal Democrat colleagues sitting in that corner.

Yn olaf, 70 mlynedd yn ôl i'r wythnos hon cyhoeddodd William Beveridge ei adroddiad, ac, mewn gwirionedd, fe lansiodd yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. Roedd yr adroddiad hwnnw, 'Adroddiad y Pwyllgor Rhyngadrannol ar Yswiriant Cymdeithasol a Gwasanaethau Perthynol', yn cynnig system genedlaethol o nawdd cymdeithasol. Roedd y system honno yn ymwneud â diogelu ein holl ddinasyddion o'r crud i'r bedd. Cafodd ei hadeiladu ar gyflawniadau Llywodraeth Ryddfrydol 1906 i 1911, fel y byddwn yn tynnu sylw fy nghydweithwyr Rhyddfrydol Cymru Democratiaid sy'n eistedd yn y gornel acw.

The new Welfare Reform Act 2012 entrenches means testing, which Beveridge abhorred. He insisted that employment security is as important as income security. That is why we have a budget for growth and jobs. That is why I am providing a multi-million-pound boost to that budget, and using all the means that we can to achieve that. I have to say, Paul Davies, that the failure of

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 newydd yn ymwreiddio profion modd, yr oedd Beveridge yn eu casáu. Mynnodd fod diogelwch cyflogaeth yr un mor bwysig â diogelwch incwm. Dyna pam y mae gennym gyllideb ar gyfer twf a swyddi. Dyna pam yr wyf yn rhoi hwb gwerth miliynau o bunnoedd i'r gyllideb honno, a defnyddio'r holl ddulliau sydd yn ein gallu i gyflawni

the work programme, which was revealed last week, shows how little the UK Government has achieved in terms of providing opportunities.

hynny. Rhaid i mi ddweud, Paul Davies, bod methiant y rhaglen waith, a ddatgelwyd yr wythnos diwethaf, yn dangos cyn lleied y mae Llywodraeth y DU wedi'i gyflawni o ran darparu cyfleoedd.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You must conclude now, Minister. [*Interruption*.] No, sit down, Mark. We will hear the Minister's final sentence.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'n rhaid i chi ddod i'r ben yn awr, Weinidog. [*Torri ar draws*.] Na, eisteddwch i lawr, Mark. Cawn glywed frawddeg olaf y Gweinidog.

**Jane Hutt:** As a final sentence, I would say that in all our constituencies across Wales—this is a serious point—we will see a measure of resilience in our families, communities and in our businesses, but they expect us in this Assembly to deliver for them. They expect us to stand up for the people, the communities and the economy of Wales. That is what this Welsh Government is doing today.

**Jane Hutt:** Fel brawddeg olaf, byddwn yn dweud ym mhob un o'n hetholaethau ledled Cymru—mae hwn yn bwynt difrifol—byddwn yn gweld mesur o wytnwch yn ein teuluoedd, ein cymunedau ac yn ein busnesau, ond maent yn disgwyl i ni yn y Cynulliad hwn i ddarparu ar eu cyfer. Maent yn disgwyl i ni sefyll dros y bobl, cymunedau ac economi Cymru. Dyna beth mae'r Llywodraeth Cymru hon yn ei wneud heddiw.

5.15 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you. The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer voting until voting time, which will now follow. There is only one vote and that is on the budget. Are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch yn fawr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio, a fydd yn dilyn yn awr. Dim ond un bleidlais sydd ac mae honno ar y gyllideb. A oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5109: O blaid 25, Ymatal 7, Yn erbyn 18.*
*Motion NDM5109: For 25, Abstain 7, Against 18.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark

Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Watson, Joyce
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** That concludes today's business.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hnny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.17 p.m.*
*The meeting ended at 5.17 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)

Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru Annibynnol – Independent Plaid Cymru)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)